

Annwyl Syr / Fadam,

Atodir agenda a dogfennau eraill isod ar gyfer cyfarfod o'r **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**.

Yr eiddoch yn gywir,

Gary Williams

**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd**

---

Dear Sir / Madam,

An agenda and other documents for a meeting of the **North Wales Economic Ambition Board** are attached below.

Yours faithfully,

Gary Williams

**Head of Legal and Democratic Services**

## **AGENDA**

### **1 PECYN AGENDA**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



north wales economic ambition board  
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



CONWY  
CYNGOR BWRDISTROF SIRIOL  
COUNTY BOROUGH COUNCIL



CYNGOR  
Sir Ddinbych  
Denbighshire  
COUNTY COUNCIL



CYNGOR  
Sir y Fflint  
Flintshire  
COUNTY COUNCIL



wrexham  
COUNTY BOROUGH COUNCIL  
CYNGOR BWRDISTROF SIRIOL  
wrecsam

Cyfarfod

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**11.00 y.b., DYDD GWENER, 12FED EBRILL, 2019**

Lleoliad

**Ystafell Bwyllgor 1a & 1b, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun. LL15 1YN**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 05/04/19)

# **BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

## **Aelodau a phleidlais**

### **Y Cynghorwyr**

Hugh Evans	Cyngor Sir Ddinbych
Llinos Medi Huws	Cyngor Sir Ynys Môn
Gareth Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Mark Pritchard	Cyngor Sir Wrecsam
Aaron Shotton	Cyngor Sir y Fflint
Dyfrig L. Siencyn	Cyngor Gwynedd

## **Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais**

Dafydd Evans	Grwp Llandrillo Menai
Maria Hinfelaar	Prifysgol Glyndwr
David Jones	Coleg Cambria
Is-ganghellor, yr Athro Graham Upton	Prifysgol Bangor
Ashley Rogers	Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy
Sasha Davies	Bwrdd Cyflawni Busnes

## **Prif Swyddogion - Heb Bleidlais**

Dr Gwynne Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Iwan Davies	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Colin Everett	Cyngor Sir y Fflint
Judith Greenhalgh	Cyngor Sir Ddinbych
Ian Bancroft	Cyngor Sir Wrecsam
Dilwyn Williams	Cyngor Gwynedd

## **Swyddogion yn bresennol**

Dafydd L. Edwards	Swyddog Adran 151
Iwan Trefor Jones	Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd
Iwan G. Evans	Swyddog Monitro

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL 4 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Mawrth, 2019 fel rhai cywir (ynghlwm).

## 5. DIWEDDARIAD AR RAGLEN WAITH Y BWRDD UCHELGAIS 11 - 26

Adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol (ynghlwm).

## 6. COFRESTR RISG 27 - 39

Adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol (ynghlwm).

## 7. SEFYDLU IS-FWRDD TRAFNIDIAETH 40 - 44

Adroddiad gan Iwan Evans, Swyddog Monitro (ynghlwm).

## 8. BWRDD CYFLAWNI BUSNES 45 - 50

Adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol (ynghlwm).

## 9. PAPUR GWYN LLYWODRAETH CYMRU - GWELLA TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS 51 - 64

Adroddiad gan Iwan Prys Jones, Rheolwr Rhaglen (ynghlwm).

## 10. ADOLYGIAD(AU) BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE (SBCD) 65 - 113

Adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol (ynghlwm).

# Eitem 4

BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU Dydd Gwener, 15 Mawrth 2019

---

## BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD GWENER, 15 MAWRTH 2019

---

### YN BRESENNOL:

Aelodau â Phleidlais – Y Cyngorwyr:- Gareth Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mark Pritchard (Cyngor Wrecsam), Aaron Shotton (Cyngor Sir y Fflint), Dyfrig L.Siencyn (Cyngor Gwynedd), Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Mon).

Ymgynghorwyr – Sasha Davies (Cadeirydd y Gweithdy Busnes Gogledd Cymru), Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndwr), Steve Jackson (Coleg Cambria), Yr Athro Jo Rycroft-Malone (Prifysgol Bangor), Ashley Rogers (Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy)

Prif Swyddogion - Marc Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint), Judith Greenhalgh (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Bancroft (Cyngor Wrecsam), Dilwyn Williams (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol – Dafydd L.Edwards (Swyddog Adran 151), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd), Iwan Evans (Swyddog Monitro) ac Annes Sion (Swyddog Cefnogi Aelodau).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

Derbynwyd ymddiehruiadau gan y Cyng. Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Mon), Cyng. Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Yr Athro Graham Upton (Prifysgol Bangor) a David Jones (Coleg Cambria).

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Iwan Trefor Jones ar gyfer eitem 9 – Cyfarwyddwr Rhaglen Bwrdd Ucheglais Economaidd Gogledd Cymru – oherwydd natur y swydd dan sylw roedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

### 3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw fater bryd

### 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd Y Cadeirydd gofnodion o'r cyfarfod hwn a gynhaliwyd ar y 1af Chwefror fel rhai cywir.

### 5. LLYWODRAETHU BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd gan Iwan Evans, Swyddog Monitro.

## **PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd i:

1. Derbyn yr adroddiad
2. I dderbyn y bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru cyn belled y mae'n rhesymol bosib yn cyfarfod mewn un lleoliad priodol yng Ngogledd Cymru yn ôl unol a'r adroddiad.
3. Yn ddarostyngedig i sefydlu Bwrdd Arweinyddion Busnes ffurfiol. I benodi Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes Gogledd Cymru fel Ymgynghorydd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a chadarnhau strwythur Ymgynghorwyr.
4. Fod adroddiad pellach ar yr Is fyrddau arfaethedig yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
5. I dderbyn Protocol Gweithredol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ddarostyngedig i gadarnhadu hawl i'r Swyddog Monitro ac i'r Swyddog Adran 151 i adrodd yn unigongyrchol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru pe cyfyd angen.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan ddatgan mai ei brif fwriad yw i symud y rhaglen Lywodraethu yn ei blaen. Cafwyd trafodaeth am yr argymhellion yn y penderfyniad yn unigol.

Trafodwyd lleoliad priodol ar gyfer cyfarfodydd gyda'r bwriad o gael lleoliad canolog, nodwyd fod lleoliad wedi ei drefnu ar gyfer y cyfarfodydd nesaf yng Nghonwy. Mynegwyd na fydd amser yn cael ei nodi yn y protocol ond yn hytrach fod penderfyniad y bydd y cyfarfod yn anelu i gychwyn am 1y.h. gan bwysleisio fod hyblygrwydd o ran amser. Trafodwyd penodi Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes Gogledd Cymru fel ymgynghorydd i'r Bwrdd Uchelgais, a cytunwyd ar hyn.

Nodwyd o'r themâu allweddol fod Trafinidaieth a'r Cynllun Digidol wedi eu blaenoriaethu fel ys is-bwyllgorau cyntaf i gael eu ffurfio. Ychwanegwyd fod angen trafodaeth bellach ar y mater er mwyn cael cynlluniau i sefydlu'r is-bwyllgorau o ran aelodaeth ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd Uchelgais.

Tynnwyd sylw at y Protocol Gweithredol ar gyfer y Cydbwyllgor sydd yn gosod sylfaen ac amerlen ar gyfer cyfarfodydd ac adroddiadau ynghyd a gosod sicrwydd ar gyfer cyfeiriad y Bwrdd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Cafwyd trafodaeth am y themâu allweddol sydd yn cael eu blaenoriaethu, mynegwyd fod angen trafodaeth bellach yn y grŵp gweithredol ac ystyried amserlen.
- Tynnwyd sylw at adroddiadau y Bwrdd Uchelgais yn cael eu gyflwyno i'r Grŵp

Gweithredol bythefnos cyn y cyfarfod, gan nodi na ddylid adroddiadau gan y Swyddog Monitro nac y Swyddog Adran 151 gael eu cynnwys yn y drefn ac y bydd modd iddynt hwy gyflwyno eu hadroddiadau yn uniongyrchol i'r Bwrdd.

## 6. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - CYNLLUN GWEITHREDU DRAFFT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Trefor Jones

### PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu fel sail ar gyfer trafodaethau pellach gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gytundeb Penawdau'r Telerau Posib ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ddarostynedig i'r addasiadau isod yn cael eu ymgorffodi yn y Cynllun:

1. Hyblygrwydd o ran amerlenu, proffilio gwariant a blaenoriaethu prosiectau yn Rhan 7 o'r Cynllun Gweithredu ar sail eu haeddfedrwydd a'u fforddiadwyedd.
2. Hyblygrwydd ar y pecyn cyllideb gan y ddwy Lywodraeth ar gyfer gweithredu'r prosiectau yn y Cynllun Gweithredu.
3. Ychwanegu amserlen ar gyfer sefydlu Gorffennaf 2019 fel y dyddiad ar gyfer cytuno Pennawdau'r Telerau i'r naill Lywodraeth.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai pwrpas y Cynllun Gweithredu yw amlygu cynnig y Bwrdd Uchelgais yngyd ag amlygu cyd-destun ynghyd a gweledigaeth TWF. Mynegwyd fod y ddogfen wedi ei greu drwy gydweithrediad ac wedi ei gymeradwyo gan y Grŵp Gweithredol. Ategwyd fod y cynllun yn dod a'r prif faterion at ei gilydd gan gynnwys amserlen y cynlluniau, cynlluniau busnes amlinellol a threfniadau swyddfa raglen. Esboniwyd y bydd y Cynllun Gweithredu yn amlygu i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fod y cynlluniau yn gyffroes a bod trefn effeithiol yn y rhanbarth.

Tynnwyd sylw at Wylfa gan nodi fod y Cynllun yn rhoi ystyriaeth lawn i Wylfa ynghyd a'r camau nesaf fydd angen eu cymryd. Ychwanegwyd fod rôl busnesau i'w gweld yn y Cynllun yn llawn bellach gyda Phencampwr o'r Sector Fusnes i'w gweld ym mhob prosiect.

Nodwyd fod y Cynlluniau Busnes Amlinellol yn cyflwyno tystiolaeth ar gyfer yr holl brosiectau yn rhan o'r Cynllun Gweithredu. Nodwyd fod cyfarfod wedi cael ei gynnal wythnos diwethaf gyda'r Bwrdd Cyflawni Busnes Gogledd Cymru i drafod yr holl brosiect gan nodi'r deilliannau a phryderon gan amlygu'r cyd-gysylltu a fydd rhwng y Sector Breifat a'r Bwrdd Uchelgais. Yn ychwanegol at hyn pwysleisiwyd yr angen i symud ymlaen gyda rhai prosiectau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd cyfarfod oedd wedi ei gynnal gyda'r Bwrdd Cyflawni Busnes Gogledd Cymru ac amlinellwyd y drafodaeth adeiladol a gafwyd yno. Mynegwyd fod aelodau'r grŵp yn teimlo yn bositif fod llawer o'r gwaith wedi ei wneud. Nodwyd fod angen codi momentwm a datblygu cynlluniau, gan nodi pwysigrwydd datblygu swyddi yn y blynyddoedd cyntaf. Wrth



edrych ar y gyllideb, mynegwyd fod y Bwrdd yn hapus fod mwy o arian yn mynd at gyflawni y thema Safleoedd ac Eiddo. Ategwyd y bydd angen mwy o arian ar gyfer cyflawni'r thema Digidol. Amlinellwyd fod busnesau allweddol bellach yn rhan o'r cynllun ac felly roedd y Bwrdd yn credu nad oedd angen ail fwrdd ymgynghorol. Pwysleisiwyd fod gwaith pellach angen ei wneud i gyfathrebu ac adeiladu ar yr hyder sydd i'w gweld yn y rhanbarth.

- Ychwanegwyd balchder fod busnesau eisiau bod yn rhan o'r cynllun, rhywbeth oedd wedi codi pryder ar ddechrau'r cynllun.
- Trafodwyd yr angen i brosiectau bellach symud yn eu blaenau er mwyn cadw hygyrdd yr holl gynllun. Mynegwyd fod sialensiau am godi ond angen dangos arweinyddiaeth glir i symud cynlluniau yn eu blaenau. Ychwanegwyd nad oes angen i bob prosiect symud ar yr un cyflymder, ac fod amserlen y cynlluniau yn hyblyg ac felly yn gallu datblygu pan fyddant yn barod.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd i'r Bwrdd Uchelgais roi amserlen i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno cytundeb Penawdau'r Telerau erbyn mis Gorffennaf er mwyn sicrhau fod y prosiectau yn cael ei symud ymlaen gan fod rhai themau megis Trafnidiaeth yn barod am y camau gweithredol.
- Holwyd os y bydd meini prawf gwrthrychol ar gyfer unrhyw weithredu/blaenoriaethu prosiectau pellach ac os y bydd cyfle i wahodd achosion busnes llawn.
- Holwyd os oes gwaith wedi ei wneud i gysylltu ag adeiladwyr tai yn uniongyrchol - nodwyd fod cyswllt wedi ei wneud gyda hwy ond fod gwaith pellach angen ei wneud.
- Amlygwyd yr angen i symud y Cynllun Gweithredol yn ei blaen, ac i wneud yn sicrhau fod TWF y Gogledd ar agenda Llywodraeth Cymru.
- Ychwanegwyd yr angen i fod yn cyfathrebu y gwaith mae TWF yn ei wneud ymlaen i'r holl aelodau etholedig y rhanbarth fel bod pob un ohonynt yn ymwybodol o'r Cynllun.

## **7. CYLLIDEB 2019-20**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd Edwards

### **PENDERFYNIAD**

- I. Derbyn a mabwysiadu Cyllideb y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar gyfer 2019/20, wedi'i rannu rhwng costau'r Swyddfa Rheoli Rhaglen, Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol a'r Cydbwyllgor.
- II. Cymeradwyo'r trefniadau ac ariannu i Gyngor Gwynedd gyflawni

swyddogaethau'r Corff Atebol, fel y nodir yn yr adroddiad.

- III. Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Rhaglen a Swyddog Adran 151 Cyngor Gwynedd i weithredu'r gyllideb a gymeradwyir.
- IV. Cymeradwyo i drosglwyddo'r tanwariant o'r cyn trefniadau cysgodol i Gydbwyllgor y Bwrdd Uchelgais Economaidd.
- V. Cymeradwyo i drosglwyddo'r tanwariant ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018/19 i gronfa wrth gefn neilltuol, fydd ar gael i ariannu costau un-tro yn y dyfodol.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r angen cymeradwyo'r gyllideb ac yr argymhelliad a gyflwynwyd. Nodwyd mai 2019/20 fydd y flwyddyn gyllideb lawn gyntaf y Cydbwyllgor a tynnwyd sylw penodol i benawdau yn y gyllideb. Nodwyd mai dim ond tair swydd sydd wedi ei hariannu ar gyfer cost Swyddfa Rheoli Rhaglen a fod ychydig o gyllideb ar gael ar gyfer Eiddo. Mynegwyd, gan nad oes penderfyniad wedi ei wneud am leoliad y Swyddfa Rheoli Rhaglen, gall costau newid yn unol â hynny. Ychwanegwyd fod y gyllideb ar gyfer y gost Swyddfa Rheoli Rhaglen yn rhagdybio y bydd angen prynu gwasanaeth i mewn ar gyfer cynllunio a datblygu prosiectau.

Mynegwyd fod y gost ar gyfer Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol yn ffigwr ceidwadol, a bod nifer uchel o'r cyllideb yn mynd tuag at yr adran Gyllid. Yn y gyllideb hon, ategwyd, fod costau technoleg gwybodaeth ar gyfer cyfarpar a chefnogaeth technoleg gwybodaeth i'r tair swydd yn Swyddfa Rheoli Raglen. Ychwanegwyd y gall costau newid yn ddibynnol ar y lleoliad ac ati.

Nodwyd fod Cyfraniadau Partneriaid (Eraill) yn gyfraniad y chwe Cyngor, mynegwyd fod newid mewn pennawd er mwyn symilhau'r gyllideb. Gofynnwyd i fabwysiadu'r gyllideb fel bod modd symud ymlaen.

Sylwadau'n Codi o'r drafodaeth

- Gofynnwyd am ddadansoddiad manwl o gostau cefnogaeth y Gwasanaeth Cyllid, gan fod y ffigwr o £105,000 yn ymddangos yn uchel. Nodwyd y bydd copi manwl yn cael ei anfon at yr aelodau yn y dyddiau nesaf.
- Holwyd am adroddiad am gost haen uchaf pob penawd, i sicrhau fod y lefel ar gael ar gyfer yr haen uchaf yn gywir, ond mynegwyd y bydd mwy o eglurdeb am y mater pam yn edrych ar y modelau achosion busnes yn ystod y tri mis nesaf.

## **8. DIWEDDARIAD AR RAGLEN WAITH Y BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Trefor Jones

### **PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo statws RAG (Red, Amber, Green) pob tasg o fewn y Rhaglen Waith gan nodi fod dau weithred o'r adran Penawdau'r Telerau sydd yn cael ei nodi yn isod yn newid o liw melyn i goch.

- Sesiynau Herio gyda Gweinidogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru

- Cymeradwyaeth ffurfiol i Benawdau'r Telerau ar gyfer Cynllun Twf.

Addasu'r amserlen a'r cyfrifoldeb ar gyfer rhai tasgau yn y Rhaglen Waith, yn unol â'r eglurhad yn rhan 4.3 a 4.4 o'r adroddiad.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn manylu ar statws pob elfen o'r rhaglen waith. Ychwanegwyd fod y statws RAG (Red, Amber, Green) yn amlygu barn y Grŵp Gweithredu. Tynnwyd sylw at dasgau sydd wedi eu hamserlennu ar gyfer Chwarter 1, ond na fydd yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlen, un o'r rhain oedd sesiynau herio gyda Gweinidogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Nodwyd fod angen sicrwydd fod y cyfarfodydd herio yma yn cael eu cynnal.

Mynegwyd fod cais wedi ei gyflwyno i gyflwyno prosiect i'r LFFN (Local Full Fibre Network) sydd bellach wedi ei gymeradwyo a bod cynlluniau yn eu lle er mwyn dod o hyd i arian ychwanegol. Ategwyd fod gwaith cyson yn cael ei wneud i'r ddogfen a bydd y Cyfarwyddwr Arweiniol yn adrodd i'r Bwrdd i fod yn gwbl agored os oes unrhyw lithriad yn digwydd i brosiectau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod yr adroddiad yn dangos y datblygiad a rhwystrau o fewn y Cynllun.
- Nodwyd mai'r prif bryder yw'r amserlen ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol i Benawdau'r Telerau, a'r rhwystredigaeth mae hynny yn ei greu i'r Bwrdd. Ategwyd ei bod yn syniad i'r lliw newid o felyn ar gyfer y pwynt yma i goch er mwyn sicrhau fod amserlen yn ei le. Mynegwyd y byddai'n syniad anfon llythyr at y ddau Lywodraeth yn rhoi amserlen y Bwrdd Uchelgais i gyflwyno'r Penawdau'r Telerau iddynt.
- Mynegwyd fod trafodaethau yn cael ei gynnal ar gyfer lleoliad Trawsfynydd a nodwyd y byddai'n bosib i'r cynllun hwn gael trefn lywodraethol wahanol i eraill. Er trafodaethau i ddatblygu Trawsfynydd nodwyd fod angen cefnogi Wylfa yn ogystal, o ran lleoliad a chyfluoedd.

## **9. CYFARWYDDWR RHAGLEN BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd gan Dilwyn Williams - Prif Weithredwr Corff Atebol

### **PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd fod:

- I. Cyfarfod sydd wedi ei amserlennu o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cytuno ar restr fer o ymgeiswyr i'w gwahodd ar gyfer ystyriaeth bellach.
- II. Pob ymgeisydd ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i fynychu Canolfan Asesu Broffesiynol. Byddai Ganolfan Asesu yn cael ei harwain gan asesydd allanol a ddefnyddir gan y Corff Atebol ar gyfer penodi i uwch swyddi. Bydd yr asesydd yn

darparu adroddiad ysgrifenedig ar berfformiad pob ymgeisydd.

- III. Cyfweliad ffurfiol gyda phob ymgeisydd ar y rhestr fer mewn cyfarfodydd ychwanegol o'r Bwrdd i'w drefnu gydag adborth o'r Ganolfan Asesu i'w ddarparu yn y cyfarfod cyn gwneud y penodiad.
- IV. Cytunwyd, yn dilyn asesiad swydd, y bydd y swydd yn cael ei hysbysebu gyda'r cyflog o £86,000 i £96,000, gyda'r hyblygrwydd o ychwanegiad y farchnad os y byddai ymgeisydd arbennig yn ymgeisio.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Bwrdd wedi nodi eisoes eu bod yn awyddus i benodi mor fuan a bod modd ac i sicrhau fod y broses recriwtio yn effeithiol a gwydn. Nodwyd fod y swydd bellach wedi ei arfarnu yn dilyn trefn Cyngor Gwynedd ac mae wedi arfarnu'r swydd a'r gyflog o £86,000 i £96,000.

Tynnwyd sylw ar y drefn recriwtio gan holi'r camau mae'r Bwrdd am ei gymryd o ran hysbysebu a creu rhestr fer.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod y cyflog yn deg, ond ategwyd yr angen isod yn hyblyg gyda'r cyflog a nodwyd y byddai ystyriaeth i ychwanegiadau'r farchnad os byddai ymgeisydd arbennig yn ymgeisio.
- Nodwyd fod angen i'r Bwrdd Uchelgais greu'r rhestr fer mewn cyfarfod sydd wedi ei amserlennu yn barod.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:10 a daeth i ben am 14:50

## **CADEIRYDD**



---

## ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

12 Ebrill, 2019

---

**TEITL:** *Diweddariad ar Raglen Waith y Bwrdd Uchelgais*

**AWDUR:** *Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*

---

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Pwrpas y ddogfen (sydd wedi gynnwys yn Atodiad 1) ydi i roi diweddariad ar gynnydd y tasgau o fewn Rhaglen Waith y Bwrdd Uchelgais. Mae holl dasgau y Rhaglen Waith wedi ei adolygu a chael statws RAG (Coch, Melyn a Gwyrdd) er mwyn adrodd ar y cynnydd.
- 1.2. Cafodd y Rhaglen Waith ei cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar y 1af o Chwefror 2019.
- 1.3. Cafodd cais ei wneud yn ystod cyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 15fed o Fawrth 2019 i adolygu y Rhaglen Waith yn rheolaidd.

### 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Adolygu, diweddarau a cymeradwyo statws RAG pob tasg o fewn y Rhaglen Waith.
- 2.2. Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Rhaglen mewn ymgynghoriad gyda Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Bwrdd Uchelgais i gytuno ar swydd ddisgrifiad a'r broses o benodi Rheolwr Rhaglen Ddigidol.
- 2.3. Ymrwymo hyd at £55,000 (yn amodol ar arfarniad swydd a llwyddiant y Cynllun Twf) o'r gyllideb "Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau" ar gyfer ariannu'r swydd Rheolwr Rhaglen Ddigidol dros dro am gyfnod o flwyddyn.

### 3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Diweddarau ar gynnydd tasgau'r Rhaglen Waith.
- 3.2. Penodi Rheolwr Rhaglen Digidol.

### 4. CEFNIDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Mae'r rhaglen waith yn gosod allan tasgau allweddol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd dros 3 chwarter. Mae'r rhaglen waith yn adnabod 10 categori allweddol, gyda tasgau penodol yn erbyn y categorïau. Mae amserlen a cyfrifoldeb wedi osod yn erbyn pob tasg, ynghyd a statws RAG.
- 4.2. Mae pob tasg wedi ei adolygu ac wedi cael statws RAG, yn unol a'r canllawiau isod:

Statws RAG	Statws y dasg	Camau angenrheidiol
<b>GWYRDD</b>	Ar y trywydd iawn i'w gwblhau o fewn yr amserlen ddymunol	Dim angen camau rheoli
<b>MELYN</b>	Efallai bod risg na fydd y dasg yn cyrraedd yr amserlen	Camau rheoli ei angen i fynd i'r afael â materion
<b>COCH</b>	Mae risg bod y dasg yn mynd i fethu'r dyddiad cwblhau a amserlenwyd	Camau brys eu hangen i fynd i'r afael â materion

- 4.3. Mae pob tasg oedd wedi ei amserlennu ar gyfer Ch1 2019 yn wyrdd ac wedi ei cwblhau.
- 4.4. Mae mwyafrif y tasgau sydd wedi amserlenni ar gyfer Ch2 2019 ar y trywydd iawn i gwblhau o fewn yr amserlen ac efo statws RAG gwyrdd neu melyn. Gyda'r eithriad o'r isod mewn melyn:
- Sesiynau Herio gyda Gweinidogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru – bydd rhain yn cael ei trefnu yn ystod Ch2.
  - Cymeradwyaeth ffurfiol i Benawdau'r Telerau ar gyfer y Cynllun Twf – Yn dilyn ymlaen o gyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 15/03/2019 anfonwyd llythyrau i Weinidogion y ddwy Lywodraeth yn amlygu y prosiectau mewn 2 gam gan nodi bydd angen cyrraedd Penawdau'r Telerau ddim hwyrach na Gorffennaf 2019 (Atodiad 2 & 3).
- 4.5. Mae'r Rhaglen Waith yn nodi bydd Rheolwyr Rhaglen yn cael ei penodi yn ystod Ch3 2019. Mae'r Swyddog Arweiniol ar y prosiect Cysylltedd Digidol wedi gwneud cais i ddwyn ymlaen amserlen penodi'r Rheolwr Rhaglen Digidol. Gyda'r penodiad yn cael ei wneud yn syth ar ôl penodi'r Cyfarwyddwr Rhaglen. Mae'r prosiect Cysylltedd Digidol yn aeddfedu, ac mae angen am adnodd llawn amser i yrru'r prosiect yn ei flaen.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.1. Ymrwymo hyd at £55,000 (yn amodol ar arfarniad swydd a llwyddiant y Cynllun Twf) o'r gyllideb "Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau" ar gyfer ariannu'r swydd Rheolwr Rhaglen Ddigidol dros dro am gyfnod o flwyddyn.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 6.1. Dim.

## 7. GOBLYGIADAU STAFFIO

- 7.1. Penodi Rheolwr Rhaglen Ddigidol dros dro am gyfnod o flwyddyn ar gyfer gyrru ymlaen y prosiect Cysylltedd Digidol.

## 8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

- 8.1. Dim.

## 9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIUYD

- 9.1. Mae'r Rhaglen Waith wedi drafod a'i gymeradwyo gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 29/03/2019.

---

**ATODIADAU:**

- Atodiad 1** Rhaglen Waith Sylfaenol y Bwrdd Uchelgais  
**Atodiad 2** Llythyr i Nigel Adams AS (25/03/2019)  
**Atodiad 3** Llythyr i Ken Skates AC (25/03/2019)
- 


**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro – Corff Atebol:**

“Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.”

**ii. Pennaeth Cyllid – Corff Atebol:**

“Cadarnhaf fy mod i wedi adolygu agweddau ‘Cyllid’ o’r Rhaglen Waith gyda’r awdur. Ymhellach, cadarnhaf gall y Bwrdd Uchelgais Economaidd benderfynu i ddefnyddio £55,000 o’r gyllideb ‘Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau’ ar gyfer ariannu’r swydd Rheolwr Rhaglen Ddigidol dros dro am gyfnod o flwyddyn, fel nodir yn rhan 2.3 o’r adroddiad. Cyflwynir sylwadau pellach, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Bwrdd.”



RHAGLEN WAITH SYLFAENOL AR GYFER Y BWRDD UCHELGAIS


Categori	Gweithred	Amserlen (Chwarteri, blwyddyn galendr)	Cyfrifoldeb	Statws RAG	Risg wedi adnabod
Penawdau'r Telerau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cymeradwyo "Rhaglenni" ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. (3 Maes Thematig Allweddol a 4 Hwylusydd Allweddol).</li> </ul>	Ch1 2019	Cyd-bwyllgor	WEDI GWBLHAU	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Asesu'r opsiynau a chytuno ar ffordd ymlaen ar y gyllideb o £240 miliwn sydd gael gan Lywodraeth y DU/Llywodraeth Cymru i gyflawni'r Cynllun Twf. (Cynllun Gweithredu Drafft)</li> </ul>	Ch1 2019	Cyd-bwyllgor	WEDI GWBLHAU	HT 05
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu Achosion Busnes Amlinellol i gyd-fynd â'r ymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu Drafft.</li> </ul>	Ch1 2019	Y Grŵp Cefnogaeth Weithredol	WEDI GWBLHAU	HT 04
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sesiynau Herio gyda Gweinidogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.</li> </ul>	Ch2 2019	Cynrychiolydd o'r Cyd-bwyllgor gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru		HT 02
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cymeradwyo Cynllun Gweithredu'r Cynllun Twf.</li> </ul>	Ch2 2019	Cyd-bwyllgor		HT 05
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno ar lefel briodol a chymesur o asesu a gwerthuso achosion busnes ar gyfer prosiectau'r cynllun twf.</li> </ul>	Ch2 2019s	Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LIC	Wedi gyflwyno i LIP ac LIC ar 24/03/2019	HT 04
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cymeradwyaeth ffurfiol i Benawdau'r Telerau ar gyfer y Cynllun Twf.</li> </ul>	Ch2 2019	Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LIC  Bydd angen ystyried hyn fel mater a allai olygu cael penderfyniad y Cynghorau unigol ar yr adeg briodol.		HT 01
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno ar y "cynlluniau ar yr ochr" gyda LIC neu MoUs (er enghraifft Trafnidiaeth, eiddo, Twf Busnes, Sgiliau i gyflawni'r Weledigaeth Twf).</li> </ul>	Ch3 2019	Cyd-bwyllgor / LIC		HT 06



Llywodraethu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ffurio'r Cyd-bwyllgor yn ffurfiol.</li> </ul>	Ch1 2019	Corff Atebol	WEDI GWBLHAU	GO 03
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trefniadau ymarferol ar gyfer y Cyd-bwyllgor.</li> </ul>	Ch1 2019	Corff Atebol / Cyd-bwyllgor	WEDI GWBLHAU	GO 03
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno ar Gylch Gorchwyl ac ymgysylltiad gyda'r Bwrdd Gweithredol Busnes (bwrdd ymgynghorol y sector preifat).</li> </ul>	Ch2 2019	Cyd-bwyllgor	Adroddiad i'r BUEGC ar 12/04/2019	GO 10
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adnabod a chytuno ar raglen waith chwe mis ar gyfer y Cyd-bwyllgor.</li> </ul>	Ch1 2019	Cyd-bwyllgor	WEDI GWBLHAU	GO 05
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adnabod cylch gorchwyl cychwynnol ar gyfer is-bwyllgorau, yn benodol yr is-bwyllgor trafndiaeth a'r is-bwyllgor digidol.</li> </ul>	Ch2 2019	Cyd-bwyllgor	Adroddiad i'r BUEGC ar 12/04/2019	GO 08
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adnabod cylch gorchwyl cychwynnol ar gyfer yr is-bwyllgorau "anffurfiol" (Sgiliau a Chyflogaeth, Safleoedd ac Eiddo, Busnes ac Arloesi, Twristiaeth).</li> </ul>	Ch2 2019	Cyd-bwyllgor	Adroddiad i'r BUEGC ar Sgiliau a Chyflogaeth ar 19/07/2019	GO 08
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adnabod a dewis yn derfynol y Corff Atebol ar gyfer GA2.</li> </ul>	Ch3 2019	Cyd-bwyllgor		GO 07
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytundeb ar Drefniadau Craffu.</li> </ul>	Ch2/Ch3 2019	Cyd-bwyllgor a Trefniadau craffu'r Cynghorau	Adroddiad i'r BUEGC ar 12/04/2019	GO 09
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgymryd â phroses benodi gyhoeddus ar gyfer y Grŵp Arweinwyr Busnes.</li> </ul>	Ch3 2019	Cyd-bwyllgor	Adroddiad i'r BUEGC ar 12/04/2019	GO 11
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trafod a chytuno ar gydweithio a model llywodraethu gyda'r Grŵp Tai</li> </ul>	Ch2 2019	Cyd-bwyllgor		
Cyllid	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adnabod, adolygu a chytuno ar gyllideb ar gyfer 2019/20 a chyfraniadau gan yr holl bartneriaid.</li> </ul>	Ch1 2019	Corff Atebol / Cyd-bwyllgor	WEDI GWBLHAU	FIN 01
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adnabod, adolygu a chytuno ar gyllideb dros 3 blynedd a chyfraniadau gan yr holl bartneriaid.</li> </ul>	Ch1 2020	Corff Atebol / Cyd-bwyllgor Bydd cynnydd mewn cyfraniadau yn faterion a gedwir i'r Partïon		FIN 01
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno ar gyllideb ar gyfer y Corff Atebol.</li> </ul>	Ch1 2019	Cyd-bwyllgor	WEDI GWBLHAU	FIN 01
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno ar y sefyllfa gyda NNDR a chyfalafu.</li> </ul>	Ch3 2019	Swyddogion Adran 151 / Corff Atebol / Cyd-bwyllgor		FIN 02

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adnabod a chytuno ar ofynion benthyca'r Awdurdodau Lleol.</li> </ul>	Parhaus	Partneriaid a Swyddogion Cyllid y Corff Atebol		FIN 03
<b>Swyddfa Rhaglen</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno ar y broses recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwr Rhaglen.</li> </ul>	Ch1 2019	Cyd-bwyllgor / Corff Atebol	WEDI GWBLHAU	PO 01
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Penodi Cyfarwyddwr Rhaglen.</li> </ul>	Ch2 2019	Cyd-bwyllgor		PO 01
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno ar ddyluniad a strwythur y Swyddfa Rhaglen.</li> </ul>	Ch2 2019	Cyd-bwyllgor / Corff Atebol		PO 02
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno ar Gais Capasiti Sefydliadol ESF i gefnogi gyda gwaith y Swyddfa Rhaglen.</li> </ul>	Ch3 2019	Cyd-bwyllgor / Corff Atebol	Adroddiad i'r BUEGC ar 21/06/2019	PO 03
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Penodi Rheolwyr Rhaglen o fewn y Swyddfa Rhaglen.</li> </ul>	Ch3 2019	Cyd-bwyllgor / Corff Atebol		PO 04
<b>Strategaethau a Phrosiectau a Gomisiynwyd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno ar y Broses Cymeradwyo Prosiectau (a'r broses ddirprwyo).</li> </ul>	Ch2 2019	Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LIC		CSP 01
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno ar brosiect Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru a'r Cynllun Gweithredu.</li> </ul>	Ch2 2019	Cyd-bwyllgor	Adroddiad i'r BUEGC ar 21/06/2019	CSP 02
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflwyno'r prosiect LFFN.</li> </ul>	Ch2 2019 ymlaen	Cyd-bwyllgor		
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu Modelau Busnes Pum Achos ar gyfer Prosiectau'r Cynllun Twf.</li> </ul>	Ch2/Ch3 2019	Cyd-bwyllgor		
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cymeradwyo'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth.</li> </ul>	Ch3 2019	Cyd-bwyllgor		
<b>Cyfreithiol a Chaffael</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu Templed o Gytundeb Ariannu i alluogi trosglwyddo arian y Cynllun Twf i Awdurdodau Arweiniol y Prosiectau sy'n derbyn yr arian.</li> </ul>	Ch2 2019	Corff Atebol / Swyddogion Adran 151 / Monitro / Cyd-bwyllgor		
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno ar gynllun prosiect ac amserlen i fabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 2.</li> </ul>	Ch2 2019	Cyd-bwyllgor / Swyddogion Monitro		LP 01
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 2.</li> </ul>	Ch3 2019	Materion a gedwir i'r Partion		GO 07
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno ar Strategaeth Gaffael y Cynllun Twf.</li> </ul>	Ch3 2019	Cyd-bwyllgor / Corff Atebol		LP 02
<b>Monitro ac Arfarnu</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu Cofrestr Risg y Rhaglen.</li> </ul>	Ch1 2019	Cyd-bwyllgor	WEDI GWBLHAU	MP 01
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno ar Gynllun Monitro ac Arfarnu.</li> </ul>	Ch1 2019	Cyd-bwyllgor		MP 02
<b>Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu a chytuno ar gynllun ymgysylltu â busnesau a rhanddeiliaid.</li> </ul>	Ch2 2019	Cyd-bwyllgor		SEC 01
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu a chytuno ar gynllun ymgysylltu â busnesau a rhanddeiliaid gwleidyddol.</li> </ul>	Ch2 2019	Cyd-bwyllgor		SEC 01
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno ar Gynllun a phrotocol Cyfathrebu.</li> </ul>	Ch2 2019	Cyd-bwyllgor		SEC 01

<b>Swyddogaeth Ranbarthol Strategol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Edrych i mewn i swyddogaethau strategol allweddol ar lefel ranbarthol a fydd yn helpu i gefnogi gweithrediad y cynllun a gweithgareddau datblygu ehangach.</li> </ul>	Parhaus	Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LIC		
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cytuno ar brotocol gyda Gweinidog Gogledd Cymru a'r Pwyllgor Sefydlog Rhanbarthol newydd.</li> </ul>	Ch2 2019	Cyd-bwyllgor / Gweinidog Gogledd Cymru / Pwyllgor Sefydlog Rhanbarthol		
<b>Rheoli Cyflawni</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pob Bwrdd Prosiect yn ei le i gydlynu cyflawni'r prosiectau sydd wedi'u comisiynu.</li> </ul>	Parhaus	Arianwyr y Prosiectau		GO 08



# north wales economic ambition board

## bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Councillor/Cynghorydd Aaron Shotton,  
Arweinydd Cyngor Sir Y Fflint  
Leader, Flintshire County Council  
County Hall, Mold CH7 6NB  
Neuadd Y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NB

Ein cyf / Our ref:  
Dyddiad/Date: 25 Mawrth 2019  
Rhif union/Direct dial: 01352 702105  
Ebst/Email: [aaron.shotton@flintshire.gov.uk](mailto:aaron.shotton@flintshire.gov.uk)

### **Nigel Adams AS**

Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru  
1 Caspian Point  
Caerdydd  
CF10 4DQ

Annwyl Nigel,

### **Cynllun Twf Gogledd Cymru**

Diolch am fynychu cyfarfod o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 1 Chwefror, ac am eich llythyr wedi hynny.

Mae'r Bwrdd yn awyddus i symud yn gyflym ac yn benderfynol i gyflawni Cytundeb Penawdau'r Telerau ddim hwyrach na mis Gorffennaf. Rydym wedi cynnal dau gyfarfod Bwrdd yn agos at ei gilydd er mwyn cwblhau ein Cynllun Gweithredu ar gyfer y Cynllun Twf ers i ni gyfarfod. Mae swyddogion y ddwy Lywodraeth wedi gwneud cais am Gynllun Gweithredu pwrpasol a chyflawnadwy, a bellach rydym yn medru cyflwyno Cynllun o'r fath. Mae'r Cynllun Gweithredu ynghlwm.

Yn ein cyfarfod Bwrdd diweddaraf a gynhaliwyd ar 15 Mawrth, fe wnaethom gadarnhau'r Cynllun Gweithredu hwn gyda chefnogaeth unfrydol yr holl bartneriaid. Drwy gyfres o sesiynau cyn cyfarfod yr wythnos ddiwethaf, rydym wedi cael mewnbwn dwys gan arweinwyr busnes o'r holl sectorau allweddol.

Mae'r Cynllun Gweithredu wedi derbyn hyder y gymuned fusnes. Yn ogystal, mae swyddogion y Llywodraeth wedi cyfrannu at ddatblygu'r Cynllun dros gyfnod o amser.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi:-

- yr uchelgais strategol ar gyfer y Cynllun Twf;
- y gyfres o raglenni a'r ymyraethau prosiect ar gyfer y tri sector pennaf a'r pedwar hwylusydd;
- crynodeb o'r achos busnes amlinellol ar gyfer pob prosiect yn cynnwys eu deilliannau a'u buddion, eu proffil ariannol, a manylion buddsoddiad uniongyrchol ac anuniongyrchol y sector preifat a chyhoeddus;
- amserlen ddangosol; a




CYNGOR SIR  
YNYSS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



CYNGOR  
Sir Ddinbych  
Denbighshire  
COUNTY COUNCIL





# north wales economic ambition board

## bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

- rhyng-ddibyniaethau'r rhaglenni a'r prosiectau.

Yn ogystal, mae'r Cynllun yn nodi:-

- rôl, swyddogaethau a threfniadau llywodraethu'r Bwrdd Uchelgais Economaidd;
- rôl a chyfraniad parhaus y sector preifat;
- trefniadau ar gyfer cyfathrebu gyda rhanddeiliaid;
- rheoli gweithredu rhaglenni; a
- threfniadau monitro a gwerthuso.

Mae mewnbwn y sector preifat i ddatblygu'r Cynllun wedi bod yn sylweddol. Mae hyn wedi'i gydlynu gan Fwrdd Cyflawni Busnes Gogledd Cymru sydd newydd ei sefydlu. Mae disgwyliadau uchel i weld y Cynllun yn cael ei gyflawni o 2020/21 gyda chefnogaeth gref i ehangu rhaglenni a phrosiectau, lle bo hynny'n bosib gyda buddsoddiad anuniongyrchol a chyfalaf ychwanegol, i gyflawni newid trawsffurfiol ar raddfa ranbarthol.

Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo cam cyntaf yr adnoddau i adeiladu capasiti rhanbarthol yn barod ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau 'byw' a ariennir drwy'r Cynllun Twf o 2020/21. Mae cael cytundeb gan y Llywodraethau ynghylch Penawdau'r Telerau ddim hwyrach na mis Gorffennaf yn hanfodol os ydym am fod yn barod ar amser i gyflawni'r disgwyliadau yr ydym oll wedi'u codi ledled y rhanbarth.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod rhai prosiectau ar ein rhestr arfaethedig o bedwar ar ddeg prosiect ymyrraeth ar y blaen i rai eraill yn nhermau pa mor barod ydynt. Felly, rydym yn cynnig cynnwys bob un o'r pedwar ar ddeg prosiect o fewn ystod y Penawdau'r Telerau ond dim ond cynnwys y rhai sy'n fwy parod yn y cam cyntaf hwn. Byddai'r rhai yn y cam cyntaf yn symud ymlaen ar unwaith i'r model busnes pum achos. Byddai'r prosiectau sy'n weddill yn cael eu datblygu ymhellach mewn ail gam i ddilyn yn fuan wedyn. Er eglurder, gyda 'pharod' rydym yn golygu bodloni profion (a) prawf cysyniadol (b) deilliannau ac effaith (c) buddsoddiad a buddsoddiad anuniongyrchol y sector preifat a (d) parodrwydd i gyflawni ar amser.

Mae'r prosiectau sydd wedi'u cefnogi gan y Bwrdd i fod yn y cam cyntaf, gan eu bod yn ddigon parod, yn cynnwys:-

- Prosiect Cysylltedd Digidol
- Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol
- Porth Caergybi
- Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar
- Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd




CYNGOR SIR  
YNYNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



CYNGOR  
Sir Ddinbych  
Denbighshire  
COUNTY COUNCIL





# north wales economic ambition board

## bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Nid yw hon yn rhestr gyflawn ac fe'i darperir fel canllaw ar gyfer negodi'n gyflym. Mae'r gyfres lawn o Achosion Busnes Amlinellol wedi'u cyflenwi i swyddogion.

Ar hyn o bryd, nid oes sgôp ariannol ar gyfer ychwanegu prosiectau newydd i'r Cynllun Twf. Rydym yn agored iawn i ychwanegiadau diweddarach gyda buddsoddiad cyfalaf ychwanegol gan y Llywodraethau.

O ystyried effaith y penderfyniad gan Hitachi i atal prosiect Wylfa Newydd, mae'r Cynllun:-

- yn cadarnhau'r gefnogaeth i brosiectau allweddol y Cynllun Twf o fewn portffolio a gaiff effaith economaidd a chyflogaeth uniongyrchol ar Ogledd Môn - Prosiect Porth Caergybi, Prosiect Morlais a'r Prosiect Canolfan Ragoriaeth Niwclear;
- yn ehangu dau brosiect Cynllun Twf strategol a gaiff effaith ar economi Gogledd Môn a chreu'r amodau ar gyfer twf cyflogaeth - y Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar a'r Gyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol; ac
- yn sicrhau y bydd trefn prosiectau'r Cynllun Twf yn blaenoriaethu'r ymyraethau hynny sy'n effeithio ar Ogledd Môn.

Gwahoddwn y ddwy Lywodraeth i amlinellu proses glir a syml ar gyfer cwblhau trafodaethau i gyrraedd Cytundeb Penawdau'r Telerau erbyn mis Gorffennaf. Rydym yn bwriadu cyhoeddi gohebiaeth gyhoeddus ddechrau Ebrill - gan wneud datganiad cadarnhaol bod y rhanbarth yn barod i gwblhau Cytundeb a dechrau gweithredu prosiectau blaenoriaeth o 2020/21. Byddem yn croesawu datganiad cadarnhaol o gefnogaeth gan y ddwy Lywodraeth.

Rydym yn ysgrifennu at y Gweinidog Ken Skates AC gyda gwahoddiad tebyg.


Edrychwn ymlaen yn fawr at dderbyn eich cefnogaeth i'r dull gweithredu a amlinellir uchod.

Yr eiddoch yn gywir

**Y Cyngorydd Aaron Shotton,  
Cadeirydd, Bwrdd Uchelgais  
Economaidd Gogledd Cymru ac  
Arweinydd Cyngor Sir y Fflint**

**Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn,  
Is-gadeirydd, Bwrdd Uchelgais  
Economaidd Gogledd Cymru ac  
Arweinydd Cyngor Gwynedd**





north wales economic ambition board  
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Amg.



CYNGOR SIR  
YNYSS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
COUNTY BOROUGH COUNCIL




CYNGOR  
Sir Ddinbych  
Denbighshire  
COUNTY COUNCIL



CYNGOR  
Sir y Fflint  
Flintshire  
COUNTY COUNCIL



wrexham  
COUNTY BOROUGH COUNCIL  
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
wrecsam



# north wales economic ambition board

## bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Councillor/Cynghorydd Aaron Shotton,  
Arweinydd Cyngor Sir Y Fflint  
Leader, Flintshire County Council  
County Hall, Mold CH7 6NB  
Neuadd Y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NB

Ein cyf / Our ref:  
Dyddiad/Date: 25 Mawrth 2019  
Rhif union/Direct dial: 01352 702105  
Eboest/Email: [aaron.shotton@flintshire.gov.uk](mailto:aaron.shotton@flintshire.gov.uk)

Ken Skates AC  
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru  
5ed Llawr, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Annwyl Ken,

### **Cyfarfod gydag Arweinyddion ar 7 Mawrth 2019 a Diweddariad am y Cynllun Twf**

Diolch i chi am gyfarfod â'r Arweinyddion ar 7 Mawrth.

Roedd y drafodaeth eang a bywiog yn ddefnyddiol iawn i ni fel grŵp a bydd yn werthfawr iawn wrth helpu i gyflawni'r Cynllun Twf.

Croesawyd eich ymrwymiad i: -

- Sicrhau bod Cynllun Twf Gogledd Cymru yn llwyddo gyda rhyw ffurf ar gytundeb Penawdau'r Telerau wedi'i gyflawni erbyn diwedd Mai 2019 yn ddelfrydol;
- Mwy o weithio'n rhanbarthol ar ran Llywodraeth Cymru gyda chi a Lesley Griffiths yn arwain yr agenda rhanbartholi; ac
- Integreiddio gwasanaethau Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i gefnogi gwell datblygiadau economaidd a chyflawni trafniadaeth, a buddsoddiad mewn rhanbarthau.

Mae'r agenda rhanbartholi yn ail genhedlaeth o ddatganoli o'r Senedd i'r rhanbarthau y mae'n rhaid i ni, fel y Cynghorau, ei gefnogi er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn agosach at y cymunedau.

Nodwyd yr aliniad agos rhwng ein barn fel Cynghorau gyda'ch barn chi ynghylch rôl y Gweinidog dros Ogledd Cymru a'r pwyllgor sefydlog arfaethedig i'r Gogledd.

Fe wnaethom gynnig cefnogi eich swyddogion wrth ddatblygu'r polisi am Weinidog dros Ogledd Cymru a Phwyllgor Sefydlog ymhellach. Bydd Ian Bancroft, gyda chefnogaeth gan Stephen Jones, yn helpu eich swyddogion arweiniol sy'n gweithio ar gynigion.



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
CONWY COUNTY COUNCIL



CYNGOR  
Sir Ddinbych  
Denbighshire  
COUNTY COUNCIL




CYNGOR  
Sir y Fflint  
Flintshire  
COUNTY COUNCIL



wrexham  
COUNTY COUNCIL  
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
WRECSAM





# north wales economic ambition board

## bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Nodwyd eich bod wedi comisiynu'r OECD i adolygu llywodraethiant rhanbarthol ar gyfer datblygu'r economi yng Nghymru a'ch bod yn ceisio creu unedau datblygu'r economi integredig, a fydd yn dwyn ynghyd adnoddau Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid yn y maes.

Mae'r Arweinyddion yn gefnogol o'r egwyddor o integreiddio ac maent yn barod i drafod datblygu llywodraethiant rhanbarthol ymhellach. Fodd bynnag, dylem eich cynghori mai ein safbwynt ni yw mai Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ddylai fod yn gorff atebol ar gyfer cyflawni'r Cynllun Twf, a dylai hefyd fod yn fan cychwyn ar gyfer unrhyw gerbydau llywodraethu rhanbarthol yn y dyfodol a darparu cyfarwyddyd a throsolwg ar fuddsoddiad a chyflawni gwasanaeth ym meysydd datblygu'r economi a thrafnidiaeth yn y Gogledd.

Rydym yn bryderus y byddai cyrff llywodraethu rhanbarthol ychwanegol yn taseilio rôl ddatblygol y Bwrdd. Rydym yn dymuno bod yn bartner cyfartal i Lywodraeth Cymru a busnes ac mae angen i ni gael y lle, yr adnoddau a'r awdurdod i weithredu.

Rydym yn barod iawn i drafod addasu ein model llywodraethu yn y dyfodol, yn amodol ar fod yn rhan o ddeiliant yr adolygiad OECD.

Gofynnodd i ni fod yn hyblyg ar ein portffolio o brosiectau ar gyfer y Cynllun Twf a bod yn agored i ddull gweithredu graddol wrth fwrw ymlaen â phrosiectau gyda chytundeb Penawdau'r Telerau hyblyg sy'n canolbwyntio'n fwy ar raglenni nag ar brosiectau unigol i'w gweithredu. Byddai hyn yn cynnwys carlamu prosiectau allweddol sy'n derbyn cefnogaeth lwyr yn y broses herio.

Ein safbwynt ni yw y dylem fynd i mewn i'r broses herio gyda phortffolio cryf o brosiectau rhyng-ddibynnol er mwyn tynnu i lawr isafswm ariannu o £240m a £280m gyda chyllid pellach i ddilyn fel cydnabyddiaeth o uchelgais ac ansawdd ein rhaglenni a'n prosiectau.

I ddilyn ein cyfarfod, mae'r Bwrdd yn awyddus i symud yn gyflym ac yn benderfynol i gyflawni Cytundeb Penawdau'r Telerau ddim hwyrach na mis Gorffennaf. Rydym wedi cynnal dau gyfarfod Bwrdd yn agos at ei gilydd er mwyn cwblhau ein Cynllun Gweithredu ar gyfer y Cynllun Twf ers i ni gyfarfod. Mae swyddogion y ddwy Lywodraeth wedi gwneud cais am Gynllun Gweithredu pwrpasol a chyflawnadwy, a bellach rydym yn medru cyflwyno Cynllun o'r fath. Mae'r Cynllun Gweithredu ynghlwm.

Yn ein cyfarfod Bwrdd diweddaraf a gynhaliwyd ar 15 Mawrth, fe wnaethom gadarnhau'r Cynllun Gweithredu hwn gyda chefnogaeth unfrydol yr holl bartneriaid. Drwy gyfres o sesiynau cyn cyfarfod yr wythnos ddiwethaf, rydym wedi cael mewnbwn dwys gan



CYNGOR SIR  
YNYNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



CONWY  
CYNGOR BWRDEISTREF SIR  
COUNTY BOROUGH COUNCIL




CYNGOR  
Sir Ddinbych  
Denbighshire  
COUNTY COUNCIL



CYNGOR  
Sir y Fflint  
Flintshire  
COUNTY COUNCIL



wrexham  
COUNTY BOROUGH COUNCIL  
CYNGOR BWRDEISTREF SIR  
wrexham



# north wales economic ambition board

## bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

arweinwyr busnes o'r holl sectorau allweddol. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi derbyn hyder y gymuned fusnes. Yn ogystal, mae swyddogion y Llywodraeth wedi cyfrannu at ddatblygu'r Cynllun dros gyfnod o amser.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi:-

- yr uchelgais strategol ar gyfer y Cynllun Twf;
- y gyfres o raglenni a'r ymyraethau prosiect ar gyfer y tri sector pennaf a'r pedwar hwylusydd;
- crynodeb o'r achos busnes amlinellol ar gyfer pob prosiect yn cynnwys eu deilliannau a'u buddion, eu proffil ariannol, a manylion buddsoddiad uniongyrchol ac anuniongyrchol y sector preifat a chyhoeddus;
- amserlen ddangosol; a
- rhyng-ddibyniaethau'r rhaglenni a'r prosiectau.

Yn ogystal, mae'r Cynllun yn nodi:-

- rôl, swyddogaethau a threfniadau llywodraethu'r Bwrdd Uchelgais Economaidd;
- rôl a chyfraniad parhaus y sector preifat;
- trefniadau ar gyfer cyfathrebu gyda rhanddeiliaid;
- rheoli gweithredu rhaglenni; a
- threfniadau monitro a gwerthuso.

Mae'r Achosion Busnes Amlinellol llawn yn cael eu cyflenwi i swyddogion.

Fel y gwyddoch, mae mewnbwn y sector preifat i ddatblygu'r Cynllun wedi bod yn sylweddol. Mae hyn wedi'i gydlyn gan Fwrdd Cyflawni Busnes Gogledd Cymru sydd newydd ei sefydlu. Mae disgwyliadau uchel i weld y Cynllun yn cael ei gyflawni o 2020/21 gyda chefnogaeth gref i ehangu rhaglenni a phrosiectau, lle bo hynny'n bosib gyda buddsoddiad anuniongyrchol a chyfalaf ychwanegol, i gyflawni newid trawsffurfiol ar raddfa ranbarthol.

Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo cam cyntaf yr adnoddau i adeiladu capasiti rhanbarthol yn barod ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau 'byw' a ariennir drwy'r Cynllun Twf o 2020/21. Mae cael cytundeb gan y Llywodraethau ynghylch Penawdau'r Telerau ddim hwyrach na mis Gorffennaf yn hanfodol os ydym am fod yn barod ar amser i gyflawni'r disgwyliadau yr ydym oll wedi'u codi ledled y rhanbarth.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod rhai prosiectau ar ein rhestr arfaethedig o bedwar ar ddeg prosiect ymyrraeth ar y blaen i rai eraill yn nhermau pa mor barod ydynt. Felly, rydym yn cynnig cynnwys bob un o'r pedwar ar ddeg prosiect o fewn ystod y Penawdau'r Telerau ond dim ond cynnwys y rhai sy'n fwy parod yn y cam cyntaf hwn. Byddai'r rhai yn y cam



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
CONWY COUNTY COUNCIL




CYNGOR  
Sir Ddinbych  
Denbighshire  
COUNTY COUNCIL



CYNGOR  
Sir y Fflint  
Flintshire  
COUNTY COUNCIL



wrexham  
COUNTY COUNCIL  
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
WREXHAM COUNTY COUNCIL



# north wales economic ambition board

## bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

cyntaf yn symud ymlaen ar unwaith i'r model busnes pum achos. Byddai'r prosiectau sy'n weddill yn cael eu datblygu ymhellach mewn ail gam i ddilyn yn fuan wedyn. Er eglurder, gyda 'pharod' rydym yn golygu bodloni profion (a) prawf cysyniadol (b) deilliannau ac effaith (c) buddsoddiad a buddsoddiad anuniongyrchol y sector preifat a (d) parodrwydd i gyflawni ar amser.

Mae'r prosiectau sydd wedi'u cefnogi gan y Bwrdd i fod yn y cam cyntaf, gan eu bod yn ddigon parod, yn cynnwys:-

- Prosiect Cysylltedd Digidol
- Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol
- Porth Caergybi
- Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar
- Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd

Nid yw hon yn rhestr gyflawn ac fe'i darperir fel canllaw ar gyfer negodi'n gyflym.

Ar hyn o bryd, nid oes sgôp ariannol ar gyfer ychwanegu prosiectau newydd i'r Cynllun Twf. Rydym yn agored iawn i ychwanegiadau diweddarach gyda buddsoddiad cyfalaf ychwanegol gan y Llywodraethau. Byddem yn croesawu trafodaethau buan ar gynyddu'r clustnodiad cyfalaf dros dro gan y ddwy Lywodraeth, a chynigion creadigol ar gyfer prosiectau newydd i'w cyfateb gyda'r cyfalaf ychwanegol hwn.

O ystyried effaith y penderfyniad gan Hitachi i atal prosiect Wylfa Newydd, mae'r Cynllun:-

- yn cadarnhau'r gefnogaeth i brosiectau allweddol y Cynllun Twf o fewn portffolio a gaiff effaith economaidd a chyflogaeth uniongyrchol ar Ogledd Môn - Prosiect Porth Caergybi, Prosiect Morlais a'r Prosiect Canolfan Ragoriaeth Niwclear;
- yn ehangu dau brosiect Cynllun Twf strategol a gaiff effaith ar economi Gogledd Môn a chreu'r amodau ar gyfer twf cyflogaeth - y Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar a'r Gyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol; ac
- yn sicrhau y bydd trefn prosiectau'r Cynllun Twf yn blaenoriaethu'r ymyraethau hynny sy'n effeithio ar Ogledd Môn.

Gwahoddwn y ddwy Lywodraeth i amlinellu proses glir a syml ar gyfer cwblhau trafodaethau i gyrraedd Cytundeb Penawdau'r Telerau erbyn mis Gorffennaf. Rydym yn bwriadu cyhoeddi gohebiaeth gyhoeddus ddechrau Ebrill - gan wneud datganiad cadarnhaol bod y rhanbarth yn barod i gwblhau Cytundeb a dechrau gweithredu prosiectau blaenoriaeth o 2020/21. Byddem yn croesawu datganiad cadarnhaol o gefnogaeth gan y ddwy Lywodraeth.



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



CONWY  
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
COUNTY BOROUGH COUNCIL




CYNGOR  
Sir Ddinbych  
Denbighshire  
COUNTY COUNCIL



CYNGOR  
Sir y Fflint  
Flintshire  
COUNTY COUNCIL



wrexham  
COUNTY BOROUGH COUNCIL  
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
WREXHAM



north wales economic ambition board  
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Rydym yn ysgrifennu at yr Is-ysgrifennydd Gwladol, Nigel Adams AS, gyda gwahoddiad tebyg.

Edrychwn ymlaen yn fawr at dderbyn eich cefnogaeth i'r dull gweithredu a amlinellir uchod.

Yn gywir,

**Y Cyngorydd Aaron Shotton**  
Cadeirydd, Bwrdd Uchelgais  
Economaidd Gogledd Cymru ac  
Arweinydd Cyngor Sir y Fflint

**Y Cyngorydd Mark Pritchard**  
Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref  
Sirol Wrecsam,  
Cadeirydd Panel Arweinyddion  
Gogledd Cymru

Amg.



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



CYNGOR  
Sir Ddinbych  
Denbighshire  
COUNTY COUNCIL





---

## ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

12 EBRILL, 2019

---

**TEITL:** *Adroddiad am y Gofrestr Risg*

**AWDUR:** *Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*

---

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu Cofrestr Risg fanwl ar gyfer Cam Cynllunio a Datblygu Cynllun Twf Gogledd Cymru.
- 1.2. Caiff y Gofrestr Risg ei rheoli, ei hadolygu a'i diweddarau gan y Swyddfa Rhaglen (unwaith y bydd wedi'i sefydlu). Yn ogystal, caiff ei adolygu gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol a'r Bwrdd Uchelgais yn rheolaidd.

### 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Cymeradwyo'r Gofrestr Risg a darparu cyngor ac adborth ynghylch:
  - Ffurf a strwythur y gofrestr risg (i sicrhau ei bod yn hwylus i'w defnyddio i'r bwrdd);
  - P'un a yw'r risgiau a'r statws RAG (Coch, Ambr, Gwyrdd) wedi'u cynnwys yn gywir ac yn ddigonol;
  - P'un a yw'r mesurau lliniaru sydd wedi'u nodi yn gymesur o ystyried y risgiau sydd wedi'u hadnabod.

### 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae Cynllun Twf Gogledd Cymru angen Cofrestr Risg fanwl ar gyfer y cam Cynllunio a Datblygu.

### 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Mae'r Gofrestr Risg, yn Atodiad 1, yn canolbwyntio ar risgiau'r rhaglen sy'n codi o'r rhaglen waith gychwynnol a gyflwynwyd i'r Bwrdd ar 1 Chwefror 2019. Mae'r Gofrestr Risg yn rhoi sylw i gyflawni'r rhaglen waith lefel uchel a'i gwaith penodol.
- 4.2. Mae Cais Twf Gogledd Cymru yn ddarostyngedig i nifer o risgiau gwleidyddol cenedlaethol (y DU - Cymru) sy'n rhai sy'n seiliedig ar farn ac maent y tu hwnt i reolaeth y Bwrdd. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod:

#### 4.2.1. Risgiau Gwleidyddol ar Lefel Genedlaethol

- Y gall y Llywodraeth gwmpo yn sgil Brexit gan golli'r cyfle i gwblhau Cynllun, yn bennaf oherwydd y byddai etholiad cyffredinol yn cael ei gynnal. Y brif ffordd o liniaru risg fel hyn yw cwblhau trafodaethau a symud i Benawdau'r Telerau cyn gynted â phosib. Y prif aberth

o gwblhau cynllun yn gynnar fyddai gorfod gweithio o fewn yr amlen arian sy'n cael ei chynnig ar hyn o bryd, sef £240m.

- Mae Llywodraeth y DU yn ystyried hyn (y risg gwleidyddol o etholiad cyffredinol neu weinyddiaeth newydd) yn risg isel gan fod y Trysorlys wedi neilltuo £120m ar gyfer Cynllun Gogledd Cymru yn seiliedig ar y prosiectau/Achosion Busnes Amlinellol sydd ar gael ar hyn o bryd.
- Yn ogystal, byddai cwblhau Penawdau'r Telerau yn gynnar yn 2019 yn darparu rhyw fath o ymrwymiad cytundebol i gwblhau cynllun.

#### **4.2.2. Risgiau o Lywodraethau fel arianwyr yn meddu ar farn wahanol**

- Mae risgiau yn codi o farn wahanol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel arianwyr ynghylch ansawdd y prosiectau. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys bod Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo tra bod Llywodraeth y DU wedi mynegi peth amheuaeth ynghylch pa mor berthnasol yw prosiect fel hwn i gynllun twf. Mae Llywodraeth y DU wedi mynegi diddordeb mewn cynigion a gyflwynir gan brifysgolion. Mae Llywodraeth Cymru yn gweld gwerth prosiectau fel hyn a allai gael eu hariannu gan Lywodraeth y DU ond mae'n gweld risg i Lywodraeth Cymru os nad yw'r prosiectau'n cyflawni cynaliadwyedd refeniw gan mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ariannu prifysgolion yng Nghymru. Gall y rhanbarth helpu i liniaru'r risg hwn drwy hwyluso trafodaethau rhwng y ddwy lywodraeth a datblygu Achosion Busnes Amlinellol cadarn.

#### **4.2.3. Deddf Cymru 2017**

- Ar lefel genedlaethol, mae ymestyn Datganoli yn Neddf Cymru 2017 hefyd wedi profi i fod yn risg cymedrol i'r Cynllun yn yr ystyr ei fod wedi lleihau'r sgôp am arian gan Lywodraeth y DU oherwydd mae Cynlluniau Twf i fod i gael eu hariannu ar gyfradd o tua 50:50 gan y ddwy lywodraeth. Mae ariannu cymesur gan y ddwy lywodraeth yn profi i fod yn rhwystr i'r Cynllun ar hyn o bryd gan fod nifer o brosiectau yn fwy priodol ar gyfer arian gan Lywodraeth Cymru mewn cyd-destun datganoledig.
- Er enghraifft, mae Llywodraeth y DU wedi nodi datganoli fel rheswm pam na all fuddsoddi mewn rhai cynlluniau penodol, er enghraifft cyfanswm cost ailddatblygu Porthladd Caergybi. O safbwynt Llywodraeth Cymru, mae ei swyddogion hefyd wedi nodi datganoli fel rheswm pam na ddylai Llywodraeth y DU fuddsoddi mewn un neu ddau o gynlluniau e.e. twristiaeth.
- Caiff y rhyngweithio rhwng barnau'r llywodraeth ei gynnwys i ryw raddau yn y gofrestr rhaglenni drwy'r risgiau i gwblhau a blaenoriaethu'r portffolio o brosiectau.
- Y prif fesur lliniaru ar gyfer y risg hwn fyddai ehangu prosiectau (a/neu chwilio am un neu ddau o brosiectau ychwanegol sy'n barod i fynd) y gall Llywodraeth y DU eu hariannu.

#### **4.2.4. Risgiau Gwleidyddol Rhanbarthol**

- Mae cyfres o risgiau gwleidyddol rhanbarthol sy'n ymwneud â:
  - Fforddiadwyedd, lle mae partneriaid yn teimlo na allant fforddio neu ddosrannu costau'r cynllun yn deg gan gynnwys cost datblygu, rheoli a chyflawni'r rhaglen.
  - Ymgysylltu, lle gall cyflymder gwneud penderfyniadau'n rhanbarthol (ac yn genedlaethol ar lefel Cymru a'r DU) fod ar y blaen i farn leol mewn cynghorau a sefydliadau partner ac felly gollu cefnogaeth un neu fwy o gynghorau neu bartneriaid.

- Caiff y rhain sylw yn y gofrestr risg yn sgil tasgau'r rhaglen, ariannu'r cynllun ac ymgysylltu/cyfathrebu.

#### **4.2.5. Risgiau Amserlen**

- Gall llithriad i amserlenni gael effaith wleidyddol hefyd. Gall llithriad sylweddol a chyson yn y rhaglen gael effaith andwyol ar enw da'r bwrdd a'r canfyddiad o'i gapasiti a'i allu i "gyflawni" cynllun. Bellach, mae'r rhanbarth yn gweithio i'w drydydd dyddiad targed ar gyfer Penawdau'r Telerau.
- Mae achosion llithriadau, megis materion ynghylch blaenoriaethu, wedi codi o drafodaethau a negodi dros y rhaglen. Ansawdd a chyflawnrwydd Achosion Busnes Amlinellol yn sail i asesu buddion ac effaith prosiectau arfaethedig yn y rhaglen ac maent yn llwyfan i ddatgloi buddsoddiad drwy negodi. Ymdrinnir â'r mater o ariannu a chyflawni Achosion Busnes Amlinellol o safon uchel yng nghofrestr risg y rhaglen isod.

#### **4.3. Crynodeb o'r Risgiau Allweddol**

4.3.1. Mae gan ddau risg statws coch:

4.3.2. **Cytuno ar Benawdau'r Telerau** erbyn 31 Gorffennaf 2019 oherwydd y tasgau y mae'n rhaid eu cwblhau i alluogi llofnodi Penawdau'r Telerau:

- Cytuno ar yr amlen ariannu a'r portffolio o brosiectau gyda'r arianwyr;
- Adolygu a diweddarau'r Achosion Busnes Amlinellol;
- Adnabod rhyng-ddibyniaethau rhwng prosiectau a mesur effaith llawn y cynllun twf.

4.3.3. **Cytuno ar Gytundeb Llywodraethu 2** oherwydd pa mor gymhleth ydyw.

- Hefyd, roedd sgôr gymharol uchel i'r risg bod y sector preifat a phartneriaid eraill yn tynnu prosiectau allan o'r cais yn ddarostyngedig i amodau economaidd cyfnewidiol o ystyried bod cryn amser cyn y bydd y cynllun wedi'i gwblhau gyda pheth sgôp am lithriadau pellach yn yr amserlenni.

4.4. Mae strategaethau lliniaru wedi'u hamlinellu yn y gofrestr risg.

### **5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Mae risgiau ariannol wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg.

### **6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Mae risgiau cyfreithiol wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg.

### **7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Mae risgiau staffio wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg.

### **8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim wedi'u hadnabod.

## 9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD

9.1. Trafodwyd y Gofrestr Risg a'i chymeradwyo gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 29/03/2019.

---

### ATODIADAU:

**Atodiad 1** Cofrestr Risg

---

### YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:


**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

“Mae monitro risiau’r prosiect yn un o dasgau allweddol y BUE. Mae gofyn l’r Bwrdd ystyried y gofrestr a bodloni ei hyn ei fod yn cynrychioli adlewyrchiad gywir o statws risg a fod y gweithrediadau lleddfu yn cael eu cyfarch.”

**ii. Pennaeth Cyllid - Corff Atebol:**

“Cadarnhaf fy mod i wedi adolygu agweddau ‘Cyllid’ o Gofrestr Risg y Rhaglen gyda’r awdur. Mae rhai o’r sgôrs risg yn fater o farn a dehongliad, tra mae sawl mater eto i’w gadarnhau, ond credaf fod y Gofrestr Risg yma’n adlewyrchu asesiad teg.”





Cofrestr Risg y Rhaglen

Cam Cynllunio a Datblygu (Cyn Penawdau'r Telerau)

Cyfeirnod	Teitl	Disgrifiad o'r Risg	A Tebygolrwydd (0-10)	B Effaith (0-10)	Cyfanswm Gwerth Risg (A x B)	Lliniaru	Gweithred gyda	Gweithred gan	Statws	Perchnogaeth
<b>PENAWDAU'R TELERAU</b>										
HT 01	Penawdau'r Telerau	Methu cyrraedd Penawdau'r Telerau o fewn yr amserlen gytunedig  Er mwyn cyflawni Penawdau'r Telerau erbyn 31/07/2019 mae llawer i'w wneud ac mae hynny'n awgrymu risg uchel o beidio â chyflawni Penawdau'r Telerau mewn pryd.	7	10	70	(1) Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu ar gais y ddwy Lywodraeth. (2) Ymagwedd i Benawdau'r Telerau fel y nodwyd o fewn y llythyrau i'r ddwy Lywodraeth (25/03/2019). (3) Achosion Busnes Amlinellol boddhaol i'r llywodraethau. (4) Sesiynau Herio gyda Gweinidogion y ddwy Lywodraeth cyn Penawdau'r Telerau.	Pob partner	31/07/2019	Byw	Y BWRDD UCHELGAIS
HT 02	Sefydlu sesiynau herio gyda Gweinidogion	Anallu neu oedi wrth sefydlu sesiynau herio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.	6	8	48	(1) Cyflwyno Achosion Busnes Amlinellol a'r Cynllun Gweithredu i'r ddwy Lywodraeth. (2) Sefydlu sesiynau herio yn gynnar fel bod dyddiadau yn y dyddiaduron yn barod.	Cyfarwyddwr Arweiniol / LI y DU / LIC	31/07/2019	Byw	Y BWRDD UCHELGAIS
HT 03	Colli Personél sy'n meddu ar wybodaeth a chefnidir	Trosiant staff a gweinidogion a cholli arbenigedd a pherthnasau gydag effaith ar amserlenni.  (Mae hyn yn berthnasol i'r rhanbarth a'r ddwy Lywodraeth)	5	6	30	(1) Cwblhau Penawdau'r Telerau erbyn 31/07/2019. (2) Cynnal perthynas gref gyda'r ddwy Lywodraeth.	Y BWRDD UCHELGAIS / LI Y DU / LIC	Parhaus	Byw	Y BWRDD UCHELGAIS
HT 04	Cymeradwyo Achosion Busnes Amlinellol	Methu cytuno/llofnodi Achosion Busnes Amlinellol (gan LI y DU a LIC).	6	10	60	(1) Cyflwyno'r Achosion Busnes Amlinellol diwygiedig i'r ddwy Lywodraeth erbyn diwedd Mawrth 2019. (2) Cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i drafod yr Achosion Busnes Amlinellol (3) Y Bwrdd Uchelgais a'r Bwrdd Cyflawni Busnes i herio'r Achosion Busnes Amlinellol.	Y BWRDD UCHELGAIS / LI Y DU / LIC	30/04/2019	Byw	Y BWRDD UCHELGAIS
HT 05	Oedi yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu	Methu cytuno ar Gynllun Gweithredu'r Cynllun Twf.	5	5	25	(1) Cyflwyno Cynllun Gweithredu Drafft i'r Grŵp Gweithredol a'r Bwrdd Uchelgais yn ystod	Y BWRDD UCHELGAIS /	30/06/2019	Byw	Y BWRDD UCHELGAIS

Cyfeirnod	Teitl	Disgrifiad o'r Risg	A Tebygolrwydd (0-10)	B Effaith (0-10)	Cyfanswm Gwerth Risg (A x B)	Lliniaru	Gweithred gyda	Gweithred gan	Statws	Perchnogaeth
		Mae'r cynllun gweithredu yn ddibynnol ar gyflawni ymagwedd ddeuol a llofnodi Penawdau'r Telerau (h.y. gwybod beth rydym yn bwriadu ei weithredu)				Mawrth 2019. (2) Cyflwyno Cynllun Gweithredu Drafft i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru erbyn diwedd Mawrth 2019. (3) Adnabod ymagwedd ddeuol ar gyfer Penawdau'r Telerau.	LI Y DU / LIC			
HT 06	Cynlluniau Ochr a Phartneriaethau gyda LIC	Methu cytuno ar Gynlluniau Ochr a Phartneriaethau gyda LIC ar Drafnidiaeth, Tir ac Eiddo, Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru, Sgiliau a Chyflogaeth a Digidol.	5	5	25	(1) Sefydlu ffrydiau gwaith clir, negodi prosesau ac atebolrwydd ar gyfer cynlluniau ochr. (2) Negodi adnoddau ac Achosion Busnes Amlinellol ar gyfer y ffrydiau gwaith partneriaeth cytunedig. (3) Ymchwilio'n gynnar i'r dymuniad am gydweithio rhwng Cynghorau i Gronni adnoddau i eistedd law yn llaw â thimau rhanbarthol LIC. (4) Gwaith ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer pob partneriaeth rhwng Cynghorau a LIC.	Pob partner a LIC	30/06/2019	Heb agor eto	Y BWRDD UCHELGAIS
<b>LLYWODRAETHU</b>										
GO 02	Risg o fethu gwneud Penodiad y Corff Atebol	Diffyg cytundeb am Gorff Atebol a ddewisir ar gyfer GA2.	2	10	20	(1) Parhau gyda Gwynedd fel Corff Atebol dan Gytundeb Llywodraethu 1. (2) Parhau gyda thrafodaethau gyda Chyngor Gwynedd i gymryd y rôl corff atebol.	Prif Weithredwr Arweiniol a Chyngor Gwynedd	30/06/2019	Byw A pharhaus	Y BWRDD UCHELGAIS
GO 04	Y partneriaid yn cymryd rhan lawn yn y Bwrdd	Partneriaid heb ymgysylltu'n ddigonol yng ngwaith y Bwrdd gan arwain at: - • Presenoldeb annigonol yng nghyfarfodydd y Bwrdd gan un neu fwy o bartneriaid; • Statws eilradd i bartneriaid nad ydynt yn Awdurdodau Lleol; • Un neu fwy Awdurdod Lleol ddim yn ymgysylltu.	1	8	8	(1) Ymrwymiad gan holl aelodau'r Bwrdd.	Pob partner	Parhaus	Byw	Y BWRDD UCHELGAIS
GO 06	Drafftio Cytundeb Llywodraethu 2	Methu datblygu Cytundeb drafft yn amserol er mwyn i bartneriaid ei ystyried ac yn barod ar gyfer cam cyflawni'r Cynllun Twf terfynol.	4	10	40	(1) Capasiti cyfreithiol wedi'i gomisiynu (Pinsents) i arwain a chynghori ar ddrafftio'r Cytundeb Llywodraethu. (2) Cynllun prosiect i gael ei ddatblygu ar gyfer GA2. (3) Cynghorau a Phartneriaid i roi ystyriaeth lawn i GA2.	Penaethiaid Cyfreithiol	31/10/2019	Byw	Penaethiaid Cyfreithiol
GO 07	Mabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 2	Risg bod un neu fwy o bartneriaid yn peidio â mabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 2	7	8	56	(1) Sicrhau bod rhwydweithiau proffesiynol ynghlwm â chytuno i'r cynnwys (Penaethiaid Cyfreithiol, Prif Swyddogion Cyllid a'r Grwpiau Proffesiynol yr effeithir arnynt) (2) Sylw gofalus a manwl gan y partneriaid i gydbwysu risgiau a rhwymedigaethau gyda'r	Pob partner	31/12/2019	Heb agor eto	Y BWRDD UCHELGAIS

Cyfeirnod	Teitl	Disgrifiad o'r Risg	A Tebygolrwydd (0-10)	B Effaith (0-10)	Cyfanswm Gwerth Risg (A x B)	Lliniaru	Gweithred gyda	Gweithred gan	Statws	Perchnogaeth
						<p>buddion - ar y cyd ac yn unigol i bartneriaid - yng Nghytundeb Llywodraethu 2 a'r Cynllun Twf terfynol ei hun</p> <p>(3) Eirioli Cytundeb Llywodraethu 2 o fewn yr holl sefydliadau partner cyn gwneud y penderfyniad ffurfiol i fabwysiadu gydag arweinyddiaeth gref a phenderfynol o fewn pob sefydliad partner</p> <p>(4) Paratoi adroddiad templed cadarn wedi'i gefnogi gan gyngor cyfreithiol ac ariannol</p> <p>(5) Parodrwydd i symud ymlaen â swyddogaethau ychwanegol neu sy'n cael eu gwadu ar sail raddol, h.y. dechrau GA2 ar sail fwy cyfyng os oes unrhyw anghydfod ynghylch ystod ehangach o swyddogaethau'n cael eu dirprwyo i'r Cyd-bwyllgor neu fyw gyda mwy o faterion a gedwir yn ôl.</p>				
GO 08	Sefydlu'r Is-bwyllgorau	<p>Methu sefydlu'r is-bwyllgorau, i fodloni'r gofynion sydd wedi'u hamlinellu o fewn y Cytundeb Llywodraethu.</p> <p>Methu datblygu Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgorau.</p>	6	8	48	<p>(1) Sefydlu'r Is-bwyllgorau yn ôl yr angen.</p> <p>(2) Adran Gyfreithiol y Corff Atebol i gefnogi gyda drafftio cylch gorchwyl.</p>	<p>Pob partner</p> <p>Yn Grŵp Gweithredol i ddechrau</p>	30/06/2019	Heb agor eto	Y BWRDD UCHELGAIS
GO 09	Trefniadau Craffu	Methu cytuno ar Drefniadau Craffu.	6	5	25	<p>(1) Adroddiad am Drefniadau Craffu i'r Bwrdd Uchelgais ar 12/04/2019.</p> <p>(2) Trefniadau manwl i'w gwneud o fewn GA2.</p>	Penaethiaid Cyfreithiol a'r Grŵp Gweithredol	30/06/2019	Heb agor eto	Y BWRDD UCHELGAIS
GO 10	Cytuno ar y Cylch Gorchwyl gyda'r Bwrdd Cyflawni Busnes	Methu cytuno ar Gylch Gorchwyl y Bwrdd Cyflawni Busnes.	3	8	24	(1) Adroddiad am Gylch Gorchwyl y Bwrdd Cyflawni Busnes i'w gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais ar 12/04/2019.	Swyddfa Rhaglen a'r Bwrdd Cyflawni Busnes	31/03/2019	Byw	Y Bwrdd Uchelgais
GO 11	Proses Benodi gyhoeddus ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes	Methu penodi Cadeirydd i'r Bwrdd Cyflawni Busnes.	6	8	48	(1) Adroddiad am y broses benodi i'w gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais ar 12/04/2019.	Swyddfa Rhaglen	31/10/2019	Byw	Y Bwrdd Uchelgais a'r Swyddfa Rhaglen
<b>CYLLID</b>										
FIN 01	Cyfraniadau i'r gyllideb gan bartneriaid	<p>Partneriaid yn methu cytuno ar gyfraniadau i'r gyllideb.</p> <p>Cyfraniadau ariannol annigonol gan bartneriaid</p>	4	7	28	<p>(1) Mae cyfraniadau i'r gyllideb wedi'u hymgorffori o fewn GA1.</p> <p>(2) Y Bwrdd Uchelgais i gytuno ar gyfraniadau cyllideb ar gyfer 2019/20 yng nghyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 15/03/2019.</p>	Gwynedd a phob partner	31/03/2019	Byw	Y Bwrdd Uchelgais a Phrif Swyddog Cyllid y corff atebol
FIN 02	NNDR a chyfalafu	Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r	3	6	20	(1) Cyn-amod i hyn yw sgopio'r rhaglen a chyfrifo	Pob partner	30/06/2019	Heb agor	Y Bwrdd

Cyfeirnod	Teitl	Disgrifiad o'r Risg	A Tebygolrwydd (0-10)	B Effaith (0-10)	Cyfanswm Gwerth Risg (A x B)	Lliniaru	Gweithred gyda	Gweithred gan	Statws	Perchnogaeth
Tudalen 30		Bwrdd wneud cynnig ar y cymorth ariannol y mae ei angen gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwneud i'r Cynllun Twf weithio. Mae'r risgiau fel a ganlyn: - <ul style="list-style-type: none"> <li>Methu cytuno ar y gofynion ar gyfer NNDR a chyfalafu.</li> <li>Y rhanbarth yn methu adnabod / cytuno ar ymrwymadau a phroffiliau prosiectau ddigon cynnar er mwyn cyflwyno ymateb amserol</li> <li>Y gofyn ddim yn cael ei dderbyn</li> </ul> Mae'r mater yn un effaith uchel oherwydd cyfyngiadau cyllidebau o fewn Awdurdodau Lleol a'r gofyn i ariannu'r Cynllun Twf (diddordeb a swyddfa rhaglen) yng nghyd-destun torri gwasanaethau lleol gyda grantiau i'r llywodraeth yn lleihau yn sgil y polisi llymder.				beth fydd ei chost (2) Mae angen i'r rhanbarth gomisiynu darn o waith i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru gyda nifer o ofynion wedi'u dadlau'n dda yn cynnwys: - <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfradd cadw NNDR,</li> <li>Cyfalafu cyflogau lle bo hynny'n bosib a</li> <li>Chymhorthdal llog.</li> </ul> (3) Gweithio gydag aelodau etholedig i'w paratoi nhw i wrthbwyso pwysau refferniw'r Cynllun Twf gyda chyfres o fuddion yn lleol ac i'r rhanbarth.			eto	Uchelgais a Phrif Swyddog Cyllid y corff atebol
	FIN 03	Gofynion benthycyca'r Awdurdodau Lleol	Methu adnabod a chytuno ar ofynion benthycyca'r Awdurdodau Lleol a'r partneriaid. Mae'r risgiau allweddol fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>Bod yn agored i gost taliadau llog</li> <li>Dosrannu costau rhwng cynghorau a phartneriaid</li> </ul>	3	8	24	(1) Trefn y prosiectau. (2) Parhau â gwaith da'r Prif Swyddogion Cyllid a chynnwys Prif Swyddogion Cyllid y partneriaid, gan gynhyrchu costau dangosol a mecanweithiau ariannu i'w hystyried gan y Bwrdd. (3) Bydd gofynion benthycyca yn amrywio yn ôl trefn a phroffil y prosiectau.	Swyddfa Rhaglen a'r Prif Swyddogion Cyllid	31/12/2019	Byw
<b>Y SWYDDFA RHAGLEN</b>										
PO 01	Cyfarwyddwr Rhaglen	Methu recriwtio / penodi Cyfarwyddwr Rhaglen	3	9	27	(1) Cytuno ar y broses recriwtio. (2) Bwrw ymlaen yn amserol.	Pob partner	30/04/2019	Byw	Y Bwrdd Uchelgais a'r corff atebol
PO 02	Swyddfa Rhaglen	Methu cytuno a dylunio strwythur y Swyddfa Rhaglen.  Diffyg capasiti a gallu i gyflawni'r rhaglen.	5	8	40	(1) Adrodd i'r Bwrdd Uchelgais ar strwythur y Swyddfa Rhaglen yn ystod Ch3 2019 yn dilyn penodi Cyfarwyddwr Rhaglen. (2) Ymgymryd ag asesiad realistig o'r adnoddau a'r galluoedd sydd eu hangen. Cytuno ar ddyluniad a strwythur Swyddfa Rhaglen. (3) Dyfeisio strategaethau ariannu sy'n lleihau faint o gostau y mae'r partneriaid yn agored iddynt o ran y swyddfa rhaglen (cyfalafu, ESF a phartneriaethau gyda LIC)	Pob partner	30/09/2019	Byw	Y Bwrdd Uchelgais a'r corff atebol
PO 03	Cais Capasiti Sefydliadol	Methu sicrhau arian ESF i gefnogi gwaith y	3	6	18	(1) Cyflwyno OLT i WEFO yn amserol.	Corff Atebol	30/06/2019	Byw	Y BWRDD

Cyfeirnod	Teitl	Disgrifiad o'r Risg	A Tebygolrwydd (0-10)	B Effaith (0-10)	Cyfanswm Gwerth Risg (A x B)	Lliniaru	Gweithred gyda	Gweithred gan	Statws	Perchnogaeth
	ESF	Swyddfa Rhaglen.				(2) Cyflwyno Cynllun Busnes Llawn i WEFO. (3) Sicrhau a chytuno ar arian cyfatebol.	/ WEFO			UCHELGAIS
PO 04	Rheolwyr Rhaglen	Methu penodi Rheolwyr Rhaglen.	3	6	18	(1) Cytuno ar broses recriwtio. (2) Proses benodi gadarn a chynhwysol.	Pob partner	30/09/2019	Heb agor eto	Y BWRDD UCHELGAIS
<b>STRATEGAETHAU A PHROSIECTAU A GOMISIYNWYD</b>										
CSP 01	Y Broses Cymeradwyo Prosiectau	Methu cytuno ar broses i gymeradwyo prosiectau a fyddai wedyn yn arwain at weithdrefnau llofnodi hirfaith a chymhleth ar gyfer yr achosion busnes sy'n cynnwys sawl partner gan oedi buddsoddiad.	4	7	28	(1) Cytuno ar ymagwedd ddeuol ar gyfer y 14 prosiect. (2) Cyflawni Modelau Busnes Pum Achos cryf. (3) Sesiynau herio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. (4) Proses gymeradwyo wedi'i dirprwyo (dirprwyo o'r Cynghorau a'r Partneriaid a'r Llywodraethau i'r Bwrdd Uchelgais).	Cyfarwyddwr Arweiniol / Pob partner	30/06/2019	Heb agor eto	Y BWRDD UCHELGAIS
CSP 02	Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru	Risg o ddyblygu gyda model rhanbartholi Llywodraeth Cymru a diffyg cefnogaeth Lywodraeth Cymru a'r Cynghorau o ganlyniad	6	8	48	(1) Dyrchafu i'r Gweinidog. (2) Cyd-fenter i ennyn cefnogaeth o fewn Llywodraeth Cymru. (3) Gweledd ac atebolrwydd clir i'r Bwrdd ar gyfer trafodaethau negodi. (4) Gweithio ar y cyd yn agos rhwng cynghorau er mwyn cytuno ar fodel sy'n derbyn cefnogaeth yr holl gynghorau.	Pob partner	30/06/2019	Byw	Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru
CSP 03	Cynlluniau Ochr	Methu cytuno ar "gynlluniau ochr" gyda LIC neu MoUs.  Y risgiau a ganfyddir yn y ffrwd gwaith hon yw'r agenna rhanbartholi a'i berthynas â'r Swyddfa Rhaglen ynghyd â phryderon ynghylch amharodrwydd y gwasanaeth sifil i ymrwymo i bartneriaethau.	5	8	40	(1) Adroddiad am Gynlluniau Ochr i'r Bwrdd Uchelgais. (2) Trafod a chytuno Cynlluniau Ochr gyda Llywodraeth Cymru. (3) Cyflawni cofrestr risg a chynlluniau gweithredu ar gyfer prosiectau unigol.	Pob partner	30/06/2019	Heb agor eto	Y BWRDD UCHELGAIS
CSP 04	Cyflawni Prosiectau	Methu cyflawni ar y prosiectau yn arwain at adolygiad ariannu - colli hygredd	2	10	20	(1) Cytuno ar Benawdau'r Telerau. (2) Ymrwymiad adnoddau i'r prosiectau. (3) Swyddfa Rhaglen yn ei lle ac yn rheoli'r prosiectau.	Pob partner	30/06/2019	Byw	Y BWRDD UCHELGAIS
CSP 05	Y sector preifat yn tynnu'n ôl	Risg o bartner sector preifat sylweddol yn tynnu'n ôl o brosiect o fewn y rhanbarth yn tansilio strategaeth sylfaenol a/neu brosiectau'r rhanbarth.	7	8	56	(1) Rhestr o brosiectau. (2) Y Bwrdd Uchelgais i fod yn ymatebol i unrhyw newidiadau o fewn y rhanbarth, fel y dangoswyd gydag atal Wylfa Newydd. (3) Cyflawni'r Cynllun yn amserol fel bod y prosiectau'n parhau'n hyfyw dros oes ddatblygol y Cynllun.	Pob partner	Parhaus	Byw	Y BWRDD UCHELGAIS
<b>CYFREITHIOL A CHAFFAEL</b>										
LP 01	Cyfreithiol a Chaffael	Methu cytuno ar y manylion o fewn yr amserlen.	5	8	40	(1) Ansawdd y gwaith paratoi (Achosion Busnes Amlinellol). (2) Hyblygrwydd wrth negodi.	Y BWRDD UCHELGAIS	Y BWRDD UCHELGAIS	Agored	Y BWRDD UCHELGAIS

Cyfeirnod	Teitl	Disgrifiad o'r Risg	A Tebygolrwydd (0-10)	B Effaith (0-10)	Cyfanswm Gwerth Risg (A x B)	Lliniaru	Gweithred gyda	Gweithred gan	Statws	Perchnogaeth
LP 02	Caffael	Methu cytuno ar Strategaeth Caffael.	4	7	28	(1) Mabwysiadu strategaeth caffael y corff atebol.	Y Corff Atebol a'r Swyddfa Rhaglen	31/10/2019	Heb agor eto	Y BWRDD UCHELGAIS
<b>Y CYNLLUN MONITRO A GWERTHUSO</b>										
MP 02	Monitro a Gwerthuso	Methu datblygu Cynllun Monitro a Gwerthuso.	5	5	28	(1) Datblygu Cynllun Monitro a Gwerthuso. (2) Datblygu fframwaith perfformiad. (3) Cydlynu'n ganolog.	Swyddfa Rhaglen	Y Grŵp Gweithredol a'r Swyddfa Rhaglen	Heb agor eto	Y BWRDD UCHELGAIS
<b>YMGYSYLLTU A CHYFATHREBU Â RHANDEILIAID</b>										
SEC 01	Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid	Methu cydymffurfio â'r protocol cyfathrebu.  Difrod i enw da partneriaid a phrosiectau ynghyd â'r Cynllun yn gyffredinol.	5	5	25	(1) Cynllun a Phrotocol Cyfathrebu yn eu lle. (2) Cynllun a Phrotocol Cyfathrebu wedi'u rhannu gyda phawb sydd ynghlwm. (3) Penodi Rheolwr PR fel Cyswllt PR canolog.	Pob partner	Parhaus	Byw	Y BWRDD UCHELGAIS

## RISGIAU SYDD WEDI CAU

Cyf.	Teitl	Disgrifiad o'r Risg	A Tebygolrwydd (0-10)	B Effaith (0-10)	Cyfanswm Gwerth Risg (A x B)	Lliniaru	Gweithred gyda	Gweithred gan	Statws	Perchnogaeth
<b>RISGIAU SYDD WEDI CAU</b>										
GO 01	Cytundeb Llywodraethu 1	Risg bod un neu fwy o bartneriaid yn peidio â mabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 1	0	10	10	(1) Eirioli Cytundeb Llywodraethu 1 o fewn yr holl sefydliadau partner cyn gwneud y penderfyniad ffurfiol i fabwysiadu (2) arweinyddiaeth gref a phenderfynol o fewn pob sefydliad partner (3) paratoi adroddiad templed cadarn wedi'i gefnogi gan gyngor cyfreithiol ac ariannol	<b>Wedi Cau</b>	<b>Wedi Cau</b>	<b>Wedi Cau</b>	Penaethiaid Cyfreithiol
MP 01	Cofrestr Risg	Methu datblygu a diweddarau cofrestr risg	4	7	28	(1) Datblygu cofrestr risg ar gyfer gwella dros amser ac adolygu a diweddarau'r asesiad risg yn rheolaidd	Y Corff Atebol, y Grŵp Gweithredol a'r Swyddfa Rhaglen	<b>Wedi Cau</b>	<b>Wedi Cau</b>	Y BWRDD UCHELGAIS
GO 03	Trosglwyddo i'r Cyd-bwyllgor	Methu trosglwyddo i Gyd-bwyllgor ffurfiol, gydag adnoddau llawn, i fodloni gofynion Cytundeb Llywodraethu 1 ac yn barod ar gyfer cam cyflawni'r Cynllun Twf terfynol.	1	10	10	(1) Pob parti yn llofnodi ac yn selio GA1 (2) Cytundeb wedi'i gynllunio i'r trosglwyddiad ddiwydd yn y Bwrdd ar 01.02.19 (3) Paratoi ar gyfer y trosglwyddo wedi'i gytuno	Prif Weithredwr Arweiniol a Chyngor Gwynedd	<b>Wedi Cau</b>	<b>Wedi Cau</b>	Y BWRDD UCHELGAIS

Cyf.	Teitl	Disgrifiad o'r Risg	A Tebygolrwydd (0-10)	B Effaith (0-10)	Cyfanswm Gwerth Risg (A x B)	Lliniaru	Gweithred gyda	Gweithred gan	Statws	Perchnogaeth
		Ariannu (ar gyfer y corff atebol a'r swyddfa rhaglen) yw'r prif risg i'r trosglwyddiad hwn.				gyda'r Awdurdod Lletya (4) Adroddiad i'r Bwrdd Uchelgais ar 1 Chwefror i weithredu'r trosglwyddiad (2) Ariannu ar gyfer GA1 i'w gytuno ar gyfer 2019/20				
GO 05	Adnabod a chytuno ar raglen waith chwe mis ar gyfer y Cyd-bwyllgor yn unol â GA1.	Y risg dan sylw yw na fydd y rhaglen waith wedi'i chytuno na'i datblygu'n ddigonol o'r amlinell er mwyn cael ei chyflwyno i gyfarfod y bwrdd ar 1 Chwefror. Mae angen i holl aelodau'r Bwrdd brynu i mewn i'r rhaglen waith gan y bydd yn gyrru costau'r rhaglen ac yn siapio monitro sut mae uchelgeisiau'r Bwrdd yn cael eu cyflawni.	3	9	27	(1) Caiff y rhaglen waith ei datblygu ar y cyd gan y Swydd Rhaglen i'w llofnodi gan y Grŵp Gweithredol a'r Bwrdd. (3) Felly, byddai symud i benodi/rhoi adnoddau i Gyfarwyddwr Rhaglen a swyddfa rhaglen yn lleihau'r risg o raglen waith annigonol sydd heb ei hystyried yn iawn na fyddai'n ennyn cefnogaeth y Bwrdd.	Yn Grŵp Gweithredol a'r Bwrdd	<b>Wedi Cau</b>	<b>Wedi Cau</b>	Y BWRDD UCHELGAIS

## Meini Prawf yr Aseiad

<b>POSIBILRWYDD (A)</b>	<b>Uchel</b>	<b>10</b>	<b>10</b>	<b>20</b>	<b>30</b>	<b>40</b>	<b>50</b>	<b>60</b>	<b>70</b>	<b>80</b>	<b>90</b>	<b>100</b>
		<b>9</b>	<b>9</b>	<b>18</b>	<b>27</b>	<b>36</b>	<b>45</b>	<b>54</b>	<b>63</b>	<b>72</b>	<b>91</b>	<b>90</b>
		<b>8</b>	<b>8</b>	<b>16</b>	<b>24</b>	<b>32</b>	<b>40</b>	<b>48</b>	<b>56</b>	<b>64</b>	<b>72</b>	<b>80</b>
		<b>7</b>	<b>7</b>	<b>14</b>	<b>21</b>	<b>28</b>	<b>35</b>	<b>42</b>	<b>49</b>	<b>56</b>	<b>63</b>	<b>70</b>
		<b>6</b>	<b>6</b>	<b>12</b>	<b>18</b>	<b>24</b>	<b>30</b>	<b>36</b>	<b>42</b>	<b>48</b>	<b>54</b>	<b>60</b>
	<b>Posib</b>	<b>5</b>	<b>5</b>	<b>10</b>	<b>15</b>	<b>20</b>	<b>25</b>	<b>30</b>	<b>35</b>	<b>40</b>	<b>45</b>	<b>50</b>
		<b>4</b>	<b>4</b>	<b>8</b>	<b>12</b>	<b>15</b>	<b>20</b>	<b>24</b>	<b>28</b>	<b>32</b>	<b>36</b>	<b>40</b>
		<b>3</b>	<b>3</b>	<b>6</b>	<b>9</b>	<b>12</b>	<b>15</b>	<b>20</b>	<b>21</b>	<b>24</b>	<b>27</b>	<b>30</b>
		<b>2</b>	<b>2</b>	<b>4</b>	<b>6</b>	<b>8</b>	<b>10</b>	<b>15</b>	<b>14</b>	<b>16</b>	<b>18</b>	<b>20</b>
	<b>Posibilrwydd Prin</b>	<b>1</b>	<b>1</b>	<b>2</b>	<b>3</b>	<b>4</b>	<b>5</b>	<b>6</b>	<b>7</b>	<b>8</b>	<b>9</b>	<b>10</b>
			<b>1</b>	<b>2</b>	<b>3</b>	<b>4</b>	<b>5</b>	<b>6</b>	<b>7</b>	<b>8</b>	<b>9</b>	<b>10</b>
			<b>Isel iawn</b>		<b>Canolig</b>					<b>Uchel iawn</b>		
<b>EFFAITH (B)</b>												

## Allwedd

<b>HT</b>	Penawdau'r Telerau
<b>GO</b>	Llywodraethu
<b>FIN</b>	Cyllid
<b>PO</b>	Swyddfa Rhaglen
<b>CSP</b>	Strategaethau a Phrosiectau a Gomisiynwyd
<b>LP</b>	Cyfreithiol a Chaffael
<b>MP</b>	Monitro a Gwerthuso
<b>SEC</b>	Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid



## Rheoli fersiynau

Fersiwn	Dyddiad	Manylion y newidiadau neu sylwadau
F1	11/01/2019	Drafft wedi'i ddatblygu
F2	23/01/2019	Drafft wedi'i ddiwygio gan weithgor bach
F3	28/01/2019	Drafft wedi'i ddiwygio gan Stephen Jones i'w gyflwyno i Grŵp Gweithredol y Bwrdd Uchelgais am sylwadau.
F4	29/01/2019	Diwygiadau ac Ailfformatio gan Nia Medi Williams
F5		
F6	30/01/2019	Diwygiadau gan Stephen Jones (ar adborth gan y Prif Weithredwr Arweiniol)
F7	02/04/2019	Diwygiadau yn dilyn cyfarfod y Grŵp Cefnogaeth Weithredol ar 29/03/2019.

---

## ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

12fed Ebrill 2019

---

**TEITL:** *Sefydlu Is-fwrdd Trafnidiaeth*

**AWDUR:** *Iwan G D Evans - Swyddog Monitro - Corff Atebol*

---

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Argymhell penodi Is-Fwrdd Trafnidiaeth.

### 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Penodi Is-fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth gyda'r Rôl a'r Cylch Gorchwyl wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1.

2.2. Penodi aelod o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i weithredu fel aelod cyswllt gyda'r Is-fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth.

### 3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Yn sgil dechrau Cytundeb Llywodraethu Un ("GA1") a sefydlu'r Bwrdd Uchelgais Economaidd fel Cyd-bwyllgor sy'n gwneud penderfyniadau, mae angen penderfyniad ffurfiol y Bwrdd Uchelgais er mwyn penodi Is-bwyllgor.

### 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Fe wnaeth y Partneriaid ymrwmo'n ffurfiol i GA1 ar 18 Rhagfyr 2018. Drwy hynny, darparwyd ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgor dan ddarpariaethau Deddfau Llywodraeth Leol 1972 a 2000. Yn ogystal, fe wnaeth y fframwaith a gyflwynwyd yn GA1 a'r Ddogfen Gynnig ragweld cyfres o Is-fyrddau o amgylch themâu allweddol yn y Cais Twf a'r Weledigaeth Twf. Mae'r meysydd fel a ganlyn:

- Cyflawni Digidol
- Cyflawni Sgiliau a Chyflogaeth
- Cyflawni Trafnidiaeth
- Cyflawni Menter ac Arloesedd
- Cyflawni Safleoedd ac Eiddo

4.2. Er na ragwelwyd y byddai'r holl Is-fyrddau yn cael eu sefydlu ar unwaith, amlygwyd dau yn benodol ar gyfer eu gweithredu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol gan y Cyd-bwyllgor, sef yn y meysydd Trafnidiaeth a Digidol. Yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth penderfynodd y Bwrdd Uchelgais dderbyn adroddiad ar sefydlu Is-grŵp Cyflawni Trafnidiaeth fel cam cyntaf. Cydnabuwyd bod angen blaenoriaethu sefydlu corff awdurdod lleol ffurfiol i weithio'n rhanbarthol ar faterion Trafnidiaeth.

- 4.3. Mewn termau cyfreithiol, nid yw statws Is-bwyllgor yng nghyswllt aelodaeth a threfniadau ar gyfer cyfarfodydd a chyhoeddi yn wahanol iawn i rai'r Cylch-bwyllgor. O ganlyniad, byddai'n rhaid i gyfarfodydd Is-bwyllgorau gael eu cefnogi drwy'r Gwasanaethau Pwyllgorau a byddai arnynt angen cefnogaeth llywodraethu cyfreithiol, yn arbennig os ydynt yn gweithredu pwerau dirprwyedig i wneud penderfyniadau. Bydd angen ariannu'r rhain.
- 4.4. O fewn GA1, fel isafswm, byddai'r Is-fyrddau arfaethedig yn ymgymryd â'r swyddogaethau sydd wedi'u rhestru yn y cytundeb o fewn eu cylch gwaith ac yn unol â'r Cylch Gorchwyl safonol. Yn ogystal, byddant yn medru defnyddio'r pwerau a ddirprwyir iddynt gan y Bwrdd Uchelgais, ond, gellir rhagweld y byddai'r rhain yn debygol o fod yng nghyswllt rheoli a goruchwyllo prosiectau penodol yng nghyd-destun y Cais Twf.
- 4.5. Mae Rôl a Chylch Gorchwyl yr Is-fwrdd arfaethedig wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1. Maent yn adlewyrchu'r model sydd wedi'i amlinellu yn GA1 gydag ychwanegiadau arfaethedig, sydd wedi'u tanlinellu. Mae'r rhain yn sail i'r argymhelliad. Rhagwelir y byddai'r Is-fwrdd yn cyfarfod bob chwarter.

## **5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

- 5.1. Mae goblygiadau ariannol sefydlu Is-bwyllgor trafndiaeth wedi cael sylw yng nghyllideb y Bwrdd Uchelgais ar y sail y byddai'r Is-bwyllgor yn cyfarfod bob chwarter. Nodaf er sylw i'r dyfodol, nid yw'r gyllideb yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cost trefnu a gwasanaethu is-bwyllgor digidol.

## **6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

- 6.1. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r gofynion cyfreithiol yng nghyswllt strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu'r Bwrdd Uchelgais Economaidd.

## **7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

- 7.1. Dim wedi'u hadnabod.

## **8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

- 8.1. Dim wedi'u hadnabod.

## **9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIUYD**

- 9.1. Amherthnasol.

---

### **ATODIADAU:**

**Atodiad 1** Cylch Gorchwyl Is-Grŵp Cyflawni Trafndiaeth

---

### **YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro – Corff Atebol:**

Paratowyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro.

**ii. Pennaeth Cyllid – Corff Atebol:**

“Cadarnhaf gywirdeb rhan 5 o’r adroddiad, sef fod darpariaeth yng nghyllideb y Bwrdd Uchelgais ar gyfer cost trefnu a gwasanaethu is-bwyllgor trafnidiaeth, ac rwy’n gefnogol i’r rhan Rheoli Adnoddau o’r Cylch Gorchwyl yn yr Atodiad.”

## IS-FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH.

Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn penodi Is-Fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth i ymgymryd â'r swyddogaethau sydd wedi'u hamlinellu isod.

Bydd yr Is-Fwrdd yn Is-bwyllgor a benodir dan Adran 102 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 20 Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Rheoliadau a wnaed oddi tano.

Bydd yr Is-fwrdd yn cynnwys chwe Chynghorydd, un o bob Cyngor sy'n Bartner a fydd yn Aelodau Gweithredol.

Gellir gwahodd Arsyllwyr i fynychu, yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u cyfraniad posib i'r meysydd cyfrifoldeb.

## CYLCH GORCHWYL

### RÔL:

- Cynllunio a chydlynu gwasanaeth trafndiaeth integredig a chydgyssylltiedig yng Ngogledd Cymru.
- Cynllunio, cydlynu a chynghori ar ymatebion rhanbarthol i gynigion Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus Llywodraeth Cymru.
- Cynllunio a chydlynu cyflawni ymyraethau trafndiaeth strategol, yn cynnwys prosiectau'r Cynllun Twf a datgarboneiddio trafndiaeth.
- Adrodd ar gynnydd, perfformiad, deilliannau a materion ariannu i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd. Bydd yr Is-fwrdd Cyflawni yn Is-bwyllgor o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

### DIBEN:

Ymateb i'r briffiau a'r comisiynau yn unol â chyfarwyddyd a chytundeb y Bwrdd Uchelgais Economaidd, a'u gweithredu.

Mae gan yr Is-fyrddau'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau cyffredinol a ganlyn:

- **Strategol**
  - cydlynu gweithgarwch Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill fel y byddai dull rhanbarthol strategol yn ei le yn y maes polisi perthnasol;
  - darparu cyngor strategol perthnasol i'r Bwrdd;
  - cefnogi'r Bwrdd i ddylanwadu ar bolisïau cenedlaethol a rhaglenni ariannu;
  - gweithredu penderfyniadau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd. Bydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn rhoi cyfarwyddyd ac yn comisiynu'r Is-fyrddau Cyflawni i ymgymryd â thasgau allweddol.
- **Rheoli Prosiectau a Rhaglenni**
  - cydlynu cynllunio, datblygu a chyflawni Rhaglen(ni) perthnasol a gomisiynir gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd;

- cydlynu cynllunio, datblygu a chyflawni Prosiectau perthnasol a gomisiynir gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd, yn benodol y Prosiectau sydd wedi'u cynnwys yng "Nghais" y Cynllun Twf. Bydd hyn yn cynnwys datblygu Achosion Busnes Amlinellol unigol a Modelau Busnes Pum Achos ar gyfer pob Prosiect;
- monitro ac adolygu cynnydd ac effaith y Rhaglen(ni) perthnasol a Phrosiectau perthnasol a chyflwyno unrhyw argymhellion i'r Bwrdd.
- **Rheoli Adnoddau**
  - goruchwyllo defnydd cyllidebau'r prosiectau ym maes trafndiaeth a sicrhau gwerth am arian yn nefnydd y cyllidebau rheiny;
  - adrodd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ar ddefnydd o'r gyllideb a cheisio cymeradwyaeth gan y Bwrdd am unrhyw amrywiadau i'r gyllideb.
- **Rheoli Perfformiad**
  - cydlynu'r gwaith o adrodd ar berfformiad y Rhaglen(ni) a'r Prosiectau perthnasol i'r Bwrdd;
  - cynnal a rheoli system adrodd rheoli perfformiad a risg.
- **Grymoedd yr Is-bwyllgorau**
  - dim wedi'u dirprwyo.

#### **PERTHYNAS GYDA'R BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD:**

- Gwahoddir Cadeirydd pob Is-fwrdd Cyflawni i rai cyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd i adrodd ar gynnydd, perfformiad a deilliannau.
- Bydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn creu Arweinydd Portffolio ar gyfer pob un o themâu yr Is-fyrddau Cyflawni. Arsyllwyr fyddant yng nghyfarfod yr Is-fwrdd, a byddant yn sicrhau cyswllt uniongyrchol gyda'r Bwrdd Uchelgais.

#### **GWEITHDREFNAU A LLYWODRAETHU:**

- Penodir Swyddog Arweiniol ar gyfer pob un o'r Is-fyrddau Cyflawni.
- Fel arfer, bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy gonsensws ac yna bydd chwe aelod yr awdurdodau lleol yn pleidleisio'n ffurfiol er mwyn cael mwyafrif syml.
- Os bydd y bleidlais yn gyfartal, caiff y mater ei gyfeirio i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd am benderfyniad.
- Ym mhob agwedd arall, bydd yr Is-fwrdd yn gweithredu'r rheolau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd fel y nodir yn y GA1 neu unrhyw gytundeb dilynol sy'n ei ddisodli.



---

## ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

12 EBRILL 2019

---

**TEITL:** *Bwrdd Cyflawni Busnes*

**AWDUR:** *Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*

---

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu rôl a chylch gwaith y Bwrdd Cyflawni Busnes (y Grŵp Cyflawni Busnes fel y'i gelwir ar hyn o bryd). Yn ogystal, mae'n amlinellu'r broses recriwtio arfaethedig i ddethol Cadeirydd ac Aelodau o'r Bwrdd Cyflawni Busnes.
- 1.2. Mae'r Bwrdd Cyflawni Busnes yn rhan annatod o'r trefniadau llywodraethu ac mae wedi'i sefydlu er mwyn datblygu a chyflawni'r Weledigaeth Twf ar gyfer y Gogledd, yn cynnwys y Cynllun Twf.
- 1.3. Bydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn cyngori'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn uniongyrchol, a fydd yn rhwym i ystyried ei gyngor. Rhaid iddo fod yn allblyg ac â chysylltiadau da y tu hwnt i'r rhanbarth. Bydd hyn yn galluogi iddo ddod ag arbenigedd a buddsoddiad posib i'r rhanbarth, a thynnu ar brofiad ei aelodau.
- 1.4. Sefydlwyd y Bwrdd yn ei ffurf gysgodol dros chwe mis yn ôl ac eisoes mae wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu a'r Achosion Busnes Amlinellol unigol. Bellach, y nod yw ffurfioli'r trefniadau a sefydlu'r Bwrdd Cyflawni Busnes yn gadarn fel rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu i gyflawni'r Weledigaeth Twf ar gyfer y Gogledd.

### 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Cymeradwyo rôl a chyfrifoldebau arfaethedig y Bwrdd Cyflawni Busnes.
- 2.2. Cymeradwyo'r broses recriwtio ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes fel yr amlinellir yn yr adroddiad a dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr y Corff Atebol i ymgymryd â'r ymarferiad recriwtio.
- 2.3. Cymeradwyo'r broses recriwtio ar gyfer Aelodau'r Bwrdd fel yr amlinellir yn yr adroddiad a dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr y Corff Atebol i ymgymryd â'r ymarferiad recriwtio unwaith y bydd y Cadeirydd wedi'i benodi.
- 2.4. Cadarnhau'r defnydd o hyd at £20,000 y flwyddyn o gyllideb 'Datblygu a Chefnogi Prosiectau' Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gefnogi sefydlu Bwrdd Cyflawni Busnes.
- 2.5. Dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr y Corff Atebol i benderfynu ar y pecyn cydnabyddiaeth ar gyfer y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

### **3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

### **4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

#### **4.1. Rôl a Chylch Gwaith**

4.1.1 Bydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gweithredu fel llais busnes a chyflogwyr yn y rhanbarth, ac yn gweithio'n agos gyda sefydliadau megis CBI Gogledd Cymru, Siambr Fasnach Gorllewin Sir Gaer a Gogledd Cymru a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy.

4.1.2 Bydd ganddo rôl allweddol wrth herio a chynghori Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar faterion yn ymwneud â'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf.

4.1.3 Bydd y Bwrdd yn mynegi anghenion busnesau yn y Gogledd, yn amlygu'r rhwystrau i dwf, ynghyd â dwyn ymlaen syniadau a chynigion.

4.1.4 Mae'r Bwrdd yn rhan allweddol o gyfarpar llywodraethu'r Cynllun Twf ac mae ganddo rôl ddeublyg bwysig:

- Sicrhau bod llais a dymuniadau busnesau yn siapio ac yn dylanwadu ar y Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru a phecyn a chyflawniad y Cynllun Twf;
- Sicrhau y gall busnesau gael mynediad i'r cyfleoedd a symbylir ac a gataleiddir gan ddatblygu'r Cynllun Twf, a'u harwain.

4.1.5 Mae'r Bwrdd wedi'i ymrwymo i wneud y gorau o'r cyfleoedd o fewn y Cynllun Twf, a hyrwyddo buddsoddiad anuniongyrchol gan gwmnïau, mentrau a busnesau.

4.1.6 Bydd ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau economaidd twf a sylfaen ledled y rhanbarth.

4.1.7 Bydd ei raglen waith (a fydd wedi'i gosod mewn cynllun busnes blynyddol) yn arddangos yn glir y cyfleoedd i'r sector preifat a ddaw yn sgil cyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf.

4.1.8 Bydd yn cryfhau proffil llais a mewnbwn busnesau i'r Cynllun Twf, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei yrru a'i gyflawni gan fusnes a diwydiant, er ei fod yn cael ei arwain yn wleidyddol.

4.1.9 Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod buddsoddiad mewn twf yn cael ei hysbysu a'i siapio gan fusnesau i fusnesau.

4.1.10 Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn aelod ymgynghorol o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a bydd ganddo rôl allweddol wrth ddarparu arweinyddiaeth a chysylltiadau allweddol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Bydd swydd y Cadeirydd yn cael ei hysbysebu a'i phenodi'n gyhoeddus.

4.1.11 Caiff cyfansoddiad a rôl y Bwrdd o fewn llywodraethiant y Cynllun Twf a'i gydberthynas gyda'r Cydbwyllgor ei gwmpasu yng Nghytundeb Llywodraethu 2.



## **4.2. Cyfrifoldebau Allweddol**

4.2.1 Bydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gyfrifol am:

- Adolygu a siapio'r Weledigaeth Twf ar gyfer y Gogledd;
- Herio ac adolygu'r portffolio o brosiectau a gynigir o fewn y Cynllun Twf;
- Darparu rôl eirioli, gan hyrwyddo'r rhanbarth fel prif leoliad ar gyfer buddsoddwyr ac ymwelwyr a gweithio gyda phartneriaid i gynyddu gwerth ac ansawdd mewnfuddsoddi;
- Rhoi cyngor ar ymyrraeth arfaethedig gan randdeiliaid allweddol eraill, yn cynnwys Llywodraeth Cymru;
- Hyrwyddo'r defnydd o ffynonellau ariannu allanol i gyflawni ymyraethau ledled y rhanbarth;
- Goruchwyllo'r gwaith o gynhyrchu achosion busnes a chyflwyno argymhellion yn uniongyrchol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru;
- Gweithio sefydliadau sector preifat allweddol eraill y rhanbarth, e.e. CBI Gogledd Cymru.

## **4.3. Cadeirydd y Bwrdd**

4.3.1 Mae Cadeirydd dros dro wedi bod yn weithredol ers mis Rhagfyr 2018.

4.3.2 Caiff y Cadeirydd ei benodi ar sail tymor penodol o ddwy flynedd, gyda nifer y tymhorau wedi'i gyfyngu i ddau.

4.3.3 Tybir y byddai'r ymrwymiad amser, er yn hyblyg, yn un diwrnod yr wythnos, ond bydd lefel yr ymrwymiad yn amrywio dipyn ar draws y tymor.

4.3.4 Bydd y rôl yn derbyn cydnabyddiaeth ar lefel sy'n adlewyrchu arwyddocâd y rôl.

4.3.5 Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am:

- Arwain y Bwrdd, gan sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau;
- Cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd, casglu barnau sydd wedi'u mynegi gan bob grŵp rhanddeiliaid a, lle bo angen, dod i gonsensws;
- Cyfathrebu a chynrychioli argymhellion y Bwrdd ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru;
- Bod yn arweinydd "busnes" a phencampwr dros y rhanbarth yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

4.3.6 Dylai'r Cadeirydd feddu ar y cefndir a'r profiad a ganlyn:

- Bod yn aelod o gymuned fusnes y sector preifat;
- Meddu ar brofiad arweinyddiaeth uwch helaeth;
- Cael rhwydwaith eang o gysylltiadau cyhoeddus, preifat ac yn y llywodraethau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r rhanbarth.

4.3.7 Darperir cefnogaeth strategol, ymchwil, polisi a chyfryngau i'r Cadeirydd a'r Bwrdd Cyflawni Busnes gan y Swyddfa Rhaglen (unwaith y bydd wedi'i sefydlu'n llawn).

4.3.8 Ymgynghorir â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch penodi Cadeirydd. Caiff y broses ei goruchwyllo gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

4.3.9 Caiff y Cadeirydd ei benodi yn unol â'r safonau cydnabyddedig ar gyfer penodiadau cyhoeddus, yn cynnwys hysbyseb agored.

4.3.10 Bydd y Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd a rhwng 9 a 12 aelod.

#### **4.4. Dethol Aelodau'r Bwrdd Cyflawni Busnes**

4.4.1 Rhaid i'r broses ddethol fod yn agored ac yn dryloyw, gan ddefnyddio'r meini prawf dethol a restrir isod.

4.4.2 Bydd y Panel Penodi yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes. Bydd y Panel yn cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd Uchelgais i gymeradwyo'r ymgeiswyr mwyaf addas i'w penodi.

4.4.3 Caiff rôl Aelodaeth y Bwrdd ei hysbysebu'n gyhoeddus i annog ystod eang o geisiadau. Bydd cyfres gyfunol o sgiliau a phrofiad y Bwrdd yn ystyriaeth allweddol.

4.4.4 Ar y cyd, dylai'r Bwrdd feddu ar y wybodaeth a'r sgiliau a ganlyn:

- Dealltwriaeth o economi'r Gogledd a gwerthfawrogiad o gyfleoedd yn y sectorau economaidd twf a sylfaen ledled y rhanbarth
- Rhwydwaith eang o gysylltiadau ledled y DU ac yn rhyngwladol;
- Profiad o ddadansoddi ac asesu gwybodaeth fasnachol, dechnegol ac ariannol er mwyn rhoi cyngor safonol i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau;
- Profiad o ddarparu cyngor diduedd am brosiectau a mentrau, yn benodol yng nghyswllt eu hyfywedd a'u heffaith ar faterion cyflogaeth ac economi.

4.4.5 Wrth benodi aelodau, rhoddir ystyriaeth i sefydlu aelodaeth sydd, gyhyd ag sy'n bosib, yn gytbwys fel ei bod yn adlewyrchu ac yn cynrychioli holl ardal ddaearyddol y Gogledd, ei sectorau a'i chymunedau busnes a bydd angen ystyried hyn yn ystod y broses benodi.

#### **4.5. Gwrthdaro Buddiannau**

4.5.1 Er mwyn caniatáu i'r Bwrdd Cyflawni Busnes ymgymryd â'i holl swyddogaethau, gwneir gwahaniaeth clir rhwng y rheini sy'n ymwneud â datblygu prosiectau penodol a'r rheini sy'n paratoi argymhellion am y prosiectau hynny i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Gweithredir system gadarn o ddatgan gwrthdaro buddiannau. Yn ogystal, mae Ymgynghorwyr y Bwrdd Uchelgais wedi'u rheoli gan God yng nghyswllt buddiannau personol. Disgwylir i aelodau a benodir i'r Bwrdd Cyflawni Busnes gydymffurfio â rhai darpariaethau.

#### **4.6. Camau Nesaf**

4.6.1 Bydd y camau nesaf yn cynnwys hysbysebu rôl y Cadeirydd. Bydd y broses fel a ganlyn:

- Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cymeradwyo proses recriwtio arfaethedig, yn seiliedig ar y broses sydd wedi'i hamlinellu uchod;
- Hysbysebu'r swydd am bythefnos;

- Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ymgymryd ag asesiad rhestr fer, ac yn cynnal cyfweiliadau;
- Ymgynghori â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru;
- Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cymeradwyo penodiad yr ymgeisydd a ffafrir.

4.6.2 Cost flynyddol arfaethedig cefnogi'r Cadeirydd, a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Cyflawni Busnes, yw £20,000 y flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar adolygiad o LEPs y DU a Phartneriaethau Twf eraill. Caiff cydnabyddiaeth y Cadeirydd ei drafod, ond bydd wedi'i gyfyngu gan yr adnoddau sydd wedi'u clustnodi i'r Bwrdd Cyflawni Busnes. Bydd hyn yn talu am gostau megis treuliau a lwfansau mynychu.

## **5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Cost flynyddol arfaethedig cefnogi'r Cadeirydd, a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Cyflawni Busnes, yw £20,000 y flwyddyn.

## **6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Bydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gweithredu fel corff ymgynghorol i'r Bwrdd Uchelgais. Ni fydd ganddo unrhyw bwerau dirprwyedig i wneud penderfyniadau. Mae'n bwysig nodi y bydd y penderfyniad i greu Bwrdd Cyflawni Busnes fel corff ymgynghorol yn arwain at ddisgwyliadau cyfreithlon y bydd y Bwrdd Uchelgais yn ystyried barn y Bwrdd Cyflawni Busnes wrth wneud penderfyniadau. Rhoddir sylw i hyn hefyd gan benodiad arfaethedig y Cadeirydd fel Ymgynghorydd i'r Bwrdd Uchelgais.

6.2. Bydd angen i'r cabinet Rhanbarthol fod yn fodlon y gall gwrrdd â holl gostau'r Bwrdd Cyflawni Busnes o'i Gyllideb Flynyddol.

6.3. Dylid gofyn am gyngor cyfreithiol ar yr amodau a thelerau arfaethedig y rheini a benodir i'r Bwrdd Cyflawni Busnes.

## **7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim ar hyn o bryd.

## **8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Ymgymerir â'r broses recriwtio gan gydymffurfio â dyletswyddau'r Partneriaid dan ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010.

## **9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIUYD**

9.1. Cytunodd cyfarfod y Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 29 Mawrth 2019 y dylid cyflwyno'r adroddiad hwn i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er ystyriaeth.

---

### **ATODIADAU:**

Dim.

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

"Fel yr amlinellir yn yr adroddiad, mae hyn yn rhoi'r Bwrdd Cyflawni Busnes ar sylfaen ffurfiol fel rhan o strwythur datblygol y prosiect. Mae'n amlinellu'n briodol broses a gaiff ei llywodraethu gan broses benodiadau dryloyw a theg ac mae'n adlewyrchu rôl allweddol y corff wrth lywodraethu'r prosiect. Fel yr adroddwyd, bydd y trefniadau hyn yn sail ar gyfer corfforiad i'r ail Gytundeb Llywodraethu, GA 2."

**ii. Pennaeth Cyllid - Corff Atebol:**

"Gall y Bwrdd benderfynu defnyddio rhan o'i gyllideb 'Datblygu a Chefnogi Prosiectau' ar gyfer pecyn cydnabyddiaeth Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes, fel y nodir yn rhan 2.4 yr adroddiad."



---

## ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

12 Ebrill, 2019

---

**TEITL:** *Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus*

**AWDUR:** *Iwan Prys Jones, Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*

---

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Diweddaru Aelodau ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus a'r ymateb rhanbarthol sydd wedi'i gyflwyno.

### 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Gwahoddir Aelodau i nodi'r adroddiad cryno hwn ar gynigion Llywodraeth Cymru i Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus a'r ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, sydd wedi'i atodi.

### 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Cyhoeddwyd y Papur Gwyn hir ddisgwyliedig ar Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus gan Lywodraeth Cymru ar 10 Rhagfyr 2018.

Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu cynigion i ddiwygio cludiant teithwyr, strwythurau cyflwyno a thrwyddedu tacsis. Bwriad y ddogfen bolisi yw ceisio gwrth-droi gostyngiad cyflym yn y defnydd o fysiau yn y blynyddoedd diwethaf; awgryma'r papur fod y defnydd o fysiau yng Nghymru yn gostwng ar gyfradd gynt nag yn unrhyw wlad neu ranbarth arall ar draws y DU.

Rhodddwyd cyfnod ymgynghori tan 27 Mawrth 2019 er mwyn derbyn ymatebion. Cyflwynwyd yr ymateb sydd wedi'i atodi ar ran y Bwrdd Uchelgais erbyn y dyddiad hwn.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-12/gwella-trafnidiaeth-gyhoeddus.pdf>

Trafododd Grŵp Aelodau Cabinet Trafnidiaeth y Papur Gwyn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol yn eu cyfarfod ar 4 Chwefror. Rhodddwyd cyfle pellach i gwblhau ymateb i'r ymgynghoriad cyn y dyddiad cau.

### 3.2 Ystyriaethau

Mae'r Papur Gwyn yn rhannu'n dair adran eang

- Newidiadau i strwythurau sefydliadol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cludiant teithwyr
- Newidiadau deddfwriaethol i alluogi mwy o reolaeth dros lwybrau a gwasanaethau bysiau.
- Newidiadau i brosesau sefydliadol a thrwyddedu tacsis a Cherbydau Hacni fel bod gwasanaethau Tacsis wedi'u cydlynu'n well law yn llaw â mathau eraill o gludiant teithwyr.

Trafodir y cynigion amrywiol yn yr adroddiad hwn.

## **Gostyngiad mewn Defnydd o Fysiau**

Mae nifer o ffactorau eraill ar waith gyda phob un yn cyfrannu at lai o gwsmeriaid ledled Cymru.

- Canoli gwasanaethau sy'n ei gwneud hi'n haws i fodurwyr preifat na theithwyr cludiant cyhoeddus e.e. ar gyfer ysbytai aciwt.
- Anodd i gludiant cyhoeddus wasanaethu lleoliadau cyflogaeth aml-ganolfan
- Newidiadau i batrymau gweithio, gyda cheir preifat yn cynnig mwy o hyblygrwydd ar gyfer siwrneiau. Yn aml, ni all bysiau gystadlu o ran yr amser a gymerir, pa mor aml mae angen newid bws neu newid dulliau cludiant
- Tagfeydd sy'n ychwanegu mwy o adnoddau drud i wasanaethau bws teithiau pellach
- Gostyngiad sylweddol mewn cwsmeriaid yng nghanol trefi.
- Cynnydd mewn datblygiadau manwerthu sy'n gyfleus i ddefnyddwyr ceir, sy'n anoddach i fws eu gwasanaethu na chanol trefi.

Mae hi'n amlwg bod angen newid, i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu rheoli a'u caffael, ond hefyd i'r rheoliadau o amgylch rhwydweithiau bws a'r berthynas gyda'r diwydiant.

Er bod gan strwythurau sefydliadol rôl yn y gostyngiad hwn, y mater mwyaf allweddol yw'r lleihad mewn cyllid i gefnogi gwasanaethau bws gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae hyn wedi arwain at benderfyniadau anodd o ran toriadau gwasanaeth ac efallai bod colli cyllid wedi cyfrannu at fethiant amlwg nifer o weithredwyr bysiau dros y blynyddoedd diwethaf.

## **4. CEFNIDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

### **4.1. Cynnig i sefydlu Cyd-Awdurdod(au) Trafnidiaeth**

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig trosglwyddo cyfrifoldebau awdurdodau lleol i Gyd-Awdurdodau Trafnidiaeth (JTA)

Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau presennol sy'n eu galluogi i sefydlu un JTA neu fwy. Cynigiodd ychwanegu mwy o bwerau i awdurdodau lleol uniongyrchol i gymryd rhan yn y gwaith o sefydlu pwerau presennol.

Ceir dau gynnis arall, sefydlu un JTA cenedlaethol neu JTA cenedlaethol a thri JTA rhanbarthol.

Byddai un JTA yn gorff cenedlaethol i gyflawni rhaglenni cenedlaethol ac unrhyw weithgarwch ar lefel ranbarthol hefyd, gydag is-bwyllgorau cyflawni rhanbarthol yr JTA yn cael eu sefydlu.

Dull arall yw cael un corff cenedlaethol yn ogystal â thri chorff rhanbarthol ar wahân.

Ni cheir unrhyw gyfeiriad yn y ddogfen at unrhyw dull rhanbarthol neu bwyllgorau rhanbarthol presennol. Yn rhyfedd, mae hyn wedi cael ei hepgor. Yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyn, mae trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yn awgrymu y gellir cael peth hyblygrwydd lle gellir integreiddio cynigion presennol i gyrff rhanbarthol gyda chynigion Llywodraeth Cymru er mwyn sefydlu partneriaeth ar gyfer cyflawni'n rhanbarthol.

Mae rhywfaint o rinweddau yn y cynigion i sefydlu JTA. Mae awdurdodau lleol wedi gweld gostyngiadau sylweddol mewn capasiti a phrofiad yn y blynyddoedd diweddar. Er enghraifft, nifer cymharol fach o weithwyr proffesiynol Trafnidiaeth Siartredig sydd bellach yn y Gogledd. Ceir hefyd dulliau hollol wahanol o ariannu rhwydweithiau bws lleol ar draws yr awdurdodau; mae hyn yn cael effaith wirioneddol ar y rhwydwaith ledled y rhanbarth.

Nid yw'r Papur Gwyn, yn ei hanfod, yn gwneud sylw ar gludiant ar gyfer ysgolion a dysgwyr. Er bod cyfeiriad yn cael ei wneud, nid oes unrhyw gynigion pendant mewn perthynas ag integreiddio a sut allai hyn weithio o fewn JTA. Mae hwn yn fater sylweddol o ystyried y lefel uchel o integreiddio cludiant ar gyfer ysgolion a dysgwyr gyda gwasanaethau bws eraill, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

#### **4.2. Ystod o Swyddogaethau Cenedlaethol / Rhanbarthol**

Ceisio'r Papur Gwyn amlinellu pa wasanaethau a ellir eu cynnwys mewn JTA Cenedlaethol a fyddai'n gyfrifoldeb JTA rhanbarthol.

**Swyddogaethau Cenedlaethol-** Cynigion wedi'u seilio ar gael safonau cenedlaethol a threfniadau cytundebol unigol neu gyson, mae'n cynnwys cynigion ar gyfer dulliau ar y cyd ar gyfer caffael isadeiledd, swyddogaethau cefn swyddfa a brandio cyfunol.

**Swyddogaethau Rhanbarthol/Gweithredu-** Cynigion ar gyfer gweithgareddau megis cynllunio rhwydwaith lleol, contractau gyda gweithredwyr, gweithredu partneriaethau ansawdd, caffael a chynnal a chadw isadeiledd, i'w rheoli'n rhanbarthol.

Yn bwysig ddigon, mae Gweinidogion yn ceisio cael pwerau i roi arweiniad a chyfarwyddyd i JTA a chael pwerau ymyrraeth hefyd. Mae hyn yn gynydd sylweddol o'r pwerau presennol i sefydlu JTA yn y ddeddfwriaeth bresennol.

#### **4.3. Partneriaethau Bws Ansawdd Estynedig**

Mae'r Papur Gwyn yn ystyried ffyrdd gwell i sefydliadau llywodraeth weithio'n ffurfiol gyda gweithredwyr. Dylid croesawu Partneriaethau Ansawdd Estynedig fel yr elfen bwysicaf, o bosib, o'r pecyn o newidiadau gweithredol a gynigir.

Nid oes unrhyw bartneriaethau ansawdd statudol wedi'u sefydlu yng Nghymru ac ychydig iawn sydd yn Lloegr hefyd. Y rhwystrau sy'n ofynnol yw'r rheswm dros hyn. Hyd yma, dim ond partneriaethau gwirfoddol sy'n bodoli ac mae'r rhain braidd yn unochrog.

Cynigiodd y Papur Gwyn wella mecanweithiau i sefydlu partneriaethau ansawdd gyda chwmnïau bysiau fydd yn lleihau rhai o'r rhwystrau i weithredu partneriaethau yn y cyfnod presennol.

Un o'r prif newidiadau yw dileu'r gofyn am welliannau isadeiledd gan Awdurdodau Lleol lle mae partneriaethau ansawdd estynedig wedi cael eu sefydlu.

Dylid ystyried cyflwyno partneriaethau ansawdd estynedig fel teclyn ychwanegol i awdurdodau lleol reoli rhwydweithiau bysiau. Nid hwn ddylai fod yr unig declyn sydd ar gael, ond y cynigion i ymdrin â'r berthynas anghyfartal sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Mae cyfleoedd posib yn cynnwys y potensial i gyfeirio gwasanaethau at gyflogaeth, eithrio cymdeithasol ac iechyd a'u cyfeirio oddi wrth ddarparu gwasanaethau wedi'u targedu at ddeiliaid tocynnau bws rhatach i gael mynediad i ardaloedd manwerthu. Byddai'r Cynnig hefyd yn galluogi i wasanaethau bysiau wedi'u targedu gefnogi'r Parthau Teithio Integredig a amlinellir yn strategaeth newydd Metro Gogledd Cymru.

Yn gryno, mae hwn yn gynnig sydd â rhywfaint o rinweddau ond ceir problemau posib o ran gweithredu, cost a sicrhau cydbwysedd rhwng prisiau teithio a chymhorthdal.

#### **4.4. Masnachfreinio**

Yn ôl y disgwyl, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cael pwerau i allu masnachfreinio coridorau bysiau neu ardaloedd daearyddol. Cynigir pwerau wedi'u symleiddio ond bydd angen pum achos busnes cyn gweithredu.

Dylid croesawu mwy o hyblygrwydd a chyfle i reoli rhwydweithiau yn fras, ond ni ddylid ei ystyried fel yr unig declyn i sicrhau newid. Defnyddir masnachfreinio orau er mwyn cael gwared ar ddyblygu gwastraffus rhwng gweithredwyr; fodd bynnag, yn dilyn methiant rhai gweithredwyr yn y Gogledd, ychydig o ddyblygu a geir ar brif lwybrau ar hyn o bryd.

Mae masnachfreinio dan ddeddfwriaeth bresennol yn galluogi i awdurdod bennu a thendro pob gwasanaeth yn ei ardal, p'un a oeddent yn fasnachol neu dan gontract yn flaenorol. Prif fudd masnachfreinio fyddai lleadaenu'r budd a gronnir o wasanaethau masnachol er mwyn galluogi mwy o welliannau neu welliannau ehangach.

Oni bai bod cyllid ychwanegol, y gwendid yw y gallai hynny arwain at ychydig o golled i deithwyr wrth i wasanaeth craidd yn ystod y dydd leihau gan fod elw yn talu am wasanaethau yn ystod adegau tawel.

Mae'n annhebygol y bydd gweithredwyr bysiau yn croesawu'r mesur hwn. Fodd bynnag, gallai'r opsiwn i fasnachfreinio fod yn declyn defnyddiol i'r sawl sy'n caffael gwasanaethau bysiau.

#### **4.5. Gwasanaethau Bysiau Awdurdodau Lleol**

Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cynnig i'w gwneud yn haws i Awdurdodau Lleol sefydlu eu cwmnïau bysiau eu hunain, drwy gael gwared ar y gwaharddiad a gynhwysir yn Neddf Trafnidiaeth 1985. Mae'r cynnig yn golygu y gallai Awdurdodau Lleol sefydlu gweithrediadau o'r fath drwy gyfrwng cerbyd hyd braich, yn amodol ar gael model busnes pum achos yn ei le.

Mae'r newidiadau a gynigir yn gadarnhaol yn gyffredinol. Gallai'r pwerau ychwanegol fod yn ddefnyddiol mewn ardaloedd lle ceir ychydig neu ddim cystadleuaeth ymysg gweithredwyr preifat, all arwain at brisiau tendro uwch neu lle mae awdurdodau yn cael trafferth denu bidiau digonol.

Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'r gallu i ailddyfeisio gweithredwyr bysiau bwrdeistrefol yn gam ymlaen felly. Byddai darpariaeth uniongyrchol yn cael ei ffafrio yn hytrach na thrwy sefydliadau hyd braich.

Fodd bynnag, bydd y prif faterion o ran hyfywdra gwasanaethau bysiau yn parhau. Bydd angen cydbwyso costau gwasanaethau a'r goblygiadau refeniw yn erbyn prisiau teithio ac incwm arall, yn yr un modd ag unrhyw weithredwr masnachol, oni bai bod cymhorthdal ychwanegol sylweddol ar gael.



Mae hwn yn gynnig i'w groesawu ac yn cyd-fynd â dyheadau rhanbarthol i gael modelau darparu amgen. Bydd angen ystyriaeth ofalus drwy ddatblygu achos busnes manwl cyn sefydlu gweithrediad o'r fath.

#### **4.6. Cynllun Tocynnau Rhatach**

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig newidiadau i'r drefn darparu tocynnau bws rhatach yn y dyfodol.

Bydd oedran pan fydd tocyn yn cael ei roi yn newid o 60 i oedran pensiwn merched. Ni chynigir unrhyw newidiadau eraill mewn cymhwysedd er bod achos dros wneud rhai newidiadau er mwyn lleihau cost y cynllun.

Gan mwyaf, mae'r cynllun tocyn rhatach wedi bod yn llwyddiannus, fodd bynnag, cafodd effaith ar y ffordd mae gwasanaethau yn cael eu darparu, mae wedi arwain at gynnydd yng nghostau teithiau unigol ac wedi bod yn gynllun drud i'w weithredu.

Mae'r newidiadau i gymhwysedd y cynllun yn gymharol fychan, ond bydd cynyddu'r oedran pan fydd tocynnau yn cael eu rhoi yn cael effaith. Gallai'r newid hwn fod yn fuddiol os cyfyd unrhyw arbedion o'r newid a'u hail-ddefnyddio i wella darpariaeth cludiant cyhoeddus.

#### **4.7. Gwybodaeth a Monitro Trafnidiaeth Gyhoeddus**

Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cynnig i alluogi i weinidogion ofyn i weithredwyr bysiau, y comisiynydd traffig ac awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth ar drafndiaeth teithwyr.

Mae hyn yn wirfoddol ar hyn o bryd ac yn amodol ar gyfrinachedd masnachol. Mae diffyg gwybodaeth wedi rhwystro datblygiad cynlluniau yn y gorffennol ond eto mae'n annhebygol y bydd hyn yn cael ei groesawu gan y diwydiant.

Nid oes dim sy'n arbennig o ddadleuol neu, yn wir, yn radical, yn y cynigion hyn. Sicrhau bod pob gweithredwr yn cofrestru gwasanaethau yn electroneg ac yn sicrhau bod data ffynonellau canlyniadol yn agored ac ar gael yn helaeth i ystod o sefydliadau fyddai'r ffordd orau o bosib i gyflawni gwelliannau mewn gwybodaeth.

Dylid cael un dull cyson ar gyfer darparu gwybodaeth, yn enwedig gwybodaeth amserlen brintiedig. Nid yw pob awdurdod yn darparu gwybodaeth yn y ffurf hon ar hyn o bryd.

#### **4.8. Trwyddedu Taccis**

Mae'r adran hon o'r Papur Gwyn yn fwy radical na'r hyn a ddisgwyliwyd.

Mae'n cynnig cyfres unigol o safonau ac amodau trwyddedu ar draws Cymru fydd yn cael eu gosod drwy reoliad, heb unrhyw ymgynghoriad pellach.

Bydd disgrisiwn cyfredol yr Awdurdodau Lleol yn cael ei ddiddymu. Bydd y safonau cenedlaethol hyn yn berthnasol p'un a ydynt yn cael eu rheoli gan Awdurdodau Lleol neu JTA ai peidio. Ceir pryderon ynglŷn â chysondeb ac ansawdd mewn rhai ardaloedd wrth eu cymharu ag eraill.

Dylid cefnogi hyn, cyn belled â bod y safonau cenedlaethol gystal ag amodau gorau trwyddedu lleol.

Bydd unrhyw Awdurdod Lleol yn gallu cymryd camau gorfodaeth yn erbyn unrhyw weithredwr sy'n gweithio yn ei ardal, lle bynnag y cafodd y drwydded ei rhoi.

Mae'r safonau a ddarperir yr un fath, dylai hyn fod yn syml a dylid ei groesawu.

Cynigir dull unigol er mwyn rhannu gwybodaeth Diogelu. Mae'n hwyr glas cael y cynnig hwn ac yn un lle mae Awdurdodau Lleol wedi bod yn wan o ran cytuno ar ddull gweithredu ar y cyd yn y gorffennol.

Y newid mwyaf arwyddocaol i'r cynnig yw ail-gyfeirio gwaith trwyddedu pob tacsî a cherbyd hurio preifat o Awdurdodau Lleol i Awdurdod trwyddedu cenedlaethol, o fewn y JTA cenedlaethol. Fodd bynnag, mae dau opsiwn amlwg yn y cynnigion.

Opsiwn A yw cael un sefydliad cenedlaethol yn cyflawni gwaith trwyddedu tacsîs a cherbydau hurio preifat.

Opsiwn B yw bod swyddogaethau trwyddedu presennol o fewn Awdurdodau Lleol yn parhau ond bod safonau, rhannu gwybodaeth a gorfodaeth genedlaethol yn cael eu defnyddio.

Gallai JTA unigol gael ei weld fel rhywbeth pell ac anymatebol i anghenion lleol, dylid cynnal trafodaeth p'un a oes opsiynau amgen rhanbarthol gwell.

#### **4.9. Gweithredu**

Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu rhai cynnigion radical i newid rheoleiddio bysiau a hefyd y modd mae gwasanaethau bysiau a gwaith trwyddedu tacsîs yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd. Ysgrifennir y ddogfen bron fel dogfen ymgynghorol gyda sawl opsiwn, yn hytrach na chynigion clir ar gyfer deddfwriaeth. O ganlyniad, mae bron yn fwy o Bapur (Polisi) Gwyrdd, yn hytrach na chynigion ar gyfer deddfwriaeth.

Wrth i'r papur gynnig newidiadau i ddeddfwriaeth, deallir ei bod yn annhebygol y bydd gweithredu'n digwydd cyn 2020 - 21, yn amodol ar ganlyniad y broses ymgynghori.

Mae trafodaethau cychwynnol rhwng WLGA a Llywodraeth Cymru wedi dangos parodrwydd i gynnal trafodaethau ar lefel ranbarthol ynglŷn â sefydlu JTA posib a sut y gellir datblygu hyn ochr yn ochr â chynigion sy'n datblygu ar gyfer cyrff trafndiaeth rhanbarthol. Os yw awdurdodau lleol yn ymrwymo i ddull rhanbarthol ar gyfer trafndiaeth, gallai fod peth hyblygrwydd ar gyfer strwythurau yn y dyfodol.

Canolbwyntiodd y trafodaethau gyda'r Grŵp Aelodau Cabinet Trafnidiaeth yn y Gogledd ar yr angen am gamau brys o ystyried: -

- cyfradd y gostyngiad mewn cwsmeriaid,
- gweithredwyr bysiau proffil uchel yn mynd allan o fusnes,
- costau sylweddol uwch y gwasanaethau a dendrir yn sgîl diffyg capasiti yn y farchnad,
- newidiadau cyflym mewn cofrestru llwybrau masnachol yn arwain at alwadau pellach ar y gyllideb.

Yn sgil trafodaethau cychwynnol gyda Llywodraeth Cymru, mae arwyddion y gallai bod cyfle i beilota rhai cynigion yn y rhanbarth, cyn cyhoeddi unrhyw ddeddfwriaeth newydd. Gallai hyn gynnwys peth gwaith rhanbarthol ar ddarparu gwasanaethau bysiau, cefnogaeth i Lywodraeth Cymru i baratoi at y ddeddfwriaeth ar ôl y Papur Gwyn a datblygu cynigion ar gyfer corff trafndiaeth rhanbarthol. Hefyd, gallai fod cyfle i beilota dulliau sy'n seiliedig ar y Partneriaethau Ansawdd Estynedig arfaethedig ar rwydwaith o lwybrau strategol ledled y rhanbarth. Mae cynnig yn unol â'r awgrym uchod wedi'i wneud i Lywodraeth Cymru.

#### **4.10. Y Broses Ymgynghori**

Roedd y cyfnod ymgynghori ar gyfer y Papur Gwyn ar agor tan 27 Mawrth 2019.

Hefyd, trefnodd y WLGA gyfarfod i Aelodau Cabinet Trafnidiaeth Cymru gyfan yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd ar 25 Mawrth, lle bu Ken Skates yn bresennol yn rhan o'r digwyddiad o leiaf. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfod o Gadeiryddion y pedwar grŵp aelodau rhanbarth yng Nghymru er mwyn ffurfio'r ymateb Cymru gyfan drwy'r WLGA.

### **5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

- 5.1. Nid oes unrhyw gostau sylweddol wrth ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn na ellir talu amdanynt o gyllidebau presennol.

Bydd costau yn gysylltiedig â sefydlu a rheoli unrhyw JTA a sefydlir. Ar hyn o bryd, mae'r cynigion yn y Papur Gwyned yn rhai lefel uchel a bydd angen rhagor o waith manwl i feintoli costau'r dull hwn yn llawn. Mae'n debygol y bydd rhagor o waith arfarnu yn cael ei wneud wrth i fanylion pellach ynghylch cynigion cadarn ddod i'r amlwg.

### **6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

- 6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol sylweddol yng nghyswllt yr ymateb i'r ymgynghoriad.

Wrth i'r cynigion manylach ddod i'r amlwg wedi'r broses ymgynghori gyntaf, gallai'r goblygiadau fod yn sylweddol. Bydd angen gwaith datblygu manwl er mwyn sefydlu Cyd-Awdurdod Trafnidiaeth a'r gwaith gweinyddol dilynol. Yn ogystal, gallai datganoli pwerau o awdurdodau lleol i'r JTA gael goblygiadau sylweddol hefyd. Rhagwelir y bydd angen ymgymryd â chyfnod o waith manwl gan arwain at gynigion llawn cyn gweithredu unrhyw beth.

### **7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

- 7.1. Nid ydym yn gwybod beth yw goblygiadau staffio gweithredu unrhyw rai o'r cynigion ar hyn o bryd. Gallai'r symudiad i sefydlu JTA gynnwys trosglwyddo neu secondio staff; fodd bynnag, hyd nes bydd y cynigion wedi'u cwblhau, nid ydym yn gwybod beth yw'r manylion.

### **8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

- 8.1. Ddim yn gwybod ar hyn o bryd. Bydd angen ymgymryd â gwaith manwl pellach unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canlyniadau'r cyfnod ymgynghori. Gallai fod goblygiadau i ddefnyddwyr bysiau, yn nhermau newidiadau i wasanaeth a bydd y cynnydd yn yr oedran ar gyfer derbyn tocyn bws rhatach yn cael effaith ar gymhwyster ar gyfer teithio ar fysiau am ddim.

## 9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD

- 9.1. Ymgynghorwyd â'r Grŵp Aelodau Cabinet Trafnidiaeth ynghylch yr ymateb arfaethedig i'r Papur Gwyn. Ymgynghorwyd â Phrif Swyddogion a rheolwyr Trafnidiaeth y chwe awdurdod lleol hefyd.

---

### ATODIADAU:

**Atodiad 1** Copi o'r ymateb a gyflwynwyd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

---

### YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

“Rwy’n nodi fod yr ateb rhanbarthol drafft yma yn ategu at ymatebion gan y Cyngorau unigol. Mae nifer o agweddau i’r Papur Gwyn sydd ar lefel gymharol uchel ac fel y nodir, yng nglo man unrhyw ddeddfwriaeth fydd modd ystyried gwir oblygiadau y cyfeiriadau posib.”

**ii. Pennaeth Cyllid - Corff Atebol:**

“Dylid arddangos cost-efeithiolrwydd cynigion cyn gosod unrhyw haenau ychwanegol uwchben awdurdodau lleol o fewn y gyfundrefn newydd arfaethedig.”



## PAPUR GWYN LLYWODRAETH CYMRU - GWELLA TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS

### Ymateb gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn bartneriaeth o chwe Awdurdod Lleol yn y Gogledd, ynghyd â dau Goleg AB, y ddwy Brifysgol Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy.

Sefydlwyd y Bwrdd i gefnogi datblygu economi'r rhanbarth ac mae wedi rhoi pwyslais sylweddol ar ddatblygu cysylltiadau trafniadaeth a chysylltedd ers iddo gael ei sefydlu. Yn fwy diweddar, mae'r Bwrdd wedi dod yn gorff llywodraeth ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru sydd ar ddod, sy'n cynnwys cynigion ar gyfer gwella integreiddio trafniadaeth wedi'i gefnogi gan sefydlu Corff Trafniadaeth Rhanbarthol.

Mae gan y Bwrdd Uchelgais gynigion uchelgeisiol i dyfu'r economi rhanbarthol ac mae wedi cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau trafniadaeth ar draws y rhanbarth fel gofyn strategol. Mae nifer o leoliadau cyflogaeth llwyddiannus yn gweld busnesau gyda phroblemau recriwtio, tra bod rhannau eraill o'r rhanbarth angen swyddi gwell sy'n talu'n dda, nid oes ganddynt rwydwaith trafniadaeth effeithiol i ganiatáu mynediad i gyflogaeth a gwasanaethau.

Mae cefnogaeth gref yn y rhanbarth i wella gwasanaethau bws fel rhan o rwydwaith rhanbarthol strategol. Mae pryderon wedi'u mynegi dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf o ganlyniad i nifer o weithredwyr trafniadaeth sylweddol yn dod â'u busnesau i ben. Mae hyn wedi arwain at lai o wasanaethau bysiau, diffyg capasiti, costau uwch a theithwyr yn colli cyfleoedd ar gyfer siwrneiau. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn cefnogi'r thema gyffredinol yn y papur o sicrhau gwell rhwydweithiau trafniadaeth, gan ddarparu mwy o sefydlogrwydd i weithredwyr a defnyddwyr bysiau a sicrhau bod gan ein cymunedau gysylltiadau trafniadaeth effeithiol.

Mae'r Bwrdd Uchelgais yn cydnabod pwysigrwydd cyflawni trafniadaeth strategol ar sail ranbarthol. Dyma un o'r ceisiadau allweddol gan y Llywodraeth wrth i ni gynllunio Cynllun Twf ar gyfer y Gogledd.

### Yr ymateb i'r cwestiynau

#### **A ydych yn cytuno ei bod yn bwysig i Awdurdodau Lleol weithio gyda'i gilydd o ran gwasanaethau bysiau lleol? Ydw/Nac ydw? Eglurwch eich ateb.**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Aelodau Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros drafniadaeth wedi bod yn cyfarfod yn anffurfiol gyda'r bwriad o sefydlu Corff Trafniadaeth Rhanbarthol o fewn strwythur llywodraethu'r Bwrdd Uchelgais. Mae ymrwymiad gwleidyddol i weithio'n gydweithredol ar draws y rhanbarth er mwyn cyflawni cynllunio a gwasanaethau trafniadaeth strategol. Mae'r manteision o gydweithio o'r fath yn sylweddol ac mae'r aelodau'n awyddus i sicrhau bod gan ddulliau o'r fath y gallu i wneud newid ystyrlon i rwydweithiau trafniadaeth.

Ar y sail hon, mae cefnogaeth i allu gweithio ar y cyd o fewn Cyd-Awdurdod Trafniadaeth (JTA) Fodd bynnag, mae hi'n hanfodol bod unrhyw drefniant o'r fath yn atebol yn ôl i Awdurdodau Lleol unigol a bod llywodraethu lleol a chysylltiadau â gwasanaethau trafniadaeth awdurdodau lleol eraill, yn enwedig dysgwyr a gofal cymdeithasol, yn cael eu parchu.

Mae'r Bwrdd Uchelgais yn gefnogol i'r egwyddor o sefydlu JTA oherwydd yr angen i rwydweithiau trafniadaeth gael eu rheoli a'u cyflawni ar sail ranbarthol. Fodd bynnag, mae hi'n hanfodol bod gan JTA bwerau er mwyn gallu gweithredu a hefyd bod faint o gyllideb a gaiff ei chlustnodi yn glir i'r dyfodol.

Mae dull gweithredu mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol sy'n sicrhau dull gweithredu ar y cyd i adnabod blaenoriaethau strategol i gyflawni yn hanfodol.

### **Rhowch sylwadau ar y strwythurau sefydliadol arfaethedig. Beth yw'r opsiwn a ffefrir gennych a pham?**

Mae cefnogaeth gyffredinol yn y rhanbarth i weithio ar y cyd ar drafnidiaeth strategol. Mae hyn yn ddarostyngedig ar unrhyw drefniant yn derbyn pwerau addas er mwyn gallu cyflawni newid ystyrlon a bod trefniadau cyllideb yn glir ac yn dryloyw. Mae'r aelodau yn glir bod yn rhaid i ddull gweithredu o'r fath gael y "dannedd" i wneud gwahaniaeth go iawn.

Er y cydnabyddir bod rhai materion hanfodol y mae'n rhaid eu rheoli ar sail genedlaethol, mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer un JTA cenedlaethol yn gymhleth o bosib, o ystyried y sylwadau yng nghwestiwn 1 uchod. Mae gennym bryderon y byddai'r gofynion aelodaeth yn arwain at strwythur sefydliadol mawr a chymhleth, pe byddai'r holl awdurdodau yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar JTA cenedlaethol.

Ar y cyfan, byddai'r Bwrdd Uchelgais yn cefnogi sefydlu JTA rhanbarthol yn y Gogledd yn amodol ar eglurder pellach ynghylch aelodaeth, pwerau, goblygiadau adnoddau a chyllidebau.

Ystyriwn y gellid rheoli'r swyddogaethau y mae angen ymgymryd â nhw yn genedlaethol er mwyn sefydlu strwythurau amgen, y cytunir arnynt ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni gweithgareddau penodol ar sail genedlaethol. Gallai hyn olygu cael cynrychiolaeth o JTA rhanbarthol yn ffurfio sefydliad cyflawni cenedlaethol ar gyfer meysydd cyfrifoldeb penodol.

Cydnabyddir bod y Papur Gwyn cyfredol yn gwneud cynigion lefel uchel, gyda manylion pellach i ddilyn ynghylch rhai agweddau ar rôl ac aelodaeth y JTA yn y dyfodol. Mae hi'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill yn gweithio ar y cyd er mwyn siapiro cynigion ar gyfer rolau'r dyfodol ac ati.

### **A oes strwythur sefydliadol arall ar gyfer Cyd-awdurdodau trafnidiaeth y dylwn ei ystyried? Rhowch ddisgrifiad.**

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Uchelgais yn cynnig sefydlu Corff Trafnidiaeth Rhanbarthol fel is-bwyllgor o'r Bwrdd Uchelgais. Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi'i gyfansoddi fel Cyd-bwyllgor dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1974.

O ystyried bod y Bwrdd Uchelgais yn gweithio ar Gynllun Twf gyda chydran trafnidiaeth sylweddol, mae cael partneriaeth waith effeithiol gyda strwythurau cyflawni rhanbarthol yn hanfodol. Byddai'r Corff Trafnidiaeth Rhanbarthol arfaethedig mewn sefyllfa i gyflawni'r berthynas waith effeithiol hon.

Byddai'r Bwrdd Uchelgais yn cynnig datblygu model ar y cyd ar gyfer JTA rhanbarthol sy'n cyflawni'r perthnasau gwaith rhanbarthol effeithiol ond gyda'r manteision posib a allai ddeillio o ystyried JTA. Gallai dull gweithredu JTA gynnig rhai manteision yn nhermau bod â'r gallu i weithredu. Fodd bynnag, mae cymhlethdod a chostau pellach ynghlwm â strwythur sefydliadol ffurfiol.

### **A oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynnig y dylid cynrychioli Gweinidogion Cymru ar Gyd-awdurdod Trafnidiaeth neu ar unrhyw bwyllgorau Cyd-awdurdod Trafnidiaeth?**

Mae'r Bwrdd Uchelgais yn cydnabod bod rhesymeg glir ar gyfer cynrychiolaeth Weinidogol ar y JTA wedi'i amlinellu yn y Papur Gwyn.

Mae achos dros sicrhau bod dull gweithredu cryf mewn partneriaeth yn bodoli rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, fel y gellir cydlynu cyflawni rhwydwaith trafnidiaeth yn effeithiol.

Fodd bynnag, mae materion posib o wrthdaro lle gallai dull gweithredu o'r fath achosi anawsterau. Yn benodol, gallai'r pwerau y byddai gan y Gweinidog ynghylch Cyfeiriad olygu gwrthdaro buddiannau ar gyfer cynrychiolwyr a benodir ar y JTA. Gellid datrys y tensiynau ymddangosiadol hyn drwy gyd-dylunio'r opsiwn terfynol a ffefrir.

Rydym yn cydnabod uchelgais y Gweinidogion i wella gwasanaethau trafndiaeth ledled Cymru ac y dylai bod peth cysoni safonau. Opsiwn amgen yw y gallai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau clir ar gyfer unrhyw JTA a sefydlir ac yn cysylltu'r canllawiau â darpariaeth ariannu.

Byddai'r Bwrdd Uchelgais yn cefnogi cynnig lle byddai'r Gweinidog a'r JTA yn medru gweithio mewn partneriaeth er mwyn cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer ymyrraeth a chyflawni trafndiaeth yn y rhanbarth.

**A oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynnig y dylai Gweinidogion Cymru gael pwerau i gyhoeddi canllawiau a chyfarwyddiadau, ac i ymyrryd pe bai Cyd-awdurdod yn methu ag arfer ei swyddogaethau yn effeithiol?**

Mae'r cynnig y dylai Gweinidogion ddarparu canllawiau i'r JTA yn rhesymol. Er mwyn cyflawni safonau cyson o wasanaeth a chyflawni ledled Cymru, byddai canllawiau clir gan Lywodraeth Cymru yn helpu. Yn ddelfrydol, byddai canllawiau o'r fath yn caniatáu i wahaniaethau rhanbarthol fodoli. Byddai cysylltu'r canllawiau â darpariaeth ariannu yn helpu i gryfhau'r broses hon hefyd.

Pe byddai'r JTA yn methu cyflawni ei gyfrifoldebau neu reoli ei gyllideb yn effeithiol, dylai bod mecanwaith i ddatrys diffygion o'r fath. Fodd bynnag, dylai hyn gael ei gydbwyso gan graffu priodol ac effeithiol drwy lywodraeth leol. Dylai ymyrraeth fod yn fecanwaith a ddefnyddir fel y dewis olaf.

**A yw'r dull arfaethedig o rannu swyddogaethau cenedlaethol a rhanbarthol yn briodol?**

Mae angen trafodaethau pellach a chytundeb ynghylch y dull arfaethedig o rannu gweithgareddau. Mae ein hymateb yn cynnig bod angen cyd-ddatblygu'r cynigion manwl rhwng Llywodraeth Leol a llywodraeth leol, mewn ymgynghoriad â diwydiant a defnyddwyr bysiau.

**A ddylid trosglwyddo unrhyw swyddogaethau eraill sy'n ymwneud â thrafnidiaeth i Gyd-awdurdod Trafnidiaeth? Rhowch ddisgrifiad.**

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig trosglwyddo swyddogaethau digonol i gefnogi cyflawni gwell trafndiaeth gyhoeddus. Mae angen cronni adnoddau o fewn model JTA i gyflawni'r dull gweithredu hwn. Mae'r capasiti i gyflawni yn gynyddol gyfyngedig mewn awdurdodau lleol yn dilyn toriadau i gyllidebau. Gall JTA neu fodel cyflawni rhanbarthol arall helpu i ddatrys y diffyg capasiti hwn.

Fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau a gaiff eu cadw o fewn llywodraeth leol yn y cynigion cyfredol yn hanfodol i gyflawni trafndiaeth teithwyr yn llwyddiannus. Yn benodol, yn aml, mae trafndiaeth i ysgolion a cholegau a gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn cael eu cysylltu â chyflawni gwasanaethau trafndiaeth teithwyr eraill. Bydd angen esblygu trefniadau manwl fel rhan o ddylunio strwythurau'r JTA.

Mae rhinwedd i ystyried cynllunio trafndiaeth strategol o fewn dull gweithredu rhanbarthol.

Er mwyn cefnogi'r cyflawni llwybrau trafndiaeth teithwyr yn well, mae cysylltiadau clir gyda phwerau Rheoleiddio Traffig a gedwir o fewn Awdurdodau Priffyrdd lleol. Mae defnydd cyson ar draws ffiniau yn hanfodol er mwyn cyflawni gweithrediadau bysiau effeithiol. Dylai penderfynu p'un a ddylai safonau cyffredin gael eu cydlynu drwy JTA yn ystod proses cyd-gynhyrchu.

**A ydych yn meddwl bod angen deddfwriaeth i sicrhau'r manteision sy'n deillio o weithio ar ffurf bartneriaeth estynedig? Ydw / Nac ydw? Eglurwch eich ateb.**

Dylai gwneud cyflawni partneriaeth bysiau ansawdd yn fwy hyblyg wneud prosesau gweinyddol yn haws. Gellir ychwanegu swyddogaethau ychwanegol i bartneriaethau ansawdd safonol o hyd drwy fynd i gytundeb ar wahân gyda'r gweithredwr bysiau, ac er nad oedd y cytundebau ar wahân hyn bob amser yn rhwym yn gyfreithiol roedd hi'n dal i fod yn bosib i'r gweithredwr a'r awdurdod lleol weithio ar y cyd er budd y cyhoedd.

Nid oes llawer o bartneriaethau ansawdd effeithiol wedi'u cytuno yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae hyn yn awgrymu bod angen dulliau gweithredu diwygiedig er mwyn cynyddu nifer y cynlluniau fel hyn. Byddai deddfwriaeth i symleiddio prosesau a rhoi rhyw gymaint o gymhelliant yn help.

**A ydych yn cytuno â'n cynigion ar gyfer Partneriaethau Ansawdd Estynedig, yn enwedig y broses arfaethedig o ddatblygu a gwneud Partneriaethau Ansawdd Estynedig? Ydw/Nac ydw? Eglurwch eich ateb.**

Mae rhinwedd i'r cynigion ar gyfer Partneriaeth Ansawdd Estynedig, yn benodol dileu'r cyswllt amlwg i seilwaith estynedig sydd wedi'i gynnwys yn y mecanweithiau presennol. Fodd bynnag, byddai angen cytundeb i gydweithio o hyd. Nid yw cael pwerau deddfwriaethol mwy hyblyg o reidrwydd yn arwain at gytundeb fod yn bosib.

Mae'r dull cyffredinol yn un y byddai'r Bwrdd Uchelgais yn ei gefnogi.

Byddai'n ddefnyddiol treialu rhai agweddau ar y cynigion, yn enwedig y rhai ynghylch Partneriaeth Ansawdd Estynedig. Byddai'r Bwrdd Uchelgais yn cefnogi cymryd rhan mewn cynlluniau peilot o'r fath.

**A ydych yn meddwl bod y cynllun arfaethedig yn opsiwn mwy ymarferol ar gyfer masnachfreinio gwasanaethau bysiau lleol? Ydw / Nac ydw? Eglurwch eich ateb.**

Mae masnachfreinio yn un opsiwn a allai roi cyfradd uchel o reolaeth dros y llwybrau bysiau a weithredir. Fodd bynnag, mae hi'n annhebygol y caiff gefnogaeth rhaid gweithredwyr bysiau a byddai ei weithredu yn gynhennus o ganlyniad. Mae peth rhinwedd yn y cynnig ond mae gennym rai pryderon sylweddol ynghylch effaith masnachfreinio a sut y caiff ei gyflawni'n ymarferol.

Mae'r materion allweddol i lywodraeth leol yn troi o amgylch cost a chymhlethdod cyflwyno rhwydwaith wedi'i fasnachfreinio. Byddai rhwydwaith wedi'i fasnachfreinio'n llawn y tu hwnt i allu'r gyllideb sydd ar gael ar hyn o bryd. Hefyd, mae cyfyngiadau sylweddol ar gapasiti a gallu adnoddau awdurdodau lleol i allu dylunio a gweithredu rhwydwaith o'r fath.

Ystyriwn fod rhinwedd mewn cael darpariaeth ar gyfer masnachfreinio mewn deddfwriaeth, fel mecanwaith y dewis olaf lle nad yw perthnasau partneriaeth effeithiol yn bosib.

**A ydych yn meddwl y dylai fod yn ofynnol i'r asesiad fod yn ddarostyngedig i archwiliad annibynnol? Ydw / Nac ydw? Eglurwch eich ateb.**

Er mwyn bod yn sicr bod rhwydwaith masnachfreinio yn hyfyw ac yn angenrheidiol, byddem yn cefnogi cynigion i graffu a bod yn fodlon bod y gweithdrefnau a'r asesiadau y mae Awdurdodau Lleol neu JTA rhanbarthol yn ymgymryd â nhw yn rhesymol. O ystyried yr effeithiau, dylai'r penderfyniadau a gymerir fod yn gadarn a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r ddeddfwriaeth berthnasol. Gallai dull gweithredu o'r fath hefyd helpu i ddatrys anghydfodau a allai godi rhwng y gwahanol bartïon.

**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y broses fasnachfreinio arfaethedig?**

Fel y nodir uchod, byddai gweithredu rhwydwaith wedi'i fasnachfreinio yn gostus ac yn weinyddol anodd. Fodd bynnag, mae rhinwedd mewn cael pwerau i fasnachfreinio, fel mecanwaith y dewis olaf lle mae trefniadau partneriaeth amgen wedi profi i fod yn amhosib eu gweithredu.



**A oes gennych unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cynigion ynghylch dyroddi hawlenni dan amodau pan fo trefniadau masnachfreinio yn eu lle?**

Nid yw'r ddogfen Ymgynghori yn amlinellu amodau a thelerau'r hawlenni na'u hyd, a fyddai'n cael eu pennu gan yr awdurdod sy'n masnachfreinio. Mae angen gwaith pellach yn y maes hwn fel rhan o ddatblygu cynigion manwl.

Gallai dulliau gweithredu gwahanol arwain at anghysonderau a gwahaniaethau'n codi rhwng awdurdodau masnachfreinio cyffiniol a chreu anawsterau posib ar gyfer gweithredwyr bysiau sy'n gwasanaethu ardaloedd cyfagos ac o bosib arwain at rwydweithiau tameidiog. Pe byddai trefniadau masnachfreinio'n cael eu cyflwyno, byddai'n synhwyrol cael fframwaith a chanllawiau cenedlaethol yn eu lle i sicrhau cysondeb.

**A ydych yn cytuno y dylid ystyried yn benodol, fel rhan o unrhyw drefniadau i ddyfarnu contractau masnachfreinio, sut y gellir galluogi gweithredwyr bysiau bach a chanolig i fod yn rhan o'r broses gaffael? Ydw/Nac ydw? Eglurwch eich ateb.**

O ystyried fod sawl rhan o Gymru yn canolbwyntio ar weithredwyr llai ar gyfer gwasanaethau, dylai unrhyw system masnachfrait a ddefnyddir alluogi i weithredwyr bach gymryd rhan. Lle mae trefniadau'n bodoli mewn ardaloedd eraill, deallwn fod mecanweithiau priodol yn eu lle i sicrhau amodau teg i weithredwyr llai.

Byddem yn cefnogi mecanweithiau o'r fath fel rhan o unrhyw ddeddfwriaeth.

**Pa drefniadau pontio y dylid eu hystyried er mwyn sicrhau na effeithir ar wasanaethau bysiau yn ystod y broses o baratoi masnachfrait?**

Mae'n bosib y gallai fod amgylchiadau lle gall gweithredwyr presennol naill ai dynnu'n ôl neu leihau ansawdd darpariaeth gwasanaethau yn ystod y cyfnod rhwng cyhoeddi masnachfrait arfaethedig a'i weithredu. Byddai'n briodol ystyried cyfnod estynedig o rybudd i newid gwasanaethau yn ystod y cyfnod pontio.

Hefyd, byddem yn cefnogi cynigion i dreialu rhannau o'r ddeddfwriaeth cyn dyddiad gweithredu ffurfiol. Byddai cynigion peilot, a gyflawnir mewn partneriaeth rhwng gweithredwyr a chyrrff trafniadaeth, yn ffordd effeithiol o brofi'r ddeddfwriaeth arfaethedig ac yn ffordd i liniaru pryderon penodol ynghylch gweithredu.

**A ydych yn meddwl y dylai awdurdodau lleol fod yn gallu rhedeg gwasanaethau bysiau yn uniongyrchol (hy gwasanaethau mewnlol)? O dan ba amgylchiadau y byddai hynny'n briodol yn eich barn chi? Yn eich barn chi, pa fesurau diogelu, os o gwbl, y dylai fod yn eu lle mewn perthynas â gwasanaethau mewnlol i sicrhau nad oes gan awdurdod lleol fantais annheg mewn marchnad dadreoleiddiedig, a pham?**

Mae'r Bwrdd Uchelgais yn cefnogi'r egwyddor o awdurdodau lleol yn cael rhedeg gwasanaethau bysiau. Y rhesymeg y tu ôl i hyn yw'r dystiolaeth o fethiant y farchnad o fewn y diwydiant bysiau mewn rhai ardaloedd. Mae methiannau busnesau a lleihad mewn gwasanaethau yn ddiweddar wedi gadael rhai ardaloedd gyda darpariaeth gyfyngedig iawn ac mae costau tendro gwasanaethau yn yr ardaloedd hyn yn ddrud yn sgil diffyg cystadleuaeth.

Felly, mae rhinweddau i'r cynnig mewn amgylchiadau o'r fath.

Lle gall awdurdodau lleol arddangos nad ydynt wedi gallu caffael gwasanaethau ar gost resymol ac nad yw dulliau marchnata eraill wedi bod yn llwyddiannus, dylai gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg yn uniongyrchol fod yn opsiwn sydd ar gael.

Fodd bynnag, mae hi'n hanfodol bod unrhyw gynigion o'r fath yn cael eu dylunio i weithio law yn llaw â gwasanaethau masnachol ac eraill yn hytrach na mewn cystadleuaeth â gweithredwyr eraill. Gellir cyflawni hyn fel rhan o ddulliau partneriaeth ehangach.

**Ydych chi'n cytuno â chynnig Gweinidogion Cymru i alinio'r hawl i gerdyn teithio rhatach gorfodol ag oedran pensiwn menywod? Rhowch resymau dros eich atebion.**

Mae newidiadau i hawl cerdyn teithio rhatach i adlewyrchu newidiadau mewn demograffeg yn rhesymol. Mae cyd-fynd ag oedran pensiwn menywod hefyd yn ymddangos i fod yn ffon fesur resymol.

Yn amlwg, mae angen asesu goblygiadau'r newid ac mae'n bosib y bydd angen ystyried y canllawiau i'r rhai hynny sydd â materion iechyd neu eraill a allai fod wedi'u heithrio o'r cynllun yn sgil y meini prawf oedran uwch. Dylai asesiad o'r fath hefyd gynnwys adolygiad o effaith hirdymor y newidiadau ar wasanaethau bysiau ymylol yn ogystal â'r rheini a weithredir gan weithredwyr llai, a allai gael effaith fwy sylweddol o ganlyniad i'r newid.

Yn ogystal, byddem yn gwneud yr achos y dylai unrhyw arbedion ariannol fyddai'n deillio o'r cynnig gael eu hail-fuddsoddi mewn darpariaeth gwasanaeth amgen.

**Ydych chi'n cytuno mai newid fesul dipyn yw'r dull mwyaf priodol?**

Ydw - byddai hyn yn sicrhau na fyddai unrhyw effaith ar y sawl sydd â chardiau ar hyn o bryd.

**Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i'w gwneud yn ofynnol i ryddhau data agored ar lwybrau amserlenni, prisiau a thocynnau? Ydw/Nac ydw? Eglurwch eich ateb.**

Mae hwn yn gynnig rhesymol ac yn un y byddem yn ei gefnogi; gellid dadlau ei bod hi'n hen bryd gweithredu'r gofyn hwn.

Byddai'r cynnig yn galluogi gwell cyd-ddylunio gwasanaethau a rhwydweithiau a hefyd yn helpu awdurdodau priffyrdd i adnabod meysydd i'w gwella i gefnogi gwasanaethau.

Dylai cynigion o'r fath a gaiff eu gweithredu gael eu gwneud mewn ffordd sy'n lleihau'r gost a'r cymhlethdod i weithredwyr. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn ystyried y byddai hi'n briodol i hyn gael ei gyflawni ar ôl-troed rhanbarthol er mwyn lleihau'r baich gwaith gweinyddol.

**Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i alluogi i awdurdodau lleol gael y pŵer i gael gwybodaeth am wasanaethau sydd i'w canslo neu eu hamrywio, a lle bo'n berthnasol, ddatgelu'r wybodaeth hon fel rhan o'r broses dendro? Ydw/Nac ydw? Eglurwch eich ateb.**

Ydw - mae'r cynigion yn rhesymol. Mewn sawl ardal, mae perthnasau effeithiol yn eu lle i sicrhau y darperir gwybodaeth mewn modd amserol, sy'n caniatáu i awdurdodau ymateb i batrymau gwasanaeth sy'n newid.

Fodd bynnag, mae newidiadau cyson i wasanaethau a amserlennir lle rhoddir rhybudd cyfyngedig ac mae hyn wedi achosi problemau penodol yn y Gogledd yn ddiweddar. Mae'r gostyngiad diweddar yn nifer y gweithredwyr wedi gwaethgu'r sefyllfa.

Mae'r newidiadau cyson hyn amserlenni a gwasanaethau wedi achosi effeithiau sylweddol i ddefnyddwyr a chost ychwanegol i awdurdodau lleol yn ddiweddar.

Mae gallu cael mynediad i wybodaeth amserol i gefnogi darpariaeth gwasanaeth amgen yn hanfodol os ydym am gynnal gwasanaethau lleol.



---

## ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

12 Ebrill, 2019

---

**TEITL:** *Adolygiad(au) Bargen Ddinesig Bae Abertawe (SBCD)*

**AWDUR:** *Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*

---

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Adolygu casgliadau ac argymhellion y ddau adroddiad adolygu a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer Bargen Ddinesig Bae Abertawe (SBCD), sef "Adolygiad Annibynnol o Fargen Ddinesig Bae Abertawe" (Atodiad 1) ac "Adolygiad Mewnol o Drefniadau Llywodraethu Bargen Ddinesig Bae Abertawe" (Atodiad 2).
- 1.2. Cymryd yr argymhellion fel gwersi i'w dysgu ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

### 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Bod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Y Bwrdd Uchelgais) yn ystyried yr argymhellion sydd yn y ddau adroddiad adolygiad, "Adolygiad Annibynnol o Fargen Ddinesig Bae Abertawe" ac "Adolygiad Mewnol o Drefniadau Llywodraethu Bargen Ddinesig Bae Abertawe".
- 2.2. Cymeradwyo'r asesiad RAG (Red, Amber, Green) o statws Cynllun Twf Gogledd Cymru yn erbyn bob un o'r argymhellion.

### 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Er mwyn i'r Bwrdd Uchelgais ddeall casgliadau ac argymhellion yr Adroddiad(au).
- 3.2. Er mwyn i'r Bwrdd Uchelgais ganolbwyntio ar y gwersi a ddysgwyd a'r gwelliannau a awgrymir o fewn yr Adroddiad(au) er mwyn gallu bwrw ymlaen â Chynllun Twf Gogledd Cymru.
- 3.3. Er mwyn asesu sefyllfa'r Bwrdd Uchelgais yn erbyn yr argymhellion a'r casgliadau sydd yn yr Adroddiad(au).

### 4. CEFNIDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

#### 4.1. Adolygiad Annibynnol Bargen Ddinesig Bae Abertawe

- 4.1.1. Ym mis Ionawr 2019 comisiynodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU Actica Consulting Ltd i ymgymryd ag adolygiad annibynnol a chyflym o'r trefniadau ar gyfer cyflawni Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sydd werth £1.3bn.
- 4.1.2. Pwrpas yr adolygiad oedd rhoi asesiad i Weinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch y gallu i gyflawni'r Fargen.

4.1.3. Mae'r adroddiad yn gwneud saith argymhelliad i wella'r gallu i gyflawni deilliannau Bargen Ddinesig Abertawe.

#### 4.2. Adolygiad Mewnol o Drefniadau Llywodraethu Bargen Ddinesig Bae Abertawe

4.2.1. Comisiynodd y Cyd-bwyllgor Adolygiad Mewnol o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y SBCD, gan benodi tîm Adolygiad Mewnol.

4.2.2. Pwrpas yr Adolygiad Mewnol oedd rhoi sicrwydd i'r Cyd-bwyllgor ac adnabod meysydd i'w gwella er mwyn sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn gadarn ac yn dilyn arfer gorau.

4.2.3. Mae'r adroddiad yn gwneud naw casgliad ac awgrym ar gyfer gwelliant.

#### 4.3. Cynllun Twf Gogledd Cymru

4.3.1. Rydym wedi asesu cynnydd sefyllfa Cynllun Twf Gogledd Cymru yn erbyn argymhellion a chasgliadau'r ddau adolygiad.

4.3.2. Fel rhan o'r asesiad, rydym wedi adolygu pob argymhelliad neu gasgliad ac wedi rhoi statws RAG (Red, Amber, Green) iddynt yn unol â'r canllawiau isod:

Statws RAG	Statws/Camau angenrheidiol yn
<b>GWYRDD</b>	Ar y trywydd iawn - dim angen unrhyw gamau
<b>AMBR</b>	Angen camau i roi sylw i'r materion.
<b>COCH</b>	Angen camau brys i roi sylw i'r materion.

#### 4.3.3. Adolygiad Annibynnol Bargen Ddinesig Bae Abertawe

CYF.	Argymhelliad	Statws RAG y Cynllun Twf	Sylwadau/Cynnydd y Cynllun Twf
1	Dylid annog craffu ymlaen llaw, ond mae cyswllt wyneb yn wyneb uniongyrchol a rheolaidd rhwng y rhai sy'n ysgrifennu'r Achosion Busnes a'r rhai sy'n gwneud sylwadau arnynt ac yn cynghori'r rhai a fydd yn eu cymeradwyo yn hanfodol.		Mae'r Grŵp Cyflawni Busnes ynghlwm â chraffu'r Achosion Busnes Amlinellol.  Mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd wedi'u trefnu gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o 4/4/2019.
2	Dylai'r Swyddfa Ranbarthol gael ei dynodi'n Swyddfa Rheoli Portffolio, gan wella eu sgiliau gydag arbenigwyr Rheoli Portffolio/Rhaglenni/Prosiectau (P3M) profiadol.		Bydd y Cyfarwyddwr Arweiniol yn arwain ar ddatblygu'r Swyddfa Rhaglen ar gyfer y Cynllun Twf, a bydd yn gweithio gydag arbenigwyr Rheoli Portffolio/Rhaglen/Prosiect (P3M) profiadol i baratoi Llawlyfr y PMO.
3	Dylai Tîm y Fargen Ddinesig (â chymorth Canolfan Sicrwydd Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau yn ôl y galw)		Defnyddir proses Adolygu Porth er mwyn rheoli cynnydd Prosiectau'r Cynllun Twf drwy'r gweithrediad a'r cyflawniad.

	sefydlu Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP) ar gyfer y Portffolio. Dylai pob parti roi ystyriaeth benodol i broses Adolygiad Gateway™ Swyddfa Masnach y Llywodraeth fel rhan allweddol o'r cynllun hwnnw.		
4	Dan gadeiryddiaeth y Cyd-bwyllgor Craffu dylai pob bwrdd ym Margen Ddinesig Bae Abertawe ystyried ei gylch gorchwyl a'i ddulliau gweithio er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio fel y bwriadwyd iddynt wneud. Wrth wneud hynny dylent ystyried yr adolygiad hwn a chanlyniad yr archwiliadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd.		Mae Swyddog Monitro'r Corff Atebol yn arwain ar drefniadau llywodraethu a chylch gorchwyl y Bwrdd Uchelgais a'r is-bwyllgorau.
5	Dylid penodi Cyfarwyddwr Portffolio cyn Mai 2019 er mwyn sicrhau dilyniant i arweinyddiaeth Bargen Ddinesig Bae Abertawe a sicrhau bod y Byrddau'n cael cyngor awdurdodol annibynnol.		Mae trefniadau ar waith i benodi i swydd Cyfarwyddwr Rhaglen y Cynllun Twf.
6	Dylai Bargen Ddinesig Bae Abertawe gael ei rheoli fel Portffolio, ac nid fel prosiectau digyfnewid wedi'u pennu ymlaen llaw.		Mae'r Cynllun Twf yn cyflawni Gweledigaeth Twf i Ogledd Cymru. Mae'r Weledigaeth Twf yn cynnig pecyn sy'n cynnwys saith Rhaglen a 14 prosiect. Yn ogystal, mae'r Weledigaeth Twf yn cynnwys nifer o Gynlluniau Ochr.
7	Ar gyfer Yr Egin a Glannau Abertawe, y ddau achos busnes sy'n agos at gael eu cymeradwyo'n derfynol, dylai uwch swyddogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol geisio dod i gasgliad yn fuan er mwyn sicrhau bod cyllid yn gallu llifo yn ôl yr angen.		Bydd pob un o'r 14 prosiect wedi'i gynnwys o fewn Penawdau'r Telerau ar gyfer y Cynllun Twf. Wrth gynnig ymagwedd ddeuol ar gyfer y 14 prosiect, bydd pum prosiect wedi'u cynnwys o fewn y cam cyntaf, a'r naw sy'n weddill yn yr ail gam.

#### 4.3.4. Adolygiad Mewnol o Drefniadau Llywodraethu Bargen Ddinesig Bae Abertawe

CYF.	Casgliadau ac Awgrymiadau ar gyfer Gwelliant	Statws RAG y Cynllun Twf	Sylwadau/Cynnydd y Cynllun Twf
4.1.	Ailddosbarthu rolau a swyddogaethau i sicrhau cydbwysedd cyfartal ar draws Partneriaeth SBCD, gyda phob un yn gweithredu fel gwiriad a chydbwysedd ar gyfer y lleill.		<p>Mae'r holl bartneriaid o fewn y Bwrdd Uchelgais wedi'u hymrwymo i'r bartneriaeth a chyflawni Gweledigaeth Twf y Gogledd.</p> <p>Mae swyddogion arweiniol o amrywiol awdurdodau lleol yn arwain ar y prosiectau. (Er enghraifft, mae Swyddog o Gyngor Wrecsam yn arwain ar y Prosiect Cysylltedd Digidol)</p> <p>Ar hyn o bryd, mae'r rolau o fewn y Bwrdd Uchelgais wedi'u clustnodi fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyfarwyddwr Arweiniol (Cyngor Gwynedd)</li> <li>- Adran 151 (Cyngor Gwynedd)</li> <li>- Swyddog Monitro (Cyngor Gwynedd)</li> <li>- Cadeirydd y Bwrdd Uchelgais (Cyngor Sir y Fflint)</li> <li>- Is-gadeirydd y Bwrdd Uchelgais (Cyngor Gwynedd)</li> </ul>

			<p>Bydd cynrychiolydd o'r Bwrdd Uchelgais yn cael ei enwebu i fod ar bob is-fwrdd.</p> <p>Ar hyn o bryd nid oes yr un penodiad wedi'i wneud i'r Swyddfa Rhaglen - mae'r swyddogaeth hon yn cael ei gwneud yn bennaf gan staff Cyngor Gwynedd, wedi'i hariannu ar y cyd gan bartneriaid y Bwrdd Uchelgais.</p>
4.2.	<p>Penodi Cyfarwyddwr Rhaglen annibynnol, gan sicrhau annibyniaeth y Swyddog Arweiniol sy'n gyfrifol am y Swyddfa Ranbarthol, gyda llinell adrodd uniongyrchol i'r Cyd-bwyllgor. Rhaid i'r swyddog sy'n ymgymryd â'r rôl hon fod ddigon uchel a rhaid iddo feddu ar ddigon o allu i herio a chael ei herio gan barhau'n annibynnol ac yn wrthrychol. Er mwyn hwyluso hyn, dylai rolau Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig (y cyflogwr) a'r Prif Weithredwr Arweiniol (Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen) fod ar wahân. Gallai ailystyried y trefniadau ariannu ar gyfer y Swyddog Cyfrifol alluogi i'r costau cysylltiedig gael eu cynnwys o fewn yr ymrwymadau presennol.</p>		<p>Bydd y broses benodi ar gyfer y Cyfarwyddwr Rhaglen yn cael ei reoli gan y Bwrdd Uchelgais, bydd y Bwrdd yn tynnu rhestr fer ac yn penodi i'r swydd.</p> <p>Mae Cyngor Gwynedd, fel Corff Atebol y Bwrdd Uchelgais, yn arwain ar y broses ar gyfer penodi'r Cyfarwyddwr Rhaglen. Bydd y broses benodi yn unol â pholisi recriwtio Cyngor Gwynedd. Bydd y swydd ddisgrifiad a'r broses benodi yn sicrhau bod y swyddog sy'n ymgymryd â'r rôl yn ddigon uchel ac yn meddu ar ddigon o allu.</p> <p>Bydd gan Gyfarwyddwr Rhaglen y Cynllun Twf llinell adrodd uniongyrchol i'r Bwrdd Uchelgais.</p> <p>Mae'r rolau ar wahân ar hyn o bryd fel yr amlinellir uchod.</p>
4.3.	<p>Rhaid i'r dull gweithredu lleol i gyflawni prosiectau SBCD ystyried y rhyng-ddibyniaethau ar draws y Rhaglen. Yn ogystal, dylid ystyried cynlluniau wrth gefn pe byddai arian y Llywodraeth yn cael ei dynnu'n ôl yn ddiweddarach.</p>		<p>Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cynnwys 14 o brosiectau rhanbarthol a fydd yn cyflawni'r Weledigaeth Twf. Ar y cyd, mae Prosiectau'r Cynllun Twf yn rhai trawsffurfiol, rhyng-gysylltiedig a chyd-ddibynnol. Caiff prif ryng-ddibyniaethau'r prosiectau eu harddangos o fewn y Cynllun Gweithredu.</p>
4.4.	<p>Mae angen adolygu'r Cynllun Gweithredu er mwyn i'r Cyd-bwyllgor flaenoriaethu a chymeradwyo'r gwaith o gyflawni'r prosiectau. Dylai Cynllun Ariannol a Chofrestr Risg Rhaglenni clir gefnogi'r Cynllun Gweithredu cyn ei ail-gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru am gymeradwyaeth. Dylai'r Cynllun Gweithredu ffurfio'r sail ar gyfer monitro cyflawni'r Rhaglen.</p>		<p>Cyflwynodd y Bwrdd Uchelgais y Cynllun Gweithredu Drafft yn ffurfiol i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar 25/03/2019. Ar hyn o bryd rydym yn aros am adborth a chadarnhad ynghylch y camau nesaf ar gyfer cymeradwyaeth.</p> <p>Mae Cynllun Gweithredu'r Cynllun Twf yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwybodaeth fanwl am yr holl brosiectau;</li> <li>• Proffiliau Ariannol pum mlynedd ar gyfer holl brosiectau'r Cynllun Twf;</li> <li>• amlinelliad o gynllun clir ar gyfer y Gofrestr Risg;</li> <li>• Cynllunio a monitro rhaglen y Cynllun Twf</li> </ul>

			Mae Cofrestr Risg Gychwynnol yn ei lle i gefnogi'r Cynllun Gweithredu.
4.5.	<p>Mae angen i'r Cyd-bwyllgor, fel cyfrwng i adfywio'r Rhanbarth, sefydlu ei hunaniaeth ei hun ymhellach yn nhermau egwyddorion gweithredu safonol cyffredinol, gwerthoedd ac ymarfer disgwylidig. Mae'r meysydd allweddol i'w hystyried wedi'u hamlygu o fewn <i>Delivering Good Governance in Local Government Framework 2016</i> CIPFA/SOLACE ar gyfer Partneriaeth o'r fath ac maent yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Archwaeth risg cytunedig y Bartneriaeth</li> <li>• Methodoleg rheoli risg gytunedig;</li> <li>• Sefydlu'r gwerthoedd moesegol a'r fframwaith;</li> <li>• Gweithdrefnau gwrth-dwyll, llygredd a llwgrwobrwyo;</li> <li>• Trefniadau diwydrwydd dyladwy ac atal gwyngalchu arian;</li> <li>• Methodoleg rheoli rhaglenni/prosiectau; a</li> <li>• Chofnod cyffredinol o ddatganiadau buddiant a chynigion o roddion a lletygarwch gan yr holl Swyddogion ac Aelodau.</li> </ul>		<p>Mae'r Bwrdd Uchelgais yn gweithredu'n agored ac mae ei ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn gynhwysfawr. Mae perthynas a synergedd cryf gyda'r Grŵp Cyflawni Busnes.</p> <p>Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi datblygu Gweledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru, ynghyd â nifer o ddogfennau allweddol cyffredinol i'r rhanbarth. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Uchelgais yn gweithio tuag at Benawdau'r Telerau.</p> <p>Bydd y Swyddfa Rhaglen yn cydlynu'r gwaith o ddatblygu Cofrestr Risg Rhaglen Iefel uchel, a fydd yn canolbwyntio ar risgiau strategol ar gyfer y cam cynllunio a datblygu. Gwneir dadansoddiad risg manwl ar gyfer yr holl brosiectau gan Ariannwr y Prosiect fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Broses Model Busnes 5 Achos, gyda Chofrestr Risg yn benodol i brosiectau yn cael ei sefydlu i gynorthwyo gyda rheoli a lliniaru parhaus yr holl risgiau yn ystod y cyfnod o weithredu'r prosiectau. Yn ogystal, bydd y Swyddfa Rhaglen yn cydlynu'r gwaith o grynhoi Cofrestr Risg Prosiectau'r Cynllun Twf.</p>
4.6.	<p>Os yw'r broses ailadroddus yn parhau i achosi tagfa unwaith y bydd sylw wedi'i roi i safonau, yna dylid cysylltu â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru er mwyn ailystyried y broses er mwyn dileu ymdrech anghymesur gan bob parti a sicrhau y canolbwyntir ar y gallu i gyflawni deilliannau ac nid ar safon y dogfennau ysgrifenedig yn unig. Dylid ail-ffurfio'r berthynas rhwng Awdurdodau Lleol unigol, arweinwyr prosiectau, y Swyddfa Ranbarthol a Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru er mwyn sefydlu llinellau cyfathrebu llym. Nid yw'r cyfathrebu hwn yn gyson ar hyn o bryd ac mae'n amlwg yn cyfrannu at y dryswch a'r oedi.</p>		<p>Mae trefniadau yn eu lle gan y Bwrdd Uchelgais ar gyfer llinellau cyfathrebu clir.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Bwrdd Uchelgais yn cyfarfod bob mis ac mae cynrychiolwyr yr holl bartneriaid o gwmpas y bwrdd.</li> <li>• Hefyd, mae'r Grŵp Swyddogion Gweithredol yn cyfarfod bob mis - mae holl arweinwyr y prosiectau yn ffurfio rhan o'r grŵp hwn.</li> <li>• Mae cyfarfodydd bob pythefnos wedi'u rhaglennu rhwng cynrychiolwyr y Bwrdd Uchelgais a swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.</li> </ul>
4.7.	<p>Dylai'r Bwrdd Rhaglen, y Bwrdd Strategaeth Economaidd a'r Cyd-bwyllgor dderbyn sicrwydd ysgrifenedig (ar ffurf i'w chytuno arni) bod pob achos busnes a gyflwynir am gymeradwyaeth wedi bod yn destun y gwiriadau a'r broses angenrheidiol fel y diffinnir o fewn y JCA, yn cynnwys</p>		<p>Hyd yma, mae'r broses o gyflwyno a derbyn adborth am yr Achosion Busnes Amlinellol wedi bod yn effeithiol, gyda'r Bwrdd Uchelgais yn ymateb yn amserol i'r adborth a'r materion a godir gan Swyddogion y Llywodraeth. Byddwn yn cynnig defnyddio proses debyg wrth gyflwyno'r Model Busnes Pum Achos.</p>

	cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Lleol Arweiniol. Dylai hyn sicrhau bod yr holl sylwadau gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi derbyn sylw a bod y pryderon a amlygwyd gan y Bwrdd Strategaeth Economaidd wedi'u hystyried yn llawn. Dylai bod trywydd tystiolaeth er mwyn sicrhau bod pob parti'n cael ei ddal i gyfrif.		Caiff yr holl Achosion Busnes eu cyflwyno i'r Grŵp Swyddogion Gweithredol, y Grŵp Cyflawni Busnes ac yna'r Bwrdd Uchelgais am her cyn cymeradwyaeth. Bydd trywydd tystiolaeth yn ffurfio rhan o gofnodion cyfarfod.  Caiff sylwadau gan y ddwy Lywodraeth sylw ac fe'u hystyrir yn llawn.
4.8.	Dylai'r Swyddfa Ranbarthol, yn rhinwedd ei rôl fel Tîm Cyflawni SBCD, ymgymryd â gwiriadau manwl cyn cychwyn y broses ailadroddus neu gyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen a'r Bwrdd Strategaeth Economaidd, i sicrhau y cydymffurfir ag egwyddorion/gwerthoedd gweithredu safonol a darparu trosolwg o ddeilliannau'r gwiriadau hyn, er mwyn darparu sicrwydd annibynnol i'r Bwrdd Rhaglen a'r Cyd-bwyllgor.		Caiff pob adroddiad i'r Bwrdd Uchelgais ei drafod a'i glirio gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol. Wedi'r Grŵp Swyddogion Gweithredol, caiff adroddiadau eu cwblhau gan y Swyddfa Rhaglen, a'u cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais.
4.9.	Mae angen ailystyried aelodaeth a chylch gwaith y Bwrdd Rhaglen a'r Bwrdd Strategaeth Economaidd: a) Rhaid i'r Bwrdd Rhaglen ymgymryd â dadansoddiad manwl o hyfywedd ariannol, y gallu i gyflawni a'r risgiau i'r prosiect. Dylai bod gan y Bwrdd Rhaglen wybodaeth fanwl am yr achosion busnes a'r adborth gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod achosion busnes o'r safon a'r ansawdd i gael eu cyflwyno er cymeradwyaeth i'r Cyd-bwyllgor. Mae'r aelodaeth gyfredol yn cynnwys Prif Weithredwyr y pedwar Awdurdod Lleol. Dylid ystyried y lefel fwyaf addas o Reolaeth i ymrwymo i'r Bwrdd Rhaglen (Cyfarwyddwr o bosib neu Bennaeth Gwasanaeth priodol) a dylid ystyried bod swyddogion arweiniol y prosiectau yn ymddangos i gyflwyno'r achos. b) Mae angen i aelodaeth y Bwrdd Strategaeth Economaidd gael ei symleiddio er mwyn galluogi swyddogaeth arfarnu sy'n gweithredu'n dda ac sy'n rhoi ystyriaeth fasnachol, sy'n canolbwyntio ar adnabod cyfleoedd pellach i'r Rhanbarth a denu mewnfuddsoddiad. Mae'r aelodaeth gyfredol yn cynnwys Arweinyddion y pedwar Awdurdod Lleol, sy'n ymddangos		Bydd y Bwrdd Uchelgais yn derbyn gwybodaeth fanwl am yr achosion busnes ac unrhyw adborth gan y ddwy Lywodraeth. Mae aelodaeth y Bwrdd Uchelgais a'r Grŵp Swyddogion Gweithredol ar wahân yn llwyr: <ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae aelodaeth y Bwrdd Uchelgais yn cynnwys y chwe Arweinydd, gyda chwe ymgynghorydd o AB/AU ac is-grwpiau.</li> <li>- Mae aelodaeth y Grŵp Swyddogion Gweithredol yn cynnwys cynrychiolwyr eraill o'r holl sefydliadau partner.</li> <li>- Mae aelodaeth y Bwrdd Cyflawni Busnes yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau economi twf a sylfaen ledled y rhanbarth.</li> </ul>



	<p>yn ddiangen o ystyried adroddiad y Bwrdd Strategaeth Economaidd i'r Cydbwyllgor. Dylid ystyried aelodaeth y Bwrdd Strategaeth Economaidd. Mae cyfle i'r Bwrdd Strategaeth Economaidd roi hyder i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, rhywbeth sy'n brin ar hyn o bryd o amgylch yr achos masnachol; gellid ystyried cynnwys adroddiad cryno gan y Bwrdd Strategaeth Economaidd wrth gyflwyno'r Achos Busnes Llawn.</p>		
--	--	--	--

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Dim ar hyn o bryd.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Dim ar hyn o bryd.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim ar hyn o bryd.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim wedi'u hadnabod.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Mae ymgynghoriad wedi'i gynnal gyda'r Grŵp Swyddogion Gweithredol.

**ATODIADAU:**

**Atodiad 1** Adolygiad Annibynnol Bargen Ddinesig Bae Abertawe

**Atodiad 2** Adolygiad Mewnol o Drefniadau Llywodraethu Bargen Ddinesig Bae Abertawe (fersiwn Saesneg yn unig)

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

“Mae’n briodol adlewyrchu ar y gwersi ac argymhellion sydd yn deillio o adolygiad prosiect Bae Abertawe. Mae sefydlu trefn llywodraethu briodol ac effeithiol ar gyfer prosiect o faint a natur y Cynllun a’r Weledigaeth Twf yn anorfod yn gymhleth a heriol i unrhyw bartneriaeth. Crëi’r angen i sefydlu trefniadau sydd yn hyrwyddo cyflawni’r amcanion ond hefyd cynnal y bartneriaeth, rheoli risgiau a sicrhau priodoldeb. Felly, rwy’n croesawu

y cyfle sydd yn deillio o'r adroddiad i adlewyrchu ar y cynnwys ar gyfer datblygu ein fframwaith llywodraethu yma."

**ii. Pennaeth Cyllid - Corff Atebol:**

"Mae adolygiadau o Fargen Dinesig Bae Abertawe yn ddogfennau cyhoeddus defnyddiol, er hynny nid yw'r argymhellion wedi'u derbyn eto gan Gyd-Bwyllgor Bae Abertawe. Bydd Cyd-Bwyllgor Bae Abertawe yn adolygu y materion ymhellach cyn gweithredu. Felly byddai'n ddoeth i'r Bwrdd Uchelgais roi ystyriaeth bellach i rai o'r materion wrth iddynt ddatblygu yn bellach ym Mae Abertawe. Mae'r adolygiad annibynnol yn un lefel uchel wedi fesur, tra bod yr adroddiad mewnol mewn mwy o fanylder ac yn benodol i faterion rhanbarthol ym Mae Abertawe; nid yw rhai o'r materion wedi'u cytuno yno eto.

Mae rhai o'r argymhellion yn darparu 'awgrymiadau' defnyddiol, er enghraifft casgliad 4.3 lle bydd angen i'r Bwrdd Uchelgais ystyried sut i ymdrin a'r sefyllfa petai'r Llywodraeth yn tynnu arian yn ôl (a sut caiff cynnyrch cyfraddau a grantiau ei rannu). Mae eraill, fel casgliad 4.1, ynghylch dosbarthu swyddogaethau yn dal heb eu datrys ym Mae Abertawe ac mae angen dadansoddiad pellach o gryfderau a gwendidau'r opsiynau gwahanol. Yn yr achosion hyn, gall fod yn gynamserol i'r Bwrdd Uchelgais osod statws RAG yn ei herbyn."

## **Adolygiad Annibynnol o Fargen Ddinesig Bae Abertawe**

PC828D002 v1.0

26 Chwefror 2019

## Crynodeb Gweithredol

### Cyflwyniad

Yn mis Ionawr 2019, cafodd Actica Consulting Ltd ei gomisiynu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) i gynnal Adolygiad cyflym, yn cael ei arwain yn annibynnol, o'r trefniadau ar gyfer cyflawni Bargen Ddinesig Bae Abertawe<sup>1</sup> sy'n werth £1.3 biliwn. Pwrpas yr Adolygiad oedd darparu asesiad i Weinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o'r gallu i gyflawni'r Fargen.

### Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn ysgogydd pwysig iawn i economi Cymru a'r DU. Mae gan y rhanbarth ganolfannau trefol cryf sy'n cael eu hategu gan dirwedd wledig ehangach ac ôl troed arfordirol sylweddol sydd wedi creu proffil economaidd amrywiol â nifer o gyfleoedd a heriau.

Nod y Fargen Ddinesig yw darparu ffyrdd newydd o weithio ac adnoddau i'r rhanbarth a'i bartneriaid i'w galluogi i sicrhau twf economaidd sylweddol ym mhob rhan o Ddinas-ranbarth Bae Abertawe. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i fuddsoddi ar y cyd, yn amodol ar gyflwyno a chymeradwyo achosion busnes llawn ar gyfer yr 11 prosiect sy'n rhan o'r Fargen. Mae'r buddsoddiad hwn hefyd yn amodol ar gytundeb ar drefniadau'r Llywodraeth ar gyfer y Fargen i gefnogi ac adeiladu ymhellach ar gryfderau'r Rhanbarth, sy'n cynnwys iechyd, ynni a gweithgynhyrchu: yn seiliedig ar seilwaith digidol o'r radd flaenaf, prifysgolion llwyddiannus a byrddau iechyd arloesol. Roedd Penawdau Telerau'r Fargen – a lofnodwyd ar 20 Mawrth 2017 gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phob un o'r 4 Awdurdod Lleol Rhanbarthol – yn ymrwmo'r Llywodraethau i ariannu'r Fargen ar y cyd, â chyfanswm o £241 miliwn (£125.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru a £115.6 miliwn gan Lywodraeth y DU) dros gyfnod o 15 mlynedd er mwyn sicrhau 9,000 o swyddi newydd a rhoi hwb o £1.8 biliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros. Bydd yr Awdurdod Lleol a phartneriaid lleol o'r sector preifat a chyhoeddus hefyd yn cyfrannu cyllid. Gobeithir y bydd cyfanswm y cyllid o bob ffynhonnell yn ystod y cyfnod oddeutu £1.3 biliwn.

### Canfyddiadau'r Tîm Adolygu

Mae'r Tîm Adolygu yn ffyddiog bod y ddwy Lywodraeth wedi ymrwmo i lwyddiant y Fargen Ddinesig. Gwelwn hefyd fod Partneriaid Rhanbarthol yn buddsoddi er mwyn darparu portffolio o raglenni sy'n gydnaws â meddylfryd canlyniadau Penawdau'r Telerau. Rydym yn argyhoeddedig y bydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn cael effaith gadarnhaol ar y rhanbarth. Mewn portffolio iach, gwelwn y bydd rhaglenni a phrosiectau'n esblygu, ac mewn rhai achosion yn newid yn sylweddol, wrth i amgylchiadau newid. Bydd rhai'n llwyddo ac eraill yn methu. Wrth i sylw gael ei roi i faterion yn ymwneud ag arbenigedd a rheolaeth annibynnol awdurdodol credwn y bydd y berthynas rhwng y partïon yn aeddfedu, gan arwain at fwy o gydweithredu a phroses fwy slic sy'n canolbwyntio mwy ar gyflawni canlyniadau yn gyflym. Mae'n bwysig iawn bod cyllid yn cael ei ymrwmo yn y tymor byr: i roi hyder i bob parti ac er mwyn sicrhau bod modd rheoli'r risg ariannol i'r Awdurdodau Lleol o hyd. Yn y tymor hwy, bydd y portffolio'n cryfhau wrth i'r cyfleoedd sydd ar gael i'r Fargen Ddinesig gael eu harchwilio ymhellach.

Mae'r adroddiad yn gwneud 7 argymhelliad er mwyn gwella'r gallu i gyflawni canlyniadau'r Fargen ac maent i'w gweld yn y tabl isod.

<sup>1</sup> Dyfarniad Contract C299/2018/2019 dyddiedig 10 Ionawr 2019: Contract i gyhwyn ar 14 Ionawr 2019.

Rhif	Argymhelliad	Faint o frys
1	Dylid annog craffu ymlaen llaw, ond mae cyswllt wyneb yn wyneb uniongyrchol a rheolaidd rhwng y rhai sy'n ysgrifennu'r Achosion Busnes a'r rhai sy'n gwneud sylwadau arnynt ac yn cynghori'r rhai a fydd yn eu cymeradwyo yn hanfodol.	Brys erbyn diwedd mis Mawrth 2019
2	Dylai'r Swyddfa Ranbarthol gael ei dynodi'n Swyddfa Rheoli Portffolio, gan wella eu sgiliau gydag arbenigwyr Rheoli Portffolio/Rhaglenni/Prosiectau (P3M) profiadol.	Pwysig erbyn diwedd mis Mehefin 2019
3	<b>Argymhelliad 3</b> Dylai Tîm y Fargen Ddinesig (â chymorth Canolfan Sicrwydd Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau yn ôl y galw) sefydlu Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP) ar gyfer y Portffolio i nodi'r arferion gorau. Dylai pob parti roi ystyriaeth benodol i broses Adolygiad Gateway™ Swyddfa Masnach y Llywodraeth fel rhan allweddol o'r cynllun hwnnw.	Pwysig erbyn diwedd mis Mawrth 2019
4	Dan gadeiryddiaeth y Cyd-bwyllgor Craffu dylai pob bwrdd ym Margen Ddinesig Bae Abertawe ystyried ei gyloch gorchwyl a'i ddulliau gweithio er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio fel y bwriadwyd iddynt wneud. Wrth wneud hynny dylent ystyried yr adolygiad hwn a chanlyniad yr archwiliadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd.	Pwysig erbyn diwedd mis Mawrth 2019
5	Dylid penodi Cyfarwyddwr Portffolio cyn Mai 2019 er mwyn sicrhau dilyniant i arweinyddiaeth Bargaen Ddinesig Bae Abertawe a sicrhau bod y Byrddau'n cael cyngor awdurdodol annibynnol.	Brys erbyn diwedd mis Ebrill 2019
6	Dylai Bargaen Ddinesig Bae Abertawe gael ei rheoli fel Portffolio, ac nid fel prosiectau digyfnwid wedi'u pennu ymlaen llaw.	Pwysig erbyn diwedd mis Mehefin 2019
7	Ar gyfer Yr Egin a Glannau Abertawe, y ddau achos busnes sy'n agos at gael eu cymeradwyo'n derfynol, dylai uwch swyddogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol geisio dod i gasgliad yn fuan er mwyn sicrhau bod cyllid yn gallu llifo yn ôl yr angen.	Ar unwaith

## Derbynnydd

	Enw	Dyddiad
Paratowyd gan	Actica Consulting	24/02/2019
Anfonwyd i	Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru	26/02/2019

---

## Rhestr Cynnwys

<b>Crynodeb Gweithredol</b>	<b>i</b>
<b>Derbynnnydd</b>	<b>iii</b>
<b>1 Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
1.1 Cwmpas yr Adolygiad	1
1.2 Methodoleg a Dull Gweithredu	1
1.3 Ystyriaethau	2
<b>2 Cefndir yr Adolygiad hwn</b>	<b>3</b>
2.1 Bargaen Dinas-ranbarth Bae Abertawe	3
2.2 Llinell Amser	3
<b>3 Arsylwadau, Dadansoddiad, Prif Ganfyddiadau ac Argymhellion yr Adolygiad</b>	<b>5</b>
3.1 Cyflwyniad	5
3.2 Cynnydd	5
3.3 Y Broses Cymeradwyo Prosiectau – Llywodraethu a Sicrwydd	6
3.4 Llywodraethu Bargaen Ddinesig Bae Abertawe	9
3.5 Achosion Busnes Bargaen Ddinesig Bae Abertawe	11
3.6 Y Gallu i Gyflawni Rhaglen Bae Abertawe yn y Dyfodol	12
3.7 Y Ffordd Ymlaen	13
<b>A Hyder yn y Gallu i Gyflawni Canlyniadau Arfaethedig Dinas-ranbarth Bae Abertawe</b>	<b>14</b>

GADAWYD YN WAG YN FWRIADOL



---

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cwmpas yr Adolygiad

1.1.1 Ym mis Ionawr 2019, cafodd Actica Consulting Ltd ei gomisiynu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gynnal Adolygiad cyflym gan y Llywodraeth, yn cael ei arwain yn annibynnol, o'r trefniadau ar gyfer cyflawni Bargen Ddinesig Bae Abertawe sy'n werth £1.3 biliwn. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- a. Cysoni'r prosiectau sy'n rhan o'r Fargen Ddinesig ag amcanion strategol cyffredinol y Fargen, er mwyn sicrhau bod modd gwireddu'r buddion.
- b. Y risgiau cyffredinol sy'n gysylltiedig â'r Fargen Ddinesig, gan gynnwys priodoldeb y prosiectau sy'n rhan ohoni a'r gallu i'w cyflawni, gan ganolbwyntio'n fwyaf arbennig ar y rhai hynny sydd wedi cychwyn eu hoes gyflawni fel cydran gyntaf y prosiectau.
- c. Y rhyngweithio rhwng strwythurau llywodraethu'r Cydbwyllgor a'r Fargen Ddinesig a'r strwythurau llywodraethu rhanbarthol er mwyn gwneud argymhellion yn ymwneud â darparu sicrwydd cadarn.
- d. Yr arferion diwydrwydd dyladwy sy'n cael eu gweithredu ar y gydran gyntaf o brosiectau ac a yw'r rhain wedi cael y lefel briodol o sicrwydd ariannol.

1.1.2 Roedd yr Adolygiad i fod i ddarparu adroddiad ar y cyd i'r ddwy Lywodraeth cyn pen chwe wythnos waith, gan gydnabod cydbwysedd rhwng brys a bod yn gynhwysfawr.

1.1.3 Gofynnwyd i'r Tîm Adolygu wneud unrhyw argymhellion a fyddai'n gwella'r gallu i gyflawni canlyniadau'r Fargen.

1.1.4 Nodwyd y dylai'r Adolygiad ddarparu argymhellion penodol i'w gweithredu, ond y byddai pob penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Gweinidogion neu'r Cyd-bwyllgor fel y bo'n briodol.

1.1.5 Yn olaf, hysbyswyd y Tîm Adolygu nad oedd datblygu'r Achos Busnes, argymell unrhyw Achos Busnes Achos unigol ar gyfer rhyddhau cyllid nac ystyried prosiectau amgen yn rhan o gwmpas yr Adolygiad.

## 1.2 Methodoleg a Dull Gweithredu

1.2.1 Mabwysiadodd y Tîm Adolygu ddull gweithredu tri cham yn seiliedig ar dechnegau adolygiad gan gymheiriad sefydledig, annibynnol, y profwyd eu bod yn gweithio, yn cynnwys camau Darganfod, Dadansoddi ac Allbwn.

1.2.2 Darganfod: Cyfnod o ddysgu ac ymgysylltu yn cynnwys cyfarfod cychwynnol, darllen dogfennau rhaglenni ymlaen llaw a Chyfweliadau gyda Rhanddeiliaid.

1.2.3 Dadansoddi: Cyfnod o fyfyrion ar ganfyddiadau'r cam Darganfod, gan groesgyfeirio tystiolaeth y cyfweliadau ag asesiad trylwyr o'r prosesau a'r gweithdrefnau a gofnodwyd i sicrhau nad oes rhagfarn neu ddiffyg dealltwriaeth. Roedd y dadansoddiad hwn hefyd i fod i fyfyrion ar y broses ymarferol o gyflawni canlyniadau'r rhaglen a'r dulliau llywodraethu.

- 
- 1.2.4 Allbwn: Dod â'r canfyddiadau a'r argymhellion at ei gilydd mewn adroddiad yn seiliedig ar y prif gwestiynau a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl, a chyhoeddi'r adroddiad terfynol ar lefel Weinidogol.
- 1.2.5 Mae'n bwysig nodi bod yr adroddiad terfynol yn giplun seiliedig ar dystiolaeth o statws y rhaglenni ar adeg yr adolygiad.

### **1.3 Ystyriaethau**

- 1.3.1 Mae angen deall ac ystyried casgliadau ac argymhellion yr Adolygiad yng nghyd-destun ei gwmpas a'i fethodoleg gyfyngedig a'r ffaith nad oedd llawer o amser i sicrhau diwydrwydd dyladwy. Mae ei Argymhellion yn cael eu graddio ar sail 'Ar Unwaith' (gwneud nawr), 'Brys' (gwneud erbyn...), a 'Pwysig' (gwneud erbyn...). Er mwyn sicrhau ffocws pendant rydym wedi cyfyngu ar nifer yr argymhellion. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o welliannau cynyddrannol a rhai argymhellion ymhlyg y byddem yn disgwyl i'r Cyfarwyddwr Portffolio a thîm â phrofiad priodol eu rhoi ar waith fel rhan o'r busnes arferol.
- 1.3.2 Hoffai'r Tîm Adolygu ddiolch i'r holl randdeiliaid a ddaeth i gyfweiliad am eu cymorth ac am fod yn agored. Mae hynny wedi cyfrannu tuag at ddealltwriaeth y Tîm Adolygu o'r Rhaglen ac o ganlyniad yr Adolygiad hwn. Diolch yn arbennig i Ysgrifenyddiaeth Swyddfa Ranbarthol Bargaen Ddinesig Bae Abertawe am reoli'r logisteg allweddol ar gyfer yr adolygiad a chydlynu'r broses gyfsweld Ranbarthol.
- 1.3.3 Mae'n bwysig nodi bod yr adroddiad hwn yn edrych ymlaen yn hytrach nag yn ôl ac yn canolbwyntio ar y gwersi a ddysgwyd (ac o ganlyniad y camau y gellid eu cymryd) gan bob parti er mwyn mynd â'r Fargen Ddinesig yn ei blaen. Mae awgrymiadau ar gyfer gwelliant gan Randdeiliaid, yn seiliedig ar eu profiad o'r Fargen Ddinesig yn ddiweddar, wedi bod yn sail i'n hargymhellion.
- 1.3.4 Hoffai'r Tîm Adolygu hefyd bwysleisio mai adolygiad annibynnol a gwrthrychol yw hwn, ac nid archwiliad. Nid yw mewn unrhyw ffordd yn ystyried unrhyw oblygiadau sy'n deillio o'r cyhoeddusrwydd o amgylch y rhaglen Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant a gynhaliwyd yn ddiweddar, sy'n destun archwiliad mewnol gan y Brifysgol a'r Awdurdodau Lleol, ac archwiliad allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## 2 Cefndir yr Adolygiad hwn

### 2.1 Bargen Dinas-ranbarth Bae Abertawe

2.1.1 Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn ysgogydd pwysig iawn i economi Cymru a'r DU. Mae gan y rhanbarth ganolfannau trefol cryf sy'n cael eu hategu gan dirwedd wledig ehangach ac ôl troed arfordirol sylweddol sydd wedi creu proffil economaidd amrywiol â nifer o gyfleoedd a heriau.

2.1.2 Nod y Fargen Ddinesig yw darparu ffyrdd newydd o weithio ac adnoddau i'r rhanbarth a'i bartneriaid i'w galluogi i sicrhau twf economaidd sylweddol ym mhob rhan o Ddinas-ranbarth Bae Abertawe. Mae'n Fargen lle mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fuddsoddi ar y cyd, yn amodol ar gyflwyno a chymeradwyo achosion busnes llawn ar gyfer yr un ar ddeg o brosiectau a nodwyd a chytuno ar drefniadau llywodraethu ar gyfer y fargen. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o £241 miliwn o gyllid gan y ddwy lywodraeth er mwyn ysgogi rhagor o gyllid o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus ar gyfer ymyriadau penodol sy'n ceisio cefnogi a datblygu cryfderau'r rhanbarth, sy'n cynnwys y sectorau iechyd, ynni a gweithgynhyrchu, ac sy'n seiliedig ar seilwaith digidol o'r radd flaenaf, prifysgolion llwyddiannus a byrddau iechyd arloesol. Mae'r Fargen Ddinesig wedi'i strwythuro o gwmpas un ar ddeg o brosiectau sy'n cael eu cynnig, ar sail pedair thema, â buddsoddiad sylweddol yn seilwaith digidol y rhanbarth a'r gweithlu, sgiliau a'r gallu sy'n sail i bob un.

2.1.3 Mae'r Fargen yn gyfle i ddal i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal twf economaidd yn yr ardal drwy: ddatblygu sectorau gwerth uwch a chyfleoedd cyflogaeth gwerth uwch i gyd-fynd â hynny; cynyddu nifer y busnesau yn y sectorau hyn er mwyn ehangu'r sail economaidd; a gwella Gwerth Ychwanegol Gros y rhanbarth o'i gymharu â chyfartaledd y DU.

2.1.4 Yn ogystal â hybu prosiectau a rhaglenni i ysgogi twf economaidd, mae'r Fargen Ddinesig yn ymrwymo arweinwyr lleol a phartneriaid i weithredu arweinyddiaeth effeithiol ar draws y Ddinas-ranbarth. Wrth gytuno ar y fargen hon, mae arweinwyr y pedwar awdurdod lleol yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe wedi cytuno i greu ac wedi sefydlu Bwrdd Strategaeth Economaidd rhanbarthol a Chyd-bwyllgor i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Fargen Ddinesig hon.

2.1.5 Mae partneriaid lleol yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe yn amcangyfrif y bydd y Fargen Ddinesig hon yn arwain at:

- a. Bron i £1.3 biliwn o gyllid ar gyfer ymyriadau i gefnogi twf economaidd;
- b. Ysgogi dros £600 miliwn o fuddsoddiad uniongyrchol gan y sector preifat er mwyn cyflawni ymyriadau;
- c. Taenu'r buddsoddiad ar draws y rhanbarth cyfan er mwyn sicrhau bod pob ardal a phob dinesydd yn cael budd;
- d. Cynnydd cyffredinol i'r economi o dros 9,000 o swyddi uniongyrchol gros;
- e. Cyfraniad o £1.8 biliwn i werth ychwanegol gros y rhanbarth.

### 2.2 Llinell Amser

2.2.1 Cyhoeddodd Bwrdd Dinas-ranbarth Bae Abertawe ei weledigaeth mewn dogfen yn dwyn y teitl 'Arfordir y Rhyngwrdd' ym mis Chwefror 2016. Yn fuan wedyn, ym mis Mawrth 2016,

---

dechreuodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU drafod y posibilrwydd o gael Bargen Ddinesig i'r rhanbarth.

- 2.2.2 Ar 20 Mawrth 2017 llofnodwyd Penawdau'r Telerau ar gyfer Bargen Ddinesig gwerth £1.3 biliwn. Y ddogfen hon oedd sylfaen y Fargen Ddinesig ac roedd yn cadarnhau'r ymrwymiad a wnaethpwyd ar y cyd gan y pedwar awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i sicrhau bod Bargen Ddinesig Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn cael ei gweithredu'n llawn. Roedd hyn yn amodol ar fodloni amodau cyllido a bennwyd gan y Llywodraeth. Roedd Penawdau'r Telerau hefyd yn cyfeirio at gasgliad ehangach o ddogfennau rheoli a llywodraethu, gan osod sylfaen i'r Fargen Ddinesig.
- 2.2.3 Nod y Fargen Ddinesig, yn ystod y 15 mlynedd nesaf, yw rhoi hwb o £1.8 biliwn i'r economi leol. Bydd hyn yn cael ei ategu gan £125.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru, £115.6 miliwn gan Lywodraeth y DU, £396 miliwn gan y pedwar awdurdod lleol a chyrrff sector cyhoeddus eraill yn y rhanbarth ynghyd â £637 miliwn o'r sector preifat.
- 2.2.4 Ym mis Gorffennaf 2018, cymeradwyodd y pedwar awdurdod lleol Gytundeb y Cyd-bwyllgor. Mae'r cytundeb cyfreithiol hwn yn sefydlu'r prif strwythurau llywodraethu megis y Cyd-bwyllgor, y Bwrdd Strategaeth Economaidd a'r Pwyllgor Craffu ac yn ymrwymo'r pedwar awdurdod lleol i gydweithio dros 15 mlynedd y Fargen.
- 2.2.5 Sefydlwyd y Swyddfa Ranbarthol gan ddefnyddio staff wedi'u hadleoli o Gyngor Sir Caerfyrddin i ddarparu ysgrifenyddiaeth. Mae'r Swyddfa hefyd yn darparu'r swyddogaeth hon i brosiectau'r Cyngor Sir nad ydynt yn rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe.
- 2.2.6 Mae'r cyllid a ddarperir gan y Llywodraeth yn amodol ar gytuno ar drefniadau llywodraethu ar gyfer y Fargen a chyflwyno a chymeradwyo achosion busnes llawn mewn cysylltiad â'r un ar ddeg o brosiectau a nodwyd, fel y nodwyd ym Mhenawdau'r Telerau. Nid oes yr un wedi'i gyflwyno'n ffurfiol hyd yn hyn.
- 2.2.7 Ym mis Ionawr 2019, comisiynwyd Adolygiad cyflym ar y cyd gan y ddwy Lywodraeth yn cael ei arwain yn annibynnol, o'r trefniadau ar gyfer cyflawni Bargen Ddinesig Bae Abertawe sy'n werth £1.3 biliwn: canlyniad yr adolygiad sydd yn yr adroddiad hwn.

## **3 Arsyllwadau, Dadansoddiad, Prif Ganfyddiadau ac Argymhellion yr Adolygiad**

### **3.1 Cyflwyniad**

3.1.1 Mae'r adran hon yn crynhoi Prif Arsyllwadau'r Tîm Adolygu yn dilyn cyfweiliadau â rhanddeiliaid, ac yn nodi argymhellion penodol ynglŷn â sut i symud ymlaen â'r rhaglen.

3.1.2 Mae Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn wynebu'r problemau a ganlyn ar hyn o bryd:

- a. Canfyddiad nad yw'r Portffolio wedi gwneud digon o gynnydd ers llofnodi Penawdau'r Telerau ar 20 Mawrth 2017;
- b. Mae digwyddiadau wedi codi amheuaeth ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu ac wedi arwain at bryderon ehangach ynglŷn â sicrwydd a hyder yng ngallu'r Rhanbarth i gyflawni'r canlyniadau a ddisgwylir;
- c. Bydd Awdurdodau Lleol, yng nghyswllt rhaglenni sydd wedi cychwyn yn barod yn gwbl ddidwyll, yn wynebu costau benthyca na chawsant eu rhagweld a mwy o gyfyngiadau ar eu gallu i fenthyca y flwyddyn nesaf os na fydd cyllid gan y ddwy Lywodraeth ar gael yn unol â'r disgwyl.

3.1.3 O ganlyniad, mae'r ddwy Lywodraeth, sy'n parhau â'u hymrwymiad i lwyddiant y Fargen, yn gofyn am argymhellion ymarferol y gellir eu rhoi ar waith yn y tymor byr/canolog.

### **3.2 Cynnydd**

3.2.1 Canfu'r Tîm Adolygu fod rhai'n credu bod cynnydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi bod yn afresymol o araf o'i gymharu â bargeinion dinesig eraill yng Nghymru. Mae rhai wedi mynegi barn bod Penawdau'r Telerau yn anaeddfed o bosibl o gymharu â'r rhai y cytunwyd arnynt yn ddiweddarach; mae eraill wedi dadlau mai dim ond fel fframwaith llac y bwriadwyd hwy. Rydym wedi clywed bod teimladau cymysg yn nhîm rheoli'r Fargen Ddinesig yn y cyfnod cyn llofnodi Penawdau'r Telerau a bod hyn wedi achosi bwlch ar ôl llofnodi a effeithiodd ar y gwaith o lunio Cytundeb y Cyd-bwyllgor. Mae adeiladwaith y fargen hon yn wahanol i fargeinion dinesig cynharach. Mae'n seiliedig ar brosiectau, ac mae angen i bob prosiect gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae'r lefel gymeradwyo ychwanegol hon wedi ychwanegu lefel o ddiwydrwydd dyladwy a galw am sicrwydd, ond mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi cael anhawster i roi'r sicrwydd hwnnw ac, o ganlyniad, mae'r berthynas rhwng y Fargen Ddinesig a'r ddwy Lywodraeth wedi dioddef. Mewn Bargeinion Dinesig diweddarach, yn sicr lle maent yn canolbwyntio ar un ganolfan drefol, gwelwn fod cynnydd cyflymach wedi'i wneud.

3.2.2 Ers i Benawdau'r Telerau gael eu llofnodi gan bob parti ar 20 Mawrth 2017 yn Abertawe, mae'r rhai sy'n rhan o'r Fargen Ddinesig (y pedwar Awdurdod Lleol, y ddau Fwrdd Iechyd a dwy Brifysgol) ynghyd â'r ddwy Lywodraeth, dan Gytundeb y Cyd-bwyllgor, wedi sefydlu trefn Lywodraethu sy'n dderbyniol i bob un ohonynt. Mae hyn yn cynnwys sefydlu'r pwyllgorau Rhanbarthol - Cyd-bwyllgor, Bwrdd Strategaeth Economaidd a Bwrdd Rhaglenni - a phenodi unigolion i swyddi allweddol. Yr un pryd, roedd y partïon ar y lefel isranbarthol yn saernïo ffurf derfynol prosiectau unigol ac yn sicrhau cyfuniad pwrpasol o ffrydiau cyllido amrywiol o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat: pob un yn galw am waith negodi a sicrhau cytundeb cyrff unigol

sydd â'u prosesau cymeradwyo eu hunain. Wrth i'r prosiectau aeddfedu, mae'r Awdurdodau Lleol wedi bod yn rhoi arweiniad ar gyfer datblygu Achos Busnes i bob prosiect sy'n dderbyniol i'r Pwyllgorau Rhanbarthol ac i'r ddwy Lywodraeth.

- 3.2.3 Mae'r Cyd-bwyllgor a'r Bwrdd Strategaeth Economaidd wedi cyfarfod yn ffurfiol bum a thair gwaith yn y drefn honno, ac yn y ddau gyfarfod diwethaf cymeradwywyd tri o'r un ar ddeg o brosiectau. Mae angen i'r ddwy Lywodraeth a'r Awdurdod Lleol arweiniol gytuno ar y prosiectau hyn eto.
- 3.2.4 Efallai fod awydd i weld cynnydd cyflymach, ond mae'r Tîm Adolygu yn credu ei bod yn ddealladwy y byddai pedwar Awdurdod Lleol, yn gweithio gyda dwy Brifysgol a dau Fwrdd Iechyd Lleol yn treulio 17 mis yn sefydlu ac yn staffio strwythur rheoli a strwythur ariannol Bargaen Ddinesig Bae Abertawe.

### **3.3 Y Broses o Gymeradwyo Prosiectau – Llywodraethu a Sicrwydd**

- 3.3.1 Mae'n ymddangos bod y broses o gyflwyno Achosion Busnes yn ffurfiol i'r ddwy Lywodraeth, fel y nodwyd uchod, wedi achosi anhawster i bawb: yn enwedig pan oedd y broses gymeradwyo dan bwysau difrifol oherwydd yr angen canfyddedig i gael cymeradwyaeth ar frys er mwyn rhyddhau cyllid yn gyflym.
- 3.3.2 Mae cyflwyno model Achos Busnes Pum Achos – yn unol â chanllawiau 'Llyfr Gwyrdd' Trysorlys Ei Mawrhydi – i'r ddwy Lywodraeth yn un o'r gofynion sydd ymhlyg yn y Fargen Ddinesig hon. Nid yw'n glir i'r Tîm Adolygu pa bryd y daeth hyn yn glir i'r rhai sy'n rhan o'r Fargen Ddinesig. Er bod yr Awdurdodau Lleol a'r Swyddfa Ranbarthol yn gyfarwydd â pharatoi achosion ar gyfer grantiau Ewropeaidd, arian Loteri a grantiau Llywodraeth Cymru, nid yw'n ymddangos bod cystal dealltwriaeth o ofynion y 'Model Pum Achos'.
- 3.3.3 Cododd pryder ynglŷn â chynnydd achosion busnes ac arweiniodd hyn at benderfyniad gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth. Deallwn fod hyn o gymorth, ond byddem yn dadlau bod arbenigedd a phrofiad yn llawer pwysicach wrth ddrafftio achos priodol sy'n gymesur â chwmpas a risg y prosiect. Cynigiodd y ddwy Lywodraeth hefyd dderbyn copiâu drafft o'r Achosion Busnes i'w cyflwyno i swyddogion yn eu Hadrannau cyn iddynt gael eu cyflwyno'n ffurfiol. Defnyddir y dull hwn o graffu ymlaen llaw gan lawer o Adrannau'r Llywodraeth Ganolog a'r Llywodraethau Datganoledig i sicrhau llwybr esmwyth tuag at gymeradwyo Achos Busnes yn ffurfiol.
- 3.3.4 Nid yw wedi gweithio'n dda yn y sefyllfa hon: roedd diffyg dealltwriaeth o'r broses ar y lefel Ranbarthol ac ar y lefel isranbarthol nad yw'n ymddangos eu bod wedi cael digon o eglurder a thryloywder ynglŷn â'r gweithdrefnau cymeradwyo i'w dilyn rhwng Bargaen Ddinesig Bae Abertawe a'r ddwy Lywodraeth. Anfonwyd rhai achosion busnes ar gyfer craffu ymlaen llaw drwy'r Swyddfa Ranbarthol, ac anfonwyd eraill, heb ddilyn y broses, yn uniongyrchol o'r Awdurdod Lleol. Deallwn fod y ddwy Lywodraeth, ar ôl iddynt dderbyn yr achosion busnes, wedi'u dosbarthu i'r holl Grwpiau neu Adrannau oedd â diddordeb mewn polisi. Cafodd y sylwadau a dderbyniwyd gan y swyddogion Adrannol hynny eu coladu a'u dychwelyd. Gan nad oedd yr ymateb ffurfiol ar y cyflwyniad yn cael ei wneud nes bod pob swyddog wedi ymateb, roedd yn cymryd misoedd weithiau i gyhoeddi'r ymateb wedi'i goladu. Mewn un achos cymerodd yr ymateb dri mis i ddod yn ôl fel matrices drwy e-bost â nifer fawr o sylwadau yn adlewyrchu safbwyntiau unigol nad oedd yn ymddangos eu bod wedi cael eu gosod mewn trefn, eu cydlynu na'u blaenoriaethu. Achosodd hyn rwystredigaeth a diffyg ymddiriedaeth.

- 3.3.5 Mewn Bargeinion Dinesig eraill, mewn rhanbarthau eraill yn y DU, deallwn fod perthynas wyneb yn wyneb gref rhwng y Swyddfa Rheoli Rhaglenni a'r timau prosiectau perthnasol o'r Rhanbarth ar y naill law a Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU, a bod cyfarfodydd â ffocws penodol i graffu ymlaen llaw ar achosion busnes ('Gweithgorau Achosion Busnes') yn digwydd yn rheolaidd. Nid yw hyn wedi bod yn digwydd ym Margen Ddinesig Bae Abertawe. Cynhaliwyd ychydig o gyfarfodydd mawr rhwng partïon yn yr hydref ond nid yw'n ymddangos eu bod wedi symud y prosiectau yn eu blaenau, ac roedd y Rhanbarth a thimau prosiectau'n gorfod dibynnu ar sylwadau mewn e-bost gan feysydd polisi unigol. Roedd rhai o'r sylwadau'n debyg i "byddai o fudd i'r achos pe bai cysylltiad yn cael ei wneud â pholisi XYZ". Nid oedd y rhain yn sylfaenol i gryfder yr Achos Busnes: y cyfan roeddent yn ei wneud oedd dylanwadu ar ansawdd y testun yn hytrach na rhoi sylw i faterion meintiol Cost, Amser, Perfformiad a Risg rhaglenni/prosiectau. Gwelodd y Tîm Adolygu hefyd bod sylw'n cael ei roi i brif destun yr achos busnes, ond nid cymaint i'r atodiadau allweddol: er enghraifft, ni welodd y Tîm Adolygu unrhyw dystiolaeth bod neb wedi tynnu sylw at atodiad pwysig ar Reoli Buddion a oedd ar goll. O ganlyniad, mae Achosion Busnes Llawn 'terfynol' ond anghyflawn wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor a'u cyflwyno'n ffurfiol i'r awdurdod Cymeradwyo. Nid yw hyn yn ymarfer da, ac mae wedi arwain at sefyllfa lle nad yw Achosion Busnes yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol bwysig am fuddion, risg ac yn y blaen. Byddem yn disgwyl i wybodaeth o'r fath fod yn sail i agweddau meintiol yr Achos Busnes Llawn.
- 3.3.6 Er hyn, mae'n bwysig nodi bod yna hefyd rai pwyntiau perthnasol ac adeiladol iawn yn ymwneud â thriniaeth ariannol y dylai Bargaen Ddinesig Bae Abertawe fod wedi'u nodi a rhoi sylw iddynt yn gynharach yn y broses arferol o ddatblygu achos busnes. Dylai'r prosiectau fod wedi cael eu herio gan y Swyddfa Ranbarthol ond ni ddigwyddodd hynny. Credwn fod hyn yn ein harwain at wraidd y broblem go iawn – sef natur y Swyddfa Ranbarthol.
- 3.3.7 Mae llawer yn credu mai Swyddfa Rheoli Rhaglenni yw'r Swyddfa Ranbarthol. Mae hynny'n anghywir, oherwydd Ysgrifenyddiaeth yn bennaf yw hi. Nid yw'n cynnwys arbenigwyr Rheoli Portffolio/Rhaglenni/Prosiectau (P3M). Mae hon yn broblem fawr oherwydd ni all weithredu fel canolfan ragoriaeth â chyfleoedd i ddysgu gwersi ar gyfer y portffolio cyfan, na darparu cymorth a sicrwydd Rheoli Portffolio/Rhaglenni (heb gymorth allanol), na rhoi briff annibynnol i Fyrddau Bargeinion Dinesig. O ganlyniad, nid yw'r Swyddfa Ranbarthol yn gallu cyflawni'r rôl y mae llawer yn tybio a roddwyd iddi. Mae cyfuniad o'i hanallu i ddarparu haen ranbarthol o gefnogaeth, cyngor a sicrwydd ynghyd â dryswch ynglŷn â'i rôl yn ganolog i lawer o'r anniddigrwydd rydym wedi'i glywed ynglŷn â chynnydd. Mae angen haen awdurdodol o sicrwydd a chefnogaeth i'r rhaglenni unigol a hefyd i'r byrddau gwneud penderfyniadau. Credwn fod swyddfa Rheoli Portffolio/Rhaglenni/Prosiectau wedi'i had-drefnu ag arweinyddiaeth broffesiynol ac annibynnol gref yn allweddol. Byddai angen i'r sefydliad ranbarthol gael rhagor o arian i gynnig gwasanaethau Swyddfa Rheoli Rhaglenni llawn. Wrth i'r hyder gynyddu bydd y ddwy lywodraeth yn gweld mwy o'r sicrwydd y mae arnynt ei angen ac ni fydd angen iddynt ymwneud cymaint â'r manylion.
- 3.3.8 Roedd disgwyliadau'r partïon ynglŷn â'r gweithdrefnau craffu ymlaen llaw a'r gweithdrefnau craffu go iawn yn wahanol hefyd. Roedd hyn, ynghyd â phroses ddi-drefn, yn arwain at gamddealltwriaeth, oedi, rhwystredigaeth a gweld bai. Mae craffu ymlaen llaw yn ymarfer da ond mae angen i'r broses gael ei rheoli'n ddeallus, ac mae angen iddi fod yn dryloyw ac yn gydweithredol.
- 3.3.9 Yn fyr, nid oedd disgwyliadau'r rhai a oedd yn darparu'r achosion busnes ar gyfer craffu ymlaen llaw yn gyson â disgwyliadau'r rhai a oedd yn eu derbyn. Nid oedd yr ymdrech i ddatrys y

broblem diffyg arbenigedd a phrofiad ar y lefel Ranbarthol drwy ddsbarthu'r achosion busnes ar gyfer sylwadau gan y ddwy Lywodraeth yn effeithiol ac mae'n debyg na allai fod yn effeithiol gan nad oedd Swyddfa Rheoli Rhaglenni Ranbarthol.

- 3.3.10 Mae angen i aelodau Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r ddwy Lywodraeth weithio gyda'i gilydd er mwyn gwella'r broses Gymeradwyo ac yn fwyaf arbennig gwerth ychwanegol gweithgareddau craffu ymlaen llaw. Mae'r Tîm Adolygu yn deall bod cyfrifoldeb am Fargeinion Dinesig yn cael ei drosglwyddo i'r Adran Economi, Sgiliau & Adnoddau Naturiol dan y Dirprwy Gyfarwyddwr yn Llywodraeth Cymru. Mae'r Tîm Adolygu yn cefnogi'r newid gan fod hyn yn symud y cyfrifoldeb o faes polisi i faes cyflawni. Er hyn, rydym yn bryderus y bydd trosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn, a'r ad-drefnu cysylltiedig, yn tynnu sylw oddi wrth y gwaith o gymeradwyo'r ddau Achos Busnes sy'n agos iawn at gael eu cwblhau.
- 3.3.11 Mae'r awydd i wario 'cyllid yn ystod y flwyddyn' gan y ddwy Lywodraeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, ynghyd â'r angen i sicrhau bod cyllid Ewropeaidd, lle mae amser yn hollbwysig, yn cael ei 'gloi' mewn prosiectau unigol wedi rhoi llawer iawn o bwysau ar y prosiectau a'r cyrrff cymeradwyo i weithio'n gyflym. Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r pwyllgorau Rhanbarthol 'y naill ar ôl y llall' er mwyn symud yn gyflym a darparwyd achosion busnes anghyflawn i'r byrddau heb eu cylchredeg ymlaen llaw. Ni roddwyd digon o amser i Fyrddau ddarllen a deall y cynigion yn iawn ac ni ddarparwyd cyngor arbenigol annibynnol ynglŷn â'r achosion hynny. O ganlyniad, nid oeddent mewn sefyllfa i ddarparu'r math o her y byddem yn ei disgwyl fel arfer. Rydym hefyd yn bryderus bod lefel graffu fanwl (ond hyd braich) gan y ddwy Lywodraeth wedi rhoi negeseuon anghywir i Fargen Ddinesig Bae Abertawe, gan roi rhyddid i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo achosion busnes yn gyflym ar y ddealltwriaeth bod y ddwy Lywodraeth yn fodlon ar y cyfan â hwy.

**Argymhelliad 1:** Dylid annog craffu ymlaen llaw, ond mae cyswllt wyneb yn wyneb uniongyrchol a rheolaidd rhwng y rhai sy'n ysgrifennu'r Achosion Busnes a'r rhai sy'n gwneud sylwadau arnynt ac yn cynghori'r rhai a fydd yn eu cymeradwyo yn hanfodol. (BRYs – erbyn diwedd mis Mawrth 2019)

**Argymhelliad 2:** Dylai'r Swyddfa Ranbarthol gael ei dynodi'n Swyddfa Rheoli Portffolio, gan wella eu sgiliau gydag arbenigwyr Rheoli Portffolio/Rhaglenni/Prosiectau (P3M) profiadol (P3M). (PWYSIG erbyn diwedd mis Mehefin 2019)

- 3.3.12 Ni welodd y Tîm Adolygu unrhyw dystiolaeth bod gan y Fargen Ddinesig Gynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP). Byddai hyn yn ymarfer da. Byddai cymhwyso proses Adolygiad Gateway™ Swyddfa Masnach y Llywodraeth yn ymarfer da hefyd. Mae'r broses hon sy'n cael ei chydabod yn rhyngwladol yn bodoli er mwyn rhoi sicrwydd allanol i Lywodraethau ac Adrannau, ac mae wedi cael ei defnyddio'n llwyddiannus gan Lywodraeth Cymru ar ei phrosiectau seilwaith mawr ei hun a rhai Awdurdodau Lleol (e.e. Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, Ysgolion yr 21ain Ganrif) drwy Ganolfan Sicrwydd Llywodraeth Cymru. Er hyn, ni allai'r Tîm Adolygu weld unrhyw dystiolaeth bod y broses wedi cael ei defnyddio yn unrhyw ran o bortffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe hyd yn hyn. Gall Canolfan Sicrwydd Llywodraeth



Cymru drefnu adolygiadau, yn ddelfrydol yn unol â Chynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig, ond os oes angen, heb lawer iawn o rybudd. Ymhlith pethau eraill, byddai hyn yn rhoi Asesiad Hyder Cyflawni annibynnol a gwrthrychol i'r ddwy Lywodraeth ar gyfer pob rhaglen/prosiect sy'n rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe, neu yn wir ar gyfer portffolio cyfan y Fargen. Mae'r dull gweithredu yn werthfawr ar adegau Cymeradwyo pwysig (megis Achos Busnes Amlinellol, Achos Busnes Llawn) ond mae hefyd o fudd sylweddol pan mae'n cael ei ddefnyddio drwy gydol Achos Busnes. Mae Adolygiadau gan Gymheiriaid hefyd yn cynnig cyfle i'r rhai sy'n ymwneud â Bargeinion Dinesig eraill sydd ar y blaen mewn rhannau eraill o'r DU rannu eu gwybodaeth. Byddem yn tybio mai cyfrifoldeb y Swyddfa Ranbarthol fyddai hyn.

**Argymhelliad 3** Dylai Tîm y Fargen Ddinesig (â chymorth Canolfan Sicrwydd Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau yn ôl y galw) sefydlu Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP) ar gyfer y Portffolio i nodi'r arferion gorau. Dylai pob parti roi ystyriaeth benodol i broses Adolygiad Gateway™ Swyddfa Masnach y Llywodraeth fel rhan allweddol o'r cynllun hwnnw. (PWYSIG – erbyn diwedd mis Mawrth 2019)

### 3.4 Llywodraethu Bargen Ddinesig Abertawe

- 3.4.1 Mae'r Tîm Adolygu yn nodi bod pob parti wedi mynd i'r afael â'r pryderon yn ymwneud â llywodraethu yn ddiweddar yng nghyswllt y rhaglen Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant. Mae'r mater hwn wedi cael blaenoriaeth uchel gan y Rhanbarth a ddaeth â'r Cyd-bwyllgor Craffu at ei gilydd ym mis Rhagfyr 2018 ac sydd wedi penodi tîm archwilio rhanbarthol mewnol yn cynnwys aelodau o'r pedwar Awdurdod Lleol i ymchwilio i'r mater. Mae'r Brifysgol yn cynnal ymchwiliad ac mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi sefydlu ymchwiliad. Rydym yn cydnabod y gall gymryd peth amser i adfer hyder y cyhoedd. Wedi dweud hynny, mae'r Tîm Adolygu yn nodi bod y cyhoeddusrwydd presennol yn ymwneud â gweithredoedd honedig unigolion. Hyd yn hyn nid ydym wedi clywed tystiolaeth bod yr honiadau hyn yn taseilio hanfodion busnes y prosiect penodol hwnnw ac yn sicr, credwn na ddylent danseilio'r gwaith o gyflawni canlyniadau Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn ei chyfanrwydd. Rydym yn awgrymu y dylai gweithredu'r argymhellion rydym yn eu gwneud yn yr adroddiad hwn, ynghyd ag unrhyw ganfyddiadau archwilio, ddarparu sail ar gyfer hyder mewn llywodraethu yn y dyfodol.
- 3.4.2 Mae ffyrdd y pwyllgorau o weithio yn esblygu. Rydym wedi trafod opsiynau gyda'r aelodau ond nid ydym yn teimlo y byddai'n fuddiol ar hyn o bryd i ni eu cyfeirio at ateb – yn enwedig gan nad yw canlyniadau'r ymchwiliadau archwilio wedi'u cyhoeddi eto. Yn ein barn ni, er mwyn cyflawni busnes yn effeithlon, mae pwyllgorau bach yn well na rhai mawr a byddai'n well peidio â dyblygu aelodaeth. Rydym yn bryderus bod lefel yr her yn y Fargen Ddinesig yn isel, ac yn fwyaf arbennig nad oes cymhelliant i aelodau'r Cyd-bwyllgor brofi cynigion ei gilydd mewn ffordd gadarn. Pan mae un pwyllgor yn cynghori un arall dylid cael digon o amser rhwng y pwyllgorau hynny i'r cyngor gael ei ystyried a'i drafod yn ôl y galw. Yn ogystal, mae trywydd archwilio cymeradwyo yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd drwy archwilio cofnodion cyfarfodydd y pwyllgorau cymeradwyo. Efallai y byddai'n symlach ac yn fwy tryloyw i bob Achos Busnes Llawn gael Taflen Gymeradwyo gysylltiedig i'w llofnodi gan y personau awdurdodedig gan nodi'r dyddiad arni.
- 3.4.3 Yn olaf, gan nad oes gan y Bwrdd Strategaeth Economaidd lawer o adnoddau, credwn na ddylai eu hamser yn ystyried materion strategol gael ei lastwreiddio gan yr ystyriaeth fanwl o'r achosion busnes terfynol. Yn hytrach, dylai eu rôl ganolbwyntio, yn unol â'r bwriad gwreiddiol o'r hyn a ddeallwn ni, ar nodi cyfleoedd, a darparu gwybodaeth a chynghor sector preifat.

**Argymhelliad 4:** Dan gadeiryddiaeth y Cyd-bwyllgor Craffu dylai pob bwrdd ym Margen Ddinesig Bae Abertawe ystyried ei gylch gorchwyl a'i ddulliau gweithio er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio fel y bwriadwyd iddynt wneud. Wrth wneud hynny dylent ystyried yr adolygiad hwn a chanlyniad yr archwiliadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd. (PWYSIG – erbyn diwedd mis Mawrth 2019)

- 3.4.4 Yn ein barn ni, bydd penodi Cyfarwyddwr Portffolio annibynnol yn cael ei gefnogi gan Swyddfa Ranbarthol yn well na'r trefniadau presennol i gefnogi prosiectau drwy gyfuniad o gyngor a her briodol, ac yn bwysig iawn, sicrhau bod gan bob aelod o bwyllgor wybodaeth dda. Bydd Prif Weithredwr Sir Gaerfyrddin yn ymddeol yn haf 2019. Mae wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o sefydlu Bargaen Ddinesig Bae Abertawe ac wedi ei chefnogi ers blynnyddoedd. Rydym yn awgrymu felly bod ei ymadawiad ef yn gyfle i benodi Cyfarwyddwr Portffolio ar gyfer Bargaen Ddinesig Bae Abertawe â statws cyfartal â'r pedwar Prif Weithredwr Awdurdod Lleol. Rydym yn awgrymu y dylai'r Cyfarwyddwr Portffolio adrodd i'r Cyd-bwyllgor a bod yn gyfrifol yn ei dro am dîm y Swyddfa Ranbarthol (Swyddfa Rheoli Portffolio yn unol ag Argymhelliad 1 uchod). Byddai angen i 'fanyleb y person' ar gyfer Cyfarwyddwr Portffolio o'r fath gael ei ystyried yn ofalus gan y Cyd-bwyllgor a'r Bwrdd Strategaeth Economaidd. Yn amlwg, byddai arno angen sgiliau Rheoli Portffolio/Rhaglenni/Prosiectau (P3M) cadarn a hanes o gyflawni rhaglenni cyhoeddus-preifat mawr. Byddai angen iddo hefyd gael ei barchu yn yr Awdurdodau Lleol, y Llywodraeth Ganol a'r Sector Preifat fel ei gilydd.

**Argymhelliad 5:** Dylid penodi Cyfarwyddwr Portffolio cyn Mai 2019 er mwyn sicrhau dilyniant i arweinyddiaeth Bargaen Ddinesig Bae Abertawe a sicrhau bod y Byrddau'n cael cyngor awdurdodol annibynnol. (BRYG – erbyn diwedd Ebrill 2019)

- 3.4.5 Mae Bargaen Ddinesig Bae Abertawe yn cael ei gweld gan lawer fel Rhaglen sy'n cynnwys cyfres o brosiectau digyfnewid wedi'u pennu ymlaen llaw â rhai perthnasoedd a dibyniaethau synergyddol o bosibl, sydd gyda'i gilydd yn sicrhau canlyniad (swyddi/gwerth ychwanegol gros). Y perygl â'r farn hon yw ei bod yn bosibl nad prosiectau y cytunwyd arnynt flynyddoedd yn ôl sy'n cynnig y rhagolygon gorau heddiw (neu yfory). Mae perygl i aros yn yr un fan a cholli cyfleoedd newydd. Byddem yn awgrymu y byddai'n well edrych ar Fargaen Ddinesig Bae Abertawe fel portffolio â rhaglenni (a phrosiectau) yn cael eu hadolygu'n gyson a chyllid yn cael ei symud i'r rhai y credir eu bod yn fwyaf tebygol o gyflawni'r canlyniad(au) cytunedig. Yn y senario hon byddem yn disgwyl i rai rhaglenni a phrosiectau unigol gael eu rhoi o'r neilltu wrth i raglenni eraill mwy haeddiannol gael eu nodi a'u blaenoriaethu. Mae hon yn broses iach. Gallai'r Bwrdd Strategaeth Economaidd chwarae rôl allweddol drwy chwilio am brosiectau newydd a'u nodi a chefnogi tîm Bargaen Ddinesig Bae Abertawe i werthuso buddion perthynol. Yn gyffredinol, credwn mai'r dull hwn sy'n cynnig y cyfle gorau i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd. Byddem hefyd yn disgwyl i gystadleuaeth o'r fath sicrhau her gryfach i achosion busnes, a fyddai hefyd yn sicrhau mwy o ddiwydrwydd dyladwy a sicrwydd. Mae Penawdau'r Telerau'n caniatáu'r dull gweithredu hwn ond mae'r cyfle wedi cael ei fychanu.

**Argymhelliad 6:** Dylai Bargaen Ddinesig Bae Abertawe gael ei rheoli fel Portffolio, ac nid fel prosiectau digyfnewid wedi'u pennu ymlaen llaw. (PWYSIG erbyn diwedd mis Mehefin 2019)

### 3.5 Achosion Busnes Bargen Ddinesig Bae Abertawe

3.5.1 Mae dau achos busnes, sef Yr Egin (Clwstwr Digidol Creadigol) a Glannau Abertawe, lle mae'n ymddangos bod y partion yn agos at ddod i gytundeb. Ar ôl edrych yn fanwl iawn ar eu statws, yn ein barn ni maent yn addas i'r diben at ei gilydd, wedi cael eu cymeradwyo gan y Rhanbarth a'u cyflwyno'n ffurfiol i'r ddwy Lywodraeth (er ein bod yn deall eu bod wedi cael eu tynnu'n ôl oherwydd nad ydynt yn gyflawn ac y byddant yn cael eu hailgyflwyno).

3.5.2 Mae ein dealltwriaeth ni o statws presennol y ddau achos busnes hyn i'w weld yn y tabl isod:

EITEM	ACHOS BUSNES LLAWN YR EGIN	ACHOS BUSNES LLAWN GLANNAU ABERTAW
RHIF Y FERSIWN	V9.6	V18
DYDDIAD	3 Awst 2018	28 Tach 18
CYMERADWYO	Adolygiad Bwrdd Strategaeth Economaidd 8 Tach 18 Adolygiad Bwrdd y Rhaglen 22 Tach 18 Adolygiad y Cyd-bwyllgor 22 Tach 18	Adolygiad Bwrdd Strategaeth Economaidd 8 Tach 18 Adolygiad Bwrdd y Rhaglen 22 Tach 18 Adolygiad y Cyd-bwyllgor 22 Tach 18
ACHOS STRATEGOL	Cyflawn	Cyflawn
ACHOS ECONOMAIDD	Cyflawn	Cyflawn
ACHOS MASNACHOL	Cyflawn	Cyflawn
ACHOS ARIANNOL	Cyflawn	Cyflawn
ACHOS RHEOLI	Cyflawn	Cyflawn
GOGWYDD AT OPTIMISTIAETH	10% ond yn ffigwr crwn iawn	10% ond yn ffigwr crwn iawn
RHEOLI RISG	Amcangyfrif o 5x5 ond yn fwy ansoddol na meintiol	Amcangyfrif o 5x5 ond yn fwy ansoddol na meintiol
CYFLAWNRWYDD CYFFREDINOL	Croesgyfeiriadau yn wag Elfennau templed ar goll Dim IAAP	Dim lleoedd gwag amlwg, ond nid yw'n rhoi sylw i bob agwedd ar arferion gorau e.e. IAAP
ATODIADAU PWYSIG AR GOLL	Rhestr Buddion – gwelwyd Drafft	Rhestr Buddion – heb ei gweld

3.5.3 Ar gyfer y ddau achos busnes hyn, y credwn bod cytundeb arnynt yn agos, dylai uwch swyddogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol sydd â'r awdurdod i 'wneud cytundeb' gyfarfod mewn un lleoliad, a gweithio gydag arbenigwyr priodol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion o bwys er mwyn dod i gasgliad yn fuan. Dylai'r cyfarfod hwn gael cadeirydd annibynnol a dylai'r Sefydliad Rhanbarthol gadw cofnodion, gan nodi'r cytundebau, y camau gweithredu y cytunwyd arnynt, pwy sy'n gyfrifol am weithredu ac erbyn pryd. Mae angen bodloni cyfrifoldebau'r Swyddogion Cyfrifyddu i sicrhau rheoleidd-dra ariannol a phriodoldeb masnachol. Fodd bynnag, rydym yn awgrymu y gellid gwneud hyn drwy ddefnydd gofalus a phriodol o Gymeradwyo gyda chafeatau (e.e. dull o ryddhau cyllid yn raddol wrth ddyfarnu cyllid blwyddyn ariannol 2018/19 Bargen Ddinesig Bae Abertawe a rhywfaint o gyllid blwyddyn ariannol 2019/20 o bosibl) ar yr amod bod Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn gweithio gyda'r ddwy Lywodraeth er mwyn sefydlu dull seiliedig ar ymarfer da, er enghraifft ar gyfer rheoli buddion, o fewn ffrâm amser penodol a chymhwyso'r gwersi a ddysgwyd i Gyfrannau gwaith diweddarach. Byddem yn awgrymu y gellir gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â diffyg cydrannau pwysig ond technegol yn y bôn Achosion Busnes Pum Achos: yn enwedig lle mae'r arbenigedd a'r profiad yn nwylo'r ddwy Lywodraeth ar hyn o bryd (er enghraifft y dull o fonitro buddion gan

gynnwys creu swyddi cynaliadwy). Yn ogystal, gellid cysylltu'r dull o ryddhau cyllid yn y dyfodol â chyflawni argymhellion yr adroddiad hwn.

- 3.5.4 Yn fyr, dylid defnyddio dull cydweithredol yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod bwriad Penawdau'r Telerau'n cael ei gynnal. Os nad yw'n bosibl cyflawni rhai elfennau o achosion busnes hyfyw fel arall cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, dylid rhoi sylw ar unwaith i'r posibilrwydd o ryddhau cyllid yn amodol. Byddai hyn yn digwydd wrth i bob parti gydweithio i ffurfio safbwynt cytunedig ar fodelu a monitro buddion.

**Argymhelliad 7:** Ar gyfer Yr Egin a Glannau Abertawe, y ddau achos busnes sy'n agos at gael eu cymeradwyo'n derfynol, dylai uwch swyddogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol geisio dod i gasgliad yn fuan er mwyn sicrhau bod cyllid yn gallu llifo yn ôl yr angen. (AR UNWAITH)

- 3.5.5 Mae Atodiad A yn edrych yn benodol ar asesiad y Timau Adolygu o'r gallu i gyflawni Canlyniadau arfaethedig Bargaen Ddinesig Bae Abertawe a statws yr 11 rhaglen a phrosiect yn eu cyfanrwydd.

### 3.6 Y gallu i gyflawni Rhaglen Bae Abertawe yn y Dyfodol

- 3.6.1 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn frwdfrydig ynglŷn â Bargaen Ddinesig Bae Abertawe a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig i bobl yr ardal. Mae'r ddwy Lywodraeth yn dal yn gefnogol i'r Fargen. Er gwaethaf ein pryder, ynglŷn â diffyg arbenigedd a phrofiad y Swyddfa Ranbarthol o Reoli Portffolio/Rhaglenni/Prosiectau, fel y nodwyd uchod, trawyd y Tîm Adolygu gan statws uchel y bobl hynny sy'n gyfrifol am gyflawni'r fargen yn llwyddiannus ac yn fwyaf arbennig y rhai sy'n ymwneud â'i datblygu a'i chefnogi yn ddi-dâl. Yn yr un modd, mae'r Awdurdodau Lleol a chyrrff cyhoeddus eraill yn ardal Bargaen Ddinesig Bae Abertawe wedi dangos bod y gallu ganddynt i gyflawni prosiectau sylweddol: boed yn Awdurdodau Lleol dan raglenni Ysgolion yr 21ain Ganrif neu Leoedd Llewyrchus Llawn Addewid sy'n cael eu harwain gan y Llywodraeth; neu'n gynlluniau sy'n cael eu hysgogi'n lleol ac sy'n cynnwys nifer o wahanol ffynonellau cyllid a diddordebau. Mae gan Awdurdodau Lleol lawer o brofiad o gyflawni prosiectau seilwaith. Mae sefydliadau lechyd ac Addysg hefyd wedi cyflawni cynlluniau seilwaith mawr ers blynnyddoedd. Yr hyn nad oes ganddynt gymaint o brofiad ohono yw agweddau rhaglennol rheoli buddion hirdymor yn y rhaglenni trawsnewid y mae prosiectau seilwaith o'r fath yn eu galluogi. Mae'n bosibl mai dyma pam y mae rheoli buddion fel pe bai'n achosi problem iddynt.
- 3.6.2 Mae'r Tîm Adolygu yn credu y gall Bargaen Ddinesig Bae Abertawe wireddu'r addewidion cyffredinol a nodwyd ym Mhenawdau'r Telerau ym mis Mawrth 2017, cyn belled bod ein hargymhellion yn cael eu dilyn. Mae'n amhosibl dweud a fydd y gweithgareddau hyn yn sicrhau'r budd economaidd llawn yr anelir tuag ato ac sy'n seiliedig ar y model economaidd gwreiddiol. Mae Bargaen Ddinesig Bae Abertawe yn cynnig cyfle i ddal i weithio mewn partneriaeth yn y rhanbarth ac ehangu hynny. Mae cyfle i ysgogi'r economi leol a chreu swyddi cynaliadwy. Mae gan yr wyth partner hanes da o adfywio ac adeiladu seilwaith ac mae ganddynt y gallu angenrheidiol i'w gyflawni. Nid yw'r cyllid gan y ddwy Lywodraeth yn fawr ond mae'n ddigon i wneud gwahaniaeth. Mae ei angen er mwyn meithrin hyder a sbarduno cyllid preifat a chydweithio. Mae budd mawr yn cael ei gynnig i bobl y rhanbarth er nad yw'r gwerth penodol wedi'i gadarnhau eto.

3.6.3 Er mwyn sicrhau'r budd y bwriadwyd iddi arwain ato, mae angen i Fargen Ddinesig Bae Abertawe gadw'i chydlyniant, sy'n wynebu nifer o risgiau. Er enghraifft: gallai cyfuniad o bryder ynglŷn â chyllid a'r pryder ynglŷn â'r Pentref Llesiant, sydd wedi cael llawer o gyhoedduswydd, arwain at golli hyder yn y Rhanbarth; neu gallai colli Awdurdod Lleol sy'n bartner allweddol fod yn niweidiol iawn i hyder partneriaid y tu allan i'r sector cyhoeddus. Yn y cyd-destun hwn, rhaid dangos cynnydd go iawn ac rydym yn awgrymu bod yr amser i gyfnewid negeseuon eboost ac achosion busnes diwygiedig wedi bod. Mae'n hollbwysig bod o leiaf rai prosiectau'n cael eu cymeradwyo eleni o safbwynt ariannol ac er mwyn meithrin hyder. Mae'r risg ariannol i'r ddwy Lywodraeth yn fach iawn oherwydd y ffordd y mae Bargaen Ddinesig Bae Abertawe wedi cael ei strwythuro a gall methiant i fodloni amodau penodol arwain at dynnu cyllid yn ôl. Mae rhai Awdurdodau Lleol eisoes mewn sefyllfa ariannol fregus, gan eu bod wedi benthyg arian i gychwyn prosiectau sydd mewn perygl, a gallai eraill golli ffrydiau cyllido hollbwysig os na fydd cyllid y Llywodraeth ar gael mewn pryd. Dylid anelu felly at ryddhau cyllid yn y flwyddyn ariannol hon.

### **3.7 Y Ffordd Ymlaen**

3.7.1 Mae ein prif argymhellion wedi'u hamlinellu uchod, ond byddwn yn eu crynhoi yma mewn trefn gronolegol. Yr argymhelliad pwysicaf yw bod y Swyddfa Ranbarthol yn cael ei had-drefnu fel Swyddfa Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau ag arweinyddiaeth gref ac annibynnol.

3.7.2 Er mwyn dangos ymrwymiad y Llywodraeth yn y tymor byr rhaid i bawb allu gweld bod cyllid yn llifo. Rhaid canfod ffordd o sicrhau hyn ar yr un pryd â rheoli'r problemau a'r risgiau drwy gydweithio.

3.7.3 Yn y tymor canolig mae angen i'r partiön sy'n rhan o'r cytundeb barhau i gydweithio. Mae angen mwy o broffesiynoldeb ar y lefel Ranbarthol er mwyn sicrhau bod pob parti'n siarad yr un iaith. Mae'r ddau beth hyn yn mynd law yn llaw i raddau helaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud dechreuad pwysig drwy symud y cyfrifoldeb am Fargeinion Dinesig yng Nghymru i adran sy'n canolbwyntio ar gyflawni. Rhaid i'r Rhanbarth gamu ymlaen yn yr un modd a sicrhau bod gan y Swyddfa Ranbarthol yr awdurdod, y profiad a'r arbenigedd i negodi perthynas broffesiynol gref gyda'r adran honno a Gweinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU.

3.7.4 Rhaid rhoi sylw i bryderon ynglŷn â llywodraethu a sicrwydd. Rydym wedi gwneud nifer o gynigion a bydd angen ystyried y rhain gyda chanlyniad y gwahanol archwiliadau sy'n cael eu cynnal. Mae angen i bob parti gydweithio'n rhagweithiol er mwyn sicrhau bod proses yn cael ei datblygu a bod ymddygiadau'n galluogi pawb i fod yn hyderus ynglŷn â gallu'r Rhanbarth i reoli'r cyllid sylweddol sydd ar gael i'r Fargen Ddinesig. Credwn fod Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i had-drefnu sydd ag arweinyddiaeth broffesiynol ac annibynnol gref yn allweddol i hyn oherwydd y bydd yn darparu haen awdurdodol o sicrwydd a chefnogaeth i'r rhaglenni unigol ac i'r byrddau gwneud penderfyniadau. Bydd Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig yn rhoi strwythur i'r dull gweithredu ar gyfer sicrwydd. Wrth i'r hyder ddatblygu bydd hyn yn bodloni rhan helaeth o angen y ddwy Lywodraeth am sicrwydd a gallant dynnu'n ôl o'r manylion.

3.7.5 Yn y tymor hwy dylai Bargaen Ddinesig Bae Abertawe geisio rhedeg y rhaglenni o fewn portffolio a nodi rhaglenni eraill ar ei gyfer drwy ddefnyddio'r Bwrdd Strategaeth Economaidd fel ffwlcrwm i drosoli buddion cadarnhaol i'r rhanbarth.

## **A Hyder yn y Gallu i Gyflawni Canlyniadau Arfaethedig Bargaen Ddinesig Bae Abertawe**

- A.1.1 Mae'r Atodiad hwn yn edrych yn benodol ar asesiad y Tîm Adolygu o'r gallu i gyflawni Canlyniadau arfaethedig Bargaen Ddinesig Bae Abertawe yn eu cyfanrwydd.
- A.1.2 Canfu'r asesiad hwn nad oes Mandad Portffolio/Rhaglenni clir ar gyfer Bargaen Ddinesig Bae Abertawe sy'n nodi'r canlyniadau a geisir, dibyniaethau, llinellau amser, cyfyngiadau, rigiau ac ati. Y ddogfen debycaf i Fandad yw Penawdau'r Telerau (wedi'i llofnodi gan uwch arweinwyr gwleidyddol) sy'n rhestru'r 11 prosiect sy'n rhan o Fargaen Ddinesig Bae Abertawe ac yn awgrymu y byddai buddsoddiad disgwylidig Bargaen Ddinesig Bae Abertawe (Llywodraeth Ganolog, Llywodraeth Leol a Buddsoddiad Preifat) yn helpu i greu dros 9,000 o swyddi ychwanegol (h.y. 3% yn fwy na'r cyfanswm presennol o 302,000) ac yn helpu i wneud y gwerth ychwanegol gros £1.8 biliwn yn fwy. Mae Penawdau'r Telerau hefyd yn ymrwymo'r ddwy Lywodraeth i hyd at £241 miliwn o gyllid uniongyrchol dros 15 mlynedd ond nid ydynt yn dweud dim ynglŷn â'r proffil gwariant.
- A.1.3 Gan fod canlyniadau swyddi newydd/gwerth ychwanegol gros Penawdau'r Telerau yn seiliedig ar yr Achosion Busnes Amlinellol Strategol/Achosion Busnes Amlinellol a oedd ar gael ar y pryd, ac mewn llawer o achosion nid oes dim wedi newid ynglŷn â phrosiectau unigol ers hynny, mae'n anodd i'r Tîm Adolygu eu gwrthdweud ar sail yr wybodaeth sydd ar gael.
- A.1.4 Roedd pob parti yn cymryd risg strategol sylweddol pan lansiwyd Bargaen Ddinesig Bae Abertawe heb i unrhyw waith Rheoli Portffolio/Rhaglenni/Prosiectau (P3M) gael ei wneud i sefydlu'r cynllun lefel uchaf (o'r brig i lawr), risgiau, problemau, cyfleoedd, buddion, adnoddau ac ati. Yr arfer gorau, sy'n cael i'w ddilyn gan nifer o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn cael ei gefnogi gan yr Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau (IPA), fyddai cynnal asesiad strategol ffurfiol yn dod â'r rhai sy'n gyfrifol am bolisi a'r rhai sy'n gyfrifol am gyflawni at ei gilydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan mae 3 prosiect rhanbarthol, sy'n galluogi mewn egwyddor, ymhlith yr 11 prosiect: Seilwaith Digidol, Sgiliau a Thalentau a Chartrefi fel Gorsafoedd Pŵer.
- A.1.5 Nid yw'r Tîm Adolygu wedi gweld y modelau economaidd manwl ar gyfer pob un o'r 11 prosiect sy'n rhan o Fargaen Dinas-ranbarth Bae Abertawe ac felly nid yw mewn sefyllfa i wneud sylwadau ynglŷn â honiad Penawdau'r Telerau (yn seiliedig ar yr 11 Achos Busnes Amlinellol Strategol/Achos Busnes Amlinellol), *"Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn credu y bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i greu dros 9,000 o swyddi ychwanegol ac yn helpu i wneud y gwerth ychwanegol gros £1.8 biliwn yn fwy"*.
- A.1.6 Ffordd arall o asesu'r gallu i gyflawni yw mabwysiadu dull gweithredu o'r gwaelod i fyny a defnyddio canllawiau'r IPA ar asesu Hyder Cyflawni ar gyfer pob un o'r 11 prosiect: asesu cyflawni ar sail pedwar dimensiwn Amser (o gymharu â'r Cynllun), Cost (o gymharu â'r Gyllideb), Cyflawni Buddion (h.y. Perfformiad) a Chynnydd rhaglennol. Nid oedd gwerthusiad o'r fath yn ymarferol o fewn cyfyngiadau amser yr adolygiad gan y byddai pob un o'r 11 prosiect a fyddai'n agos at gael cymeradwyaeth i'r achos busnes llawn yn ddarostyngedig i Adolygiad Gateway™ 3 diwrnod ar wahân gan ddim o 3 o bobl.
- A.1.7 Nododd y Tîm Adolygu bod pob un o'r Achosion Busnes Amlinellol Strategol/Achosion Busnes Amlinellol yn ysgafn iawn o ran cynllunio manwl, rheoli risg/problemau a rheoli buddion; ond ni fyddai'n syndod yn y cyfnod cynnar hwn. Roedd yr Achosion Busnes Llawn a welwyd yn ystod

---

wythnos yr Adolygiad (Yr Egin a Glannau Abertawe) wedi gwella yn y cyswllt hwn er eu bod yn dal yn anaeddfed o ran rheoli buddion. Mae'r Tîm Adolygu wedi gweld Rhestr Buddion Ddrafft ar gyfer Yr Egin, sy'n ddechrau addawol, er bod rhagor o waith i'w wneud eto. Nid yw'r Tîm Adolygu wedi gweld Rhestr Buddion ar gyfer Glannau Abertawe. Mae'r gogwydd at optimistiaeth o @ 10% yn edrych yn fwy fel ffigwr wrth gefn yn hytrach nag asesiad Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi. Fodd bynnag, roedd y prosiectau hyn (a rhai prosiectau un Awdurdod eraill) yn symud yn eu blaen, er gwaethaf diffyg addewid o gyllid gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ar risg Partner y Prosiect, a thrwy hynny roeddent yn cadw at y llinellau amser arfaethedig er bod mwy o risg ariannol o ganlyniad i fwy o fenthyca (taliadau llog na chyllidebwyd ar eu cyfer a risg cost cysylltiedig). Yn gyffredinol, mae'r Tîm Adolygu yn credu y byddai Yr Egin a Glannau Abertawe mae'n debyg yn cael sgôr DCA 'Oren' sy'n nodweddiadol ar gyfer rhaglen drawsnewid economaidd sy'n cael ei galluogi gan seilwaith yng ngham esblygu achos busnes llawn. Byddai cydbwysedd y prosiectau yn Goch.

# Swansea Bay City Deal

## Internal Review of Governance Arrangements

March 2019



### Internal Review Team:

Pembrokeshire County Council (Lead & Report Author)

Neath-Port Talbot County Borough Council

Carmarthenshire County Council

City & County of Swansea Council





# Executive Summary

## 1. Introduction & Background

### 1.1 Political Context

The UK Government's Industrial Strategy identifies five Foundations and four Grand Challenges to ensure that the UK takes advantage of major global trends to improve productivity and the lives of people. City Deals are one of the main vehicles for driving economic activity and growth within the UK and are aligned to the five foundations of the UK Government's Industrial Strategy, they are specific to each Region and aim to build on the Region's strengths.

City Deals in Wales support Welsh Governments longer-term approach to Public Sector reform in Wales. Public Sector partnership arrangements already exist on various footprints to support and improve the provision of services for Education and Social Services & Wellbeing. The Heads of Terms signed by UK Government, Welsh Government and the Leaders of the four Local Authorities on 21 March 2017, commits the Swansea Bay City Region to working in partnership with Welsh Government to deliver local government service reforms that will see a number of strategic functions delivered at the regional level. The Joint Committee is required to keep under review the arrangements for discharging local authority functions that might be mandated to be exercised regionally (e.g. land use planning, transport planning and economic development).

Existing and future Government regeneration funding is expected to be based on a regional working approach. A key feature of the Welsh Governments Targeted Regeneration Investment Programme, which has been available to Local Authorities since April 2018, is the identification of projects through regional working. The proposed UK Shared Prosperity Fund is likely to award funding on the same basis.

### 1.2 Swansea Bay City Deal (SBCD)

The theme of the SBCD is the Internet Coast. There are four sub-themes, which are aligned to the UK's Industrial Strategy.

The Swansea Bay City Region covers Carmarthenshire, Swansea, Neath Port Talbot and Pembrokeshire. The SBCD is a partnership between the four Local Authorities, Local Health Boards, Universities and UK Government (UK) and Welsh Government (WG).

The four Local Authorities approved the Joint Committee Agreement (JCA) in July 2018 with the first meeting of the Joint Committee held on 31 August 2018. Prior to this and since 2016, the Joint Committee and Programme Board operated in shadow. In addition to the four Local Authorities, membership of the Joint Committee includes Swansea University, University of Wales Trinity St Davids, Hywel Dda University Health Board and Abertawe Bro

Morgannwg University Health Board. In shadow form, the Joint Committee focused on drafting the JCA, business plan development and negotiation with WG on interventions and enabling actions to assist with delivery of the SBCD.

Eleven projects, representing a £1.274 Bn investment, are expected to be completed within five years to secure maximum benefit for the Region. Government funding represents £241m (19%) of the overall investment and will be paid over fifteen years to the Accountable Body who will distribute to the partner Local Authorities on a yet to be agreed basis. In order to deliver the SBCD Programme within five years, the four Local Authorities will need to finance the Government funding through their own capital (or prudential borrowing) or revenue funding, with payback over fifteen years. Investment of £396m (31%) is required from the Public Sector and £637m (50%) is required from Private Sector investment.

## **2. Purpose, Scope & Methodology of the Internal Review**

As required by the Joint Committee, an Internal Review team made up of representatives from the four Local Authorities Internal Audit Services formed to undertake an internal review of the governance arrangements for the SBCD. This followed the suspension of senior staff at Swansea University and potential links in relation to the Llanelli Life Science and Wellbeing Village project, which forms part of the SBCD.

The purpose of the Internal Review is to provide assurance to the Joint Committee (including co-opted Members and the wider Partnership), and identify areas for improvement to ensure that the governance arrangements are robust and follow best practice.

The Joint Committee approved the Terms of Reference for the Internal Review, which used the CIPFA/SOLACE Delivering Good Governance in Local Government Framework 2016 as a basis for evaluating the effectiveness of the SBCD governance arrangements.

The Internal Review of the SBCD governance arrangements was an evidence-based appraisal, which involved meetings or discussions with stakeholders, a review of supporting documentation and an evaluation of the effectiveness of governance arrangements against best practice.

### 3. Summary of Key Findings

3.1.	The investigation at Swansea University, its links with the Llanelli Life Science and Wellbeing Village project and its subsequent referral to the police is having a detrimental impact on partners within the SBCD and is eroding trust across the partnership. However, all parties within the Partnership are committed to the Partnership and the delivery of the Programme.
3.2.	The statutory roles and the majority of principal roles and functions within the SBCD, as agreed within the JCA, are assigned to Carmarthenshire County Council and should be more evenly distributed across the partnership. These include three Statutory Roles (Head of Paid Service, Section 151 Officer and Monitoring Officer) and several supporting roles including Chair of the Programme Board (Lead Chief Executive), the Accountable Officer of the Regional Office function (Lead Chief Executive), and Internal Audit. Only two appointments have been made to the Regional Office - this function is largely resourced by Carmarthenshire County Council's staff, jointly funded by the SBCD partners in the sum of c£400k.
3.3.	Paragraph 55 within the Heads of Terms agreement states: "If the City Deal is not delivered as set out in the implementation plan agreed by the Swansea Bay Joint Committee, the Welsh Government and UK Government, or if any of the commitments in this deal document are not fulfilled, the Governments will review and may halt the payment of any unpaid funding for this deal." This could present a risk to the Programme for which there should be a contingency plan as recommended in the National Assembly for Wales Economy, Infrastructure and Skills Committee report on City Deals and the Regional Economies of Wales, November 2017.
3.4.	At this early stage in the programme, there is a lack of certainty over the funding in terms of how some aspects of both private and public sector funding will be secured. However, a high level estimate of funding streams and costs for each of the eleven projects is included within the draft Implementation Plan. Confidence in where the funding will come from and when it will be received is a priority as projects develop.
3.5.	The expected level of borrowing per Local Authority has not been established at this point and this will have to be determined as a priority to ensure Local Authority commitment and assurance. Local Authority funding arrangements have not been resolved to date, but are likely to require multiple funding agreements between partners and the Accountable Body; this may result in disproportionate effort and the most pragmatic methods need to be agreed promptly.
3.6.	Interviewees stated that some of the local projects were planned and would have been prioritised at Local Authority level but were included in the SBCD to access funding. The SBCD should be seen as a Programme of 11 related projects that deliver the vision of the Internet Coast on which SBCD was originally based. Reliance on local policies and procedures along with approval and scrutiny of projects at a Local Authority level detracts from the regionality of the SBCD.
3.7.	UK & WG have not approved the Implementation Plan. In order to approve the Implementation Plan they require a Programme financial plan, an improved Programme risk register and agreed prioritisation of projects.

